Rhif ymchwil gymdeithasol: 24/2026

Dyddiad cyhoeddi: 26/02/2026

# Gwerthuso'r cynllun peilot incwm sylfaenol ar gyfer pobl sy'n gadael gofal yng Nghymru: adroddiad blynyddol 2025 i 2026

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83715-945-1

Gwerthuso'r cynllun peilot incwm sylfaenol ar gyfer pobl sy'n gadael gofal yng Nghymru: trydydd adroddiad blynyddol, 2025 i 2026

Awduron: Zoe Bezeczky[1], Vibhor Mathur[1], Louise Roberts[1], Dimitris Vallis[2], Michael Sanders[2], Kate E Pickett[4], Matthew Johnson[5], Rod Hick[6], Elizabeth Schroeder[3], Patrick Fahr[3], Stavros Petrou[3], Sally Holland[1] a David Westlake[1]

1. Y Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE), Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd

2. Y Sefydliad Polisi, Coleg y Brenin, Llundain

3. Adran Gofal Sylfaenol Gwyddorau Iechyd Nuffield, Prifysgol Rhydychen

4. Yr Adran Gwyddorau Iechyd, Prifysgol Efrog

5. Yr Adran Gwaith Cymdeithasol, Addysg a Lles Cymunedol, Prifysgol Northumbria

6. Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd

Adroddiad Ymchwil Terfynol: Bezeczky Z, Mathur V, Roberts L, Vallis D, Sanders M, Pickett KE, Johnson M, Hick R, Schroeder E, Fahr P, Petrou S, Holland S, Westlake D. (2026). Gwerthuso'r cynllun peilot incwm sylfaenol ar gyfer pobl sy'n gadael gofal yng Nghymru: trydydd adroddiad blynyddol, 2025 i 2026 Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 24/2026,

ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-peilot-incwm-sylfaenol-i-pobl-ifanc-syn-gadael-gofal-yng-nghymru-adroddiad-blynyddol-2025-2026

Safbwyntiau'r ymchwilwyr yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o fanylion, dyma’r manylion cyswllt:

Ymchwil Cyfiawnder Cymdeithasol

Yr Is-adran Tystiolaeth a Chymorth Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru

## Cydnabyddiaethau

Fel gyda'n hadroddiadau blynyddol blaenorol, cyfrannodd llawer o bobl at yr adroddiad hwn. Hoffem ddiolch yn arbennig i'r bobl ifanc, gweithwyr proffesiynol, a chefnogwyr enwebedig eraill niferus sydd wedi cymryd rhan mewn grwpiau ffocws a chyfweliadau. Fel y dywedasom yn flaenorol, ni fyddai'r astudiaeth yn bosibl heb eu parodrwydd nhw i rannu profiadau o'r cynllun peilot a'r ymdrechion i'w gefnogi. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i'r bobl ifanc a oedd yn rhan o'r cynllun peilot a fu'n rhannu eu profiadau â ni. Gobeithiwn y bydd y dadansoddiad hwn yn gwneud cyfiawnder â'r hyn a ddywedasoch wrthym.

Mae cefnogaeth barhaus cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn amhrisiadwy, yn enwedig y rheini yn yr Is-adran Trechu Tlodi a Chynorthwyo Teuluoedd a'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi. Maent wedi cydlynu'r gwerthusiad ac wedi darparu adborth ar fersiynau drafft cynharach o'r adroddiad hwn. Fel bob amser, mae'r adroddiad yn cael ei wella gan gefnogaeth arbenigol gan sawl cydweithiwr o fewn y Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant ym Mhrifysgol Caerdydd a'r myfyrwyr sydd wedi bod yn gweithio gyda ni, yn cynnwys Emily Baker, Lucy Metcalfe, Pamela Paniccia a Felicity Smith.

Yn olaf, mae'r gwerthusiad yn parhau i elwa o ddoethineb ac arbenigedd grwpiau cynghori; y Grŵp Cynghori Strategol Allanol, a benodwyd gennym i'n tywys ar faterion methodolegol ac ymchwil, a Grŵp Cynghori Ymchwil a Gwerthuso Llywodraeth Cymru. Gwnaethom hefyd elwa o fewnbwn gan Grŵp Cynghori Technegol annibynnol o arbenigwyr allanol. Mae'r Grŵp Cynghori Technegol bellach wedi'i ddiddymu ar ôl diwedd y cynllun peilot ei hun, a hoffem nodi ein diolchgarwch am y cyngor a'r arweiniad a ddarparwyd.

# Tabl cynnwys


Rhestr o’r tablau ..... 4

Rhestr o’r ffigurau ..... 5

Geirfa ..... 6

1. Cyflwyniad a chefndir ..... 12

1.1. Trosolwg o’r cynllun peilot ..... 12

1.2. Trosolwg o’r gwerthusiad ..... 14

1.3. Nodau a chwmpas yr adroddiad hwn ..... 17

2. Methodoleg ..... 18

2.1. Cyfweliadau a grwpiau ffocws gyda phobl ifanc sy’n dderbynyddion ..... 18

2.2. Cyfweliadau a grwpiau ffocws gyda gweithwyr proffesiynol ..... 20

2.3. Dadansoddiad i lywio damcaniaeth y rhaglen ddiwygiedig ..... 22

Canfyddiadau 1: Profiadau pobl ifanc o’r cynllun peilot ..... 23

3.1 Canfyddiadau ar ddyluniad ..... 23

3.2 Llesiant ac iechyd ..... 24

3.3 Gwaith, addysg ac hyfforddiant ..... 28

3.4 Tai ..... 34

3.5 Hamdden, cymdeithasu a theithio ..... 38

3.6 Perthnasoedd ..... 38

3.7 Rheoli arian y prosiect ..... 40

3.8 Ymgysylltu â chymorth ..... 42

3.9 Llywio diwedd y cynllun peilot ..... 46

3.10 Awgrymiadau i’r dyfodol ..... 47

Canfyddiadau 2: Canfyddiadau a phrofiadau gweithwyr proffesiynol ..... 50

4.1 Tri gair i grynhoi canfyddiadau a phrofiadau ..... 50

4.2 Canfyddiadau o effaith ..... 52

4.3 Arsylwadau ar ôl peilot ..... 64

4.4 Safbwyntiau ar ddyluniad y cynllun peilot ..... 65

Canfyddiadau 3: Damcaniaeth y rhaglen a’r model rhesymeg wedi’u diweddaru ..... 72

5.1 Adolygu damcaniaeth y rhaglen a model rhesymeg ..... 72

5.2 Crynodeb o ddamcaniaeth gychwynnol y rhaglen ..... 73

5.3 Damcaniaeth ddiwygiedig y rhaglenni ..... 73

5.4 Crynodeb ..... 86

6. Trafodaeth ........................................................................................... 94
6.1 ‘Rhyddid go iawn’ ........................................................................................... 95
6.2 Amodau a diamodrwydd ........................................................................................... 95
6.3 Y presennol a’r dyfodol ........................................................................................... 96
6.4 Ehangu a chyfangu ........................................................................................... 97
6.5 Y cynllun peilot fel rhan o system amherffaith ........................................................................................... 97
Casgliadau ........................................................................................... 99
Atodiad A: Canllaw pynciau cyfweliad enghreifftiol ar gyfer pobl ifanc ............... 107
Atodiad B: Canllaw pynciau grŵp ffocws enghreifftiol ar gyfer gweithwyr proffesiynol ........................................................................................... 109
Atodiad C: Cwmwl geiriau yn seiliedig ar gyflwyniadau cryno tri gair gweithwyr proffesiynol ar ddechrau’r cynllun peilot ........................................................................................... 110
Atodiad D: Crynodeb o’r diwygiadau a wnaed i ddamcaniaeth gychwynnol y rhaglen ........................................................................................... 111

# Rhestr o'r tablau

Tabl 1: Cyfranogiad pobl ifanc mewn gweithgareddau casglu data ansoddol .......... 19
Tabl 2: Cyfranogiad mewn gweithgareddau casglu data ansoddol .......................... 21

# Rhestr o'r ffigurau

Ffigur 1: Cwmwl geiriau yn seiliedig ar gyflwyniadau crynodeb tri gair gweithwyr proffesiynol ........ 51
Ffigur 2: Diagram model rhesymeg cychwynnol ar gyfer y cynllun peilot incwm sylfaenol ar gyfer pobl sy'n gadael gofal yng Nghymru ........ 90
Ffigur 3: Diagram model rhesymeg diwygiedig ar gyfer y cynllun peilot incwm sylfaenol ar gyfer pobl sy'n gadael gofal yng Nghymru ........ 92

## Geirfa

**Incwm sylfaenol**

Mae incwm sylfaenol yn daliad arian parod cyfnodol a gyflwynir yn ddiamod i bawb yn unigol, heb brawf modd na gofyniad i weithio.

**Cyfrifiad 'Gwell eich byd'**

Wedi'i gynnig cyn y cynllun peilot a thrwy gydol y cynllun i dderbynyddion cymwys er mwyn deall a fyddai'r unigolyn hwnnw'n 'well ei fyd' pe bai'n rhan o'r cynllun peilot ai peidio. Dylai hyn nid yn unig ystyried materion ariannol, ond hefyd cymorth ehangach y gallent fod â'r hawl i'w gael neu beidio.

**BIP**

Term byr a ddefnyddir gan randdeiliaid i gyfeirio at y cynllun peilot. Er nad yw hwn yn derm swyddogol, fe'i defnyddir gan gyfranogwyr yr ymchwil, ac mae wedi'i gynnwys mewn rhai dyfyniadau.

**Cyngor ar Bopeth Cymru**

Rhwydwaith o elusennau annibynnol, seiliedig ar ardal sy'n cynnig cyngor annibynnol a diduedd am ddim i unrhyw un. Roedd y gwasanaeth yn gysylltiedig â datblygu'r gwasanaeth lles cymdeithasol i ddechrau, ac mae meysydd cymorth yn cynnwys: budd-daliadau, gwaith, dyled ac arian, hawliau defnyddwyr, tai, teulu, y gyfraith a llysoedd, mewnfudo ac iechyd. Darparodd y sefydliad gyngor ariannol a chymorth ychwanegol i dderbynyddion y cynllun peilot incwm sylfaenol ar gyfer pobl sy'n gadael gofal yng Nghymru trwy'r Gronfa Gynghori Sengl. Arferai'r sefydliad gael ei alw'n Ganolfan Cyngor ar Bopeth, ac yn aml cyfeirir ato fel CAB gan gyfranogwyr yn yr astudiaeth hon.

**Incwm amodol**

Mae hyn yn ymwneud â'r defnydd o incwm, lle mae incwm yn cael ei dalu dim ond os bodlonir amodau penodol. Roedd yr incwm a ddarparwyd gan y cynllun peilot incwm sylfaenol ar gyfer bobl yn gadael gofal yng Nghymru yn ddiamod.

**Dadansoddiad canlyniadau a chostau**

Math o werthusiad economaidd sy'n cyflwyno costau wedi'u dadgyfuno ac ystod o ganlyniadau. Argymhellir dadansoddiadau canlyniadau a chostau ar gyfer ymyriadau cymhleth a allai fod â nifer o oblygiadau, ac ar gyfer ymyriadau iechyd y cyhoedd a allai fod ag amrywiaeth o fuddion sy'n anodd eu cyfosod mewn uned gyffredin.

**Cogio**

Pan fydd grŵp troseddau cyfundrefnol neu droseddwr yn cymryd drosodd cartref unigolyn a'i ddefnyddio fel sylfaen ar gyfer troseddu. Trwy ddefnyddio cartref dioddefwr, mae troseddwyr yn gobeithio osgoi'r heddlu.

**Derbynnydd cymwys**

Person ifanc a oedd yn berson yn gadael gofal Categori 3 (fel yr amlinellir yn [Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014)] ac a drodd yn 18 oed rhwng 1 Gorffennaf 2022 a 30 Mehefin 2023 (ar ôl troi'n 18 oed, daw ymadawr gofal Categori 1 neu 2 yn ymadawr gofal Categori 3). Nid oedd cyfranogiad yn orfodol ac roedd yn rhaid i'r derbynyddion gofrestru er mwyn ymuno â'r cynllun peilot.

**Lwfans Cynhaliaeth Addysg**

Mae'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn daliad wythnosol o £40 i bobl ifanc cymwys rhwng 16 a 18 oed sydd mewn addysg amser llawn. Mae'n helpu gyda chostau addysg bellach.

**Gofal maeth**

Mae gofal maeth yn ffordd o gynnig cartref i blant a phobl ifanc pan nad yw eu teulu eu hunain yn gallu gofalu amdanynt. Yn ôl Maeth Cymru, mae tua 70 y cant o blant sy'n cael gofal oddi cartref yng Nghymru yn byw gyda theuluoedd maeth. Yn wahanol i fabwysiadu, lle mae gwarcheidiaeth gyfreithiol plant yn cael ei throsglwyddo o'u teulu biolegol, mae gofalwyr maeth yn darparu gofal nes bod y plentyn naill ai'n dychwelyd i'w deulu biolegol, neu'n symud i rywle arall, gan gynnwys allan o'r system ofal pan fydd yn oedolyn. Gall y trefniant hwn bara am flynyddoedd lawer.

**Penaethiaid gwasanaethau plant**

Mae penaethiaid gwasanaethau plant yn uwch-arweinwyr sy'n gyfrifol am wasanaethau plant mewn awdurdodau lleol. Maen nhw fel arfer yn gosod cyfeiriad strategol y gwasanaeth, ac yn darparu arweinyddiaeth, goruchwyliaeth, arweiniad a chefnogaeth i uwch-reolwyr eraill.

**Cyllid a Thollau EF (CThEF)**

CThEF yw awdurdod treth, taliadau a thollau'r Deyrnas Unedig. Dyma adran llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am drin trethi a rheoleiddio yswiriant gwladol, ymhlith swyddogaethau ariannol eraill.

**Cyfrif cynilo unigol (ISA)**

Cyfrif cynilo neu log yn y DU sy'n caniatáu i'r unigolyn gynilo neu fuddsoddi hyd at swm penodol cenedlaethol yn ddi-dreth.

**Rheolwyr tîm gadael gofal**

Y rhai sy’n gyfrifol am y tîm o gynghorwyr pobl ifanc mewn awdurdod lleol. Fel arfer, mae ganddyn nhw gymhwyster gwaith cymdeithasol.

**Awdurdod lleol**

Mae 22 o awdurdodau lleol (cynghorau) yng Nghymru sy’n ffurfio haen llywodraeth leol etholedig Cymru. Maen nhw fel arfer yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant.

**Isafswm cyflog / isafswm cyflog cenedlaethol**

Mae isafswm cyflog yn isafswm cyflog cenedlaethol gorfodol sy’n daladwy i weithiwr. Mae’r swm yn amrywio, yn dibynnu ar oedran yr unigolyn ac a ydyw’n brentis. Mae isafswm cyflog yn cael ei adolygu a’i newid yn flynyddol ar 1 Ebrill.

**Taliad misol**

Mae’r derbynnydd wedi dewis cael un taliad y mis. Bydd yn cael £1,280 yn uniongyrchol (yn glir o dreth) oni bai ei fod hefyd wedi dewis taliadau uniongyrchol i’w landlord. Os felly, bydd y taliad a geir yn cael ei ostwng yn unol â hynny. Mae treth o £320 yn cael ei thalu’n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru i CThEF.

**Nvivo**

Meddalwedd dadansoddi data ansoddol a ddefnyddir i godio a rheoli data ansoddol.

**Cyfranogwyr**

Y bobl ifanc a’r gweithwyr proffesiynol a gymerodd ran yn y cyfweliadau a’r grwpiau ffocws, gan ddarparu gwybodaeth a safbwyntiau manwl.

**Cynghorydd personol / Cynghorydd person ifanc (y cyfeirir atynt yn aml fel CP / CPI)**

Mae cynghorydd personol yn gyfrifol am weithio gyda phobl ifanc sydd wedi gadael gofal yr awdurdod lleol (ac mae’n aml mewn cysylltiad â nhw cyn hyn er mwyn pontio mor ddidrafferth â phosibl o ddarpariaeth gweithiwr cymdeithasol). Mae cynghorwyr personol hefyd yn cyfrannu at gynlluniau llwybr a sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni’n gywir.

**Hyd y cynllun peilot**

Hyd y cynllun peilot ar gyfer derbynyddion, sef uchafswm o 24 mis.

**Ymarferydd neu ymarferwyr / Gweithiwr neu weithwyr proffesiynol**

Y rhai sy'n gweithio i ddarparu'r cynllun peilot ac a gymerodd ran mewn cyfweliad neu grŵp ffocws (er enghraifft, cynghorwyr personol, rheolwyr tîm a Chyngor ar Bopeth Cymru).

**Cyflog Byw Gwirioneddol / Cyflog Byw Cymru**

Cyfradd incwm a gyfrifir yn annibynnol yn seiliedig ar yr hyn y mae ei angen ar bobl ar gyfer safon byw boddhaol. Mae swm taliad y cynllun peilot, a gyfrifir yn flynyddol gan y Resolution Foundation ac a oruchwylir gan y Comisiwn Cyflog Byw, yn seiliedig ar y gyfradd ym mis Tachwedd 2021 am yr hyn sy'n gyfwerth ag wythnos waith 37 awr.

**Gwerthusiad realaidd**

Dull o werthuso wedi'i seilio ar y rhagosodiad bod unrhyw ymyriad a luniwyd i ddatrys problem gymdeithasol yn dibynnu ar benderfyniadau dynol, yn ogystal â ffactorau eraill er mwyn iddi weithio. Mae hyn yn golygu y gallai'r un ymyriad a weithredir mewn cyd-destun gwahanol weithio (neu beidio) trwy ddulliau gwahanol, ac felly cynhyrchu canlyniadau gwahanol. Yn hytrach na phennu 'effaith gyffredin' polisi, mae gwerthusiadau realaidd yn ceisio esbonio beth sy'n gweithio, i bwy ac ym mha amgylchiadau.

**Derbynnydd**

Y rhai cymwys yn gadael gofal a ddewisodd gael yr incwm sylfaenol.

**Dadansoddiad cost a budd cymdeithasol**

Estyniad o ddadansoddiad cost a budd, wedi'i addasu i ystyried y sbectrwm llawn o gostau a buddion (gan gynnwys effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol) y mae cymdeithas gyfan yn eu hwynebu o ganlyniad i ymyriad neu raglen.

**Cronfa Dydd Gŵyl Dewi**

Cronfa a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017 i gynorthwyo pobl ifanc sydd neu sydd wedi bod mewn gofal awdurdodau lleol. Mae'n rhan o'r Grant Plant a Chymunedau. Fe'i gweinyddir gan awdurdodau lleol ac fe'u hanogir i fod yn hyblyg a chreadigol wrth benderfynu sut i'w defnyddio i ddiwallu anghenion pobl ifanc orau yn yr un modd ag y gallai rhieni biolegol gefnogi eu plant yn ariannol.

**Rhanddeiliaid**

Mae rhanddeiliaid yn unigolion, grwpiau neu sefydliadau sydd â rhyw fath o gyfran yn y portffolio, y rhaglen neu'r prosiect sy'n cael ei wneud. Gallai hyn fod oherwydd eu bod yn noddi neu'n buddsoddi yn y gwaith, yn ymwneud â'i ddarparu, yn elwa ohono, yr effeithir arnynt ganddo, neu fod ganddynt ddiddordeb ehangach ynddo.

**Tai / llety â chymorth**

Math o lety sydd hefyd yn darparu cymorth ychwanegol, fel gofal a goruchwyliaeth.

**Taliad dwywaith y mis**

Mae'r derbynnydd wedi dewis cael ei incwm sylfaenol wedi'i rannu'n ddau daliad bob mis. I'r rhai sydd heb daliadau uniongyrchol i landlordiaid, mae hyn yn golygu dau daliad o £640 bob mis (yn glir o dreth). I'r rhai sydd â thaliadau uniongyrchol i landlordiaid, caiff y taliadau a geir eu gostwng yn unol â hynny.

**Diamodrwydd**

Mae hyn yn ymwneud â defnyddio'r incwm. Nid oes unrhyw ofynion na disgwyliadau ynghlwm wrth y taliadau incwm sylfaenol, a chaiff y derbynyddion ddewis beth i'w wneud â'u hincwm.

**Incwm sylfaenol cyffredinol**

Taliad rheolaidd a roddir i bawb mewn cymdeithas er mwyn creu llawr isafswm incwm. Mae'r arian yn ddiamod yn yr ystyr ei fod yn cael ei dalu i bobl mewn unrhyw amgylchiadau, ac nid yw'r ffyrdd y gellir ei wario yn cael eu pennu.

**Credyd Cynhwysol**

Mae Credyd Cynhwysol yn fudd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd, sy'n disodli ystod o fudd-daliadau a chredydau treth yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys y Budd-dal Tai, cymorth i bobl ddi-waith (Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm), y rhai sydd ar incwm is (Cymhorthdal Incwm, Credyd Treth Gwaith, Credyd Treth Plant), neu'r rhai sydd â chyflyrau iechyd neu anableddau sy'n effeithio ar faint o waith y gallant ei wneud (Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm). Nid yw'n disodli budd-daliadau i helpu gyda chostau byw ychwanegol i'r rhai sydd â chyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor neu anabledd ac sy'n cael trafferth gwneud tasgau pob dydd penodol oherwydd eu cyflwr (Taliad Annibyniaeth Personol). Telir Credyd Cynhwysol yn fisol fel un swm ac mae'n cynnwys 'lwfans safonol' sylfaenol a thaliadau atodol ar gyfer y rhai sy'n bodloni meini prawf ychwanegol.

**Pan fydda i'n barod**

Mae 'Pan fydda i'n barod' yn galluogi pobl ifanc mewn gofal maeth i barhau i fyw gyda'u gofalwyr maeth pan fyddant yn troi'n 18 oed, hyd at 21 oed, neu hyd at 25 oed os ydynt yn cwblhau rhaglen addysg neu hyfforddiant y cytunwyd arni. Fe'i sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015, ac mae'n debyg mewn sawl ffordd i'r cynllun 'Staying Put' yn Lloegr, neu leoliadau 'gofal estynedig' yn rhyngwladol. Nid yw pobl ifanc dros 18 oed 'mewn gofal' yn gyfreithiol, nac yn 'derbyn gofal' gan yr awdurdod lleol mwyach, felly nid yw hyn yn cyfrif fel 'lleoliad' maeth. Yn hytrach, fe'i hystyrir yn 'drefniant byw ôl-18', sy'n golygu bod y person ifanc yn lletya yn y cartref, i bob pwrpas, a bod y gofalwr yn dod yn landlord y person ifanc (ac felly'n cael ei

dalu ar y sail hon yn unig). Fodd bynnag, mae’r disgwyliad bod gofalwr maeth yn gofalu am blentyn sydd wedi’i leoli gydag ef fel petai’n aelod o’i deulu ei hun yn parhau trwy’r trefniant ‘Pan fydda i’n barod’.

# 1. Cyflwyniad a chefndir

Lansiwyd y cynllun peilot incwm sylfaenol ar gyfer pobl yn gadael gofal yng Nghymru (y cyfeirir ato yma fel ‘y cynllun peilot’) ym mis Gorffennaf 2022, a rhoddwyd y taliadau cyntaf i’r derbynyddion ym mis Awst 2022 (Llywodraeth Cymru, 2022a). Mae cyflwyno’r cynllun peilot bellach wedi dod i ben, gyda’r gwerthusiad o’r cynllun yn parhau hyd at 2027. Dyma’r trydydd adroddiad blynyddol o’r gwerthusiad, yn dilyn adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2024 a 2025, a gyflwynodd ganfyddiadau interim (Holland ac eraill, 2024; Mathur ac eraill, 2025). Mae protocol yr astudiaeth a’r cynllun dadansoddi ystadegol, sy’n disgrifio dyluniad a dulliau’r gwerthusiad yn fanylach, hefyd ar gael (Westlake ac eraill, 2024; Sanders ac eraill, 2025).

Mae’r gyfres o adroddiadau, a gyhoeddir yn ystod chwarter cyntaf pob blwyddyn, yn canolbwyntio ar wahanol rannau o’r astudiaeth wrth i ganlyniadau a chanfyddiadau ddod ar gael. Archwiliodd yr adroddiad blynyddol cyntaf yn 2023–2024 ganfyddiadau a phrofiadau ymarferwyr yn ystod camau cynnar y cynllun peilot. Bu’n archwilio’r sail ddamcaniaethol a oedd yn sail i’r cynllun peilot, a chyflwynwyd data disgrifiadol am y garfan o bobl ifanc dan sylw. Rhoddodd yr ail adroddiad blynyddol yn 2024–2025 ddiweddariad gan grŵp cyd-gynhyrchu’r gwerthusiad gan amlinellu ei gyfraniad i’r prosiect. Roedd hefyd yn cwmpasu dau faes dadansoddi, sef profiadau derbynyddion incwm sylfaenol, yn seiliedig ar gyfweliadau a gynhaliwyd yn gynnar yn y cynllun peilot, a dadansoddiad cychwynnol o weithredu, yn seiliedig ar ystod o ddata ansoddol, ond yn enwedig grwpiau ffocws gyda’r llunwyr polisi a fu’n ymwneud â chyflawni’r cynllun peilot.

Dyma’r adroddiad cyntaf i gael ei gyhoeddi ers i’r cynllun peilot ddod i ben. Mae pob person ifanc a gafodd yr incwm bellach wedi ymadael â’r cynllun. Mae’r adroddiad yn dychwelyd at grwpiau cyfranogwyr a themâu a archwiliwyd yn yr adroddiad blynyddol cyntaf, ac yn adeiladu arnynt. Yn ogystal â darparu dadansoddiad wedi’i ddiweddaru o brofiadau ymarferwyr a phobl ifanc yn y cynllun peilot, mae’r adroddiad yn dychwelyd at ddamcaniaeth gychwynnol y rhaglen a ddatblygwyd ar y dechrau, ac yn ei diweddaru yn seiliedig ar y dadansoddiad a gwblhawyd hyd yma. Mae hyn yn darparu golwg wedi’i ddiweddaru ar sut y disgwylir i’r cynllun peilot gynhyrchu canlyniadau cadarnhaol i dderbynyddion, ac ym mha amgylchiadau.

Tua diwedd yr astudiaeth, bydd dadansoddiadau meintiol o effaith ar y canlyniadau o ddiddordeb yn cael eu hadrodd, i archwilio beth yw effeithiau’r cynllun peilot hyd yma. Ochr yn ochr â hyn, cyflwynir dadansoddiad economaidd o gost-effeithiolrwydd .

## 1.1. Trosolwg o’r cynllun peilot

Mae’r cynllun peilot yn unigryw mewn sawl ffordd, ac felly wedi denu llawer iawn o ddiddordeb o fewn y Deyrnas Unedig a ledled y byd. Nid oes cynllun o’r fath hyd yma wedi rhoi taliadau rheolaidd mor sylweddol â’r rhai y cafodd pobl ifanc a oedd

yn rhan o'r cynllun peilot hwn, ac nid oes unrhyw gynlluniau eraill o ran incwm sylfaenol wedi bod yn agored i garfan o bobl yn gadael gofal o 18 oed yn cael taliadau am hyd at ddwy flynedd. Mae mwy o fanylion am natur y cynllun peilot ar gael gan Lywodraeth Cymru, ond disgrifir agweddau allweddol y cynllun yn gryno yma.

Cyn trafod pwy a gafodd y taliadau a sut y darparwyd y taliadau incwm sylfaenol, mae'n werth nodi bod dyluniad y cynllun peilot yn seiliedig ar bedwar egwyddor craidd. Disgrifiwyd y rhain gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am y cynllun peilot, Jane Hutt AS, yn ei datganiad ysgrifenedig yn 2022 (Llywodraeth Cymru, 2022b):

- Ni ddylai neb sy'n cymryd rhan yn y cynllun peilot fod ar ei golled
- Ni ddylai fod unrhyw amodau ar yr incwm a geir
- Dylid talu'r un swm o arian i bawb
- Ni ddylid newid y swm a delir hanner ffordd drwy'r cynllun peilot.

Er mwyn bod yn gymwys, byddai'n rhaid bod yn berson ifanc yn gadael gofal categori 3. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i berson ifanc fod wedi cael gofal gan un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru am gyfnod o 13 wythnos o leiaf (neu amryfal gyfnodau yn cyfateb i o leiaf 13 wythnos), gan ddechrau ar ôl ei ben-blwydd yn 14 oed ac yn gorffen ar ôl cyrraedd 16 oed. Wrth gofrestru, mae'n rhaid iddynt fod wedi preswylio yng Nghymru neu'n cael cymorth fel person sy'n gadael gofal gan adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol yng Nghymru ac yn byw yn rhywle arall.

I'r rhai a oedd yn bodloni'r meini prawf hyn, roedd gan y cynllun peilot gyfnod cofrestru yn para 12 mis, rhwng 1 Gorffennaf 2022 a 30 Mehefin 2023 ar gyfer pawb a gafodd ben-blwydd yn 18 oed yn ystod y cyfnod hwnnw. I'r rhai a gofrestrodd, dechreuodd y taliad y mis ar ôl eu pen-blwydd yn 18 oed gan barhau am 24 mis, ac eithrio'r rhai a gofrestrodd yn hwyr am resymau y tu hwnt i'w rheolaeth, ac a ddechreuodd felly gael taliadau yn fuan ar ôl y pwynt hwn. Cyfanswm y taliad incwm sylfaenol oedd £1,600 gros y mis, a oedd yn cael ei drethu ymlaen llaw, fel bod y derbynyddion yn cael swm clir o £1,280 bob mis. Mae rhai derbynyddion yn gymwys i gael ad-daliad treth, yn dibynnu ar enillion trethadwy eraill, fel enillion o gyflogaeth. Gall derbynyddion yr incwm sylfaenol ddewis taliad mewn un trosglwyddiad misol o'r swm llawn, neu drosglwyddiadau o hanner y swm ddwywaith y mis. Gallant hefyd ddewis talu costau tai o'r incwm sylfaenol yn uniongyrchol i'w landlordiaid. Pan ddatblygwyd y polisi, yn 2021–2022, gosodwyd lefelau'r taliad i gyd-fynd yn fras â'r Cyflog Byw Gwirioneddol (Cyflog Byw Cymru, 2023) ar gyfer gweithiwr amser llawn bryd hynny. Roedd y taliadau hyn yn ddiamod, yn unol â'r ail egwyddor a grybwyllwyd uchod, a chyda'r syniad y dylai derbynyddion fod yn rhydd i wneud eu dewisiadau bywyd eu hunain heb gael eu gorfodi i ddilyn llwybr penodol.

Yn ogystal â'r taliadau incwm sylfaenol bob mis, roedd y bobl ifanc dan sylw hefyd yn gymwys i gael cymorth ynglŷn â chyllidebu a rheoli cyllid yn rhan o'r cynllun peilot. Darparwyd hyn gan Gyngor ar Bopeth Cymru, ond cynigiodd rhai awdurdodau lleol gyngor ariannol ar lwybrau eraill hefyd. Cynlluniwyd yr elfen hon o'r cynllun peilot i gynnig cyngor ariannol a chymorth wedi'i deilwra i bobl ifanc unigol, gan gynnwys 'cyfeirio a chymorth ychwanegol yn ymwneud â llesiant, addysg, gwaith, yn ogystal â chyngor ariannol ehangach' (Llywodraeth Cymru, 2022a). Fel rhan o'r penderfyniad i gofrestru ar y cynllun peilot, roedd cyfrifiad 'Gwell eich Byd' dewisol ar gael i lywio'r penderfyniad hwn ac amcangyfrif  a fyddai'r incwm sylfaenol yn gyfystyr â chynnydd clir yn incwm unigolyn.

Ni fwriedir i unrhyw agwedd ar y cynllun peilot effeithio ar eu cymhwysedd am wasanaethau arferol ar gyfer y rhai yn gadael gofal. Mae hyn yn cyd-fynd â'r egwyddor gyntaf a grybwyllwyd uchod, ac yn adlewyrchu awydd i ychwanegu at y cymorth sydd ar gael i bobl sy'n gadael gofal yn hytrach na disodli'r ddarpariaeth bresennol. Fel rhai sy'n gadael gofal, mae pobl ifanc yn gymwys i gael ystod o wasanaethau, gan gynnwys cymorth gan 'gynghorydd person ifanc' a ddyrannwyd, sy'n darparu cyngor a chymorth un-i-un ynglŷn ag agweddau amrywiol ar fywyd. Maen nhw hefyd wedi'u heithrio rhag talu'r dreth gyngor, yn gymwys ar gyfer bwrsariaethau addysg uwch a thaliadau costau byw, a gallant wneud cais am grantiau ariannol trwy Gronfa Dydd Gŵyl Dewi, sy'n cael ei gweinyddu gan awdurdodau lleol ochr yn ochr â mathau lleol o gymorth.

Mae'r cynllun peilot wedi bod yn boblogaidd, gyda 97% o'r bobl ifanc a oedd yn gymwys yn cymryd rhan (n= 644; Llywodraeth Cymru 2024).

Roedd gan y cynllun peilot strwythur llywodraethu a oedd yn cynnwys grŵp llywio, grŵp gweithredol, a grŵp cynghori technegol annibynnol dan gadeiryddiaeth yr Athro Syr Michael Marmot. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys gweision sifil ac arbenigwyr annibynnol, a'u swyddogaeth yw rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar ddylunio a chyflwyno'r cynllun peilot. Mae grŵp cynghori ar ymchwil a gwerthuso yn parhau wedi i'r cynllun peilot ddod i ben. Yn ogystal, mae gan y gwerthusiad grŵp cynghori ar wahân, sy'n cynnwys arbenigwyr o wahanol feysydd astudio academaidd ac ymarfer proffesiynol.

## 1.2. Trosolwg o'r gwerthusiad

Dechreuodd y gwerthusiad a gomisiynwyd ym mis Tachwedd 2022, a disgwylir iddo ddod i ben yn 2027. Mae sawl agwedd ar y cynllun peilot o fewn cwmpas y gwerthusiad. Byddwn yn mesur ei effaith ar y gwahanol feysydd ym mywydau'r derbynyddion y manylwn arnynt isod. Byddwn hefyd yn archwilio sut y mae'r cynllun yn cael ei weithredu, agweddau a phrofiadau'r rhanddeiliaid allweddol sy'n gysylltiedig, a chost-effeithiolrwydd y cynllun peilot o safbwynt sector cyhoeddus a chymdeithasol. Mae'r cwestiynau ymchwil canlynol yn ymdrin â'r agweddau gwahanol hyn ar y cynllun:

- Cwestiwn ymchwil 1: Beth yw effaith y cynllun peilot?
- Cwestiwn ymchwil 2: A ydyw'r cynllun peilot yn cael ei roi ar waith fel y bwriadwyd?
- Cwestiwn ymchwil 3: Sut brofiad yw'r cynllun peilot?
- Cwestiwn ymchwil 4: Sut y mae'r cynllun peilot yn cyd-fynd â'r cynnig cyffredinol i bobl sy'n gadael gofal yng Nghymru?
- Cwestiwn ymchwil 5: Pa mor gost-effeithiol yw'r cynllun peilot?

Mae'r protocol astudiaeth a'r cynllun dadansoddi ystadegol (Westlake ac eraill, 2024; Sanders ac eraill, 2025) yn disgrifio ein dull o ateb y cwestiynau hyn yn fanylach. Mae hefyd yn cynnwys crynodeb helaethach o gefndir y cynllun peilot, trafodaeth o ymchwil flaenorol ar y pwnc, a'r heriau a'r cyfyngiadau a wynebwn wrth gynnal yr astudiaeth hon.

Mae'r gwerthusiad wedi'i gynllunio o amgylch pum maes craidd o'r enw 'pecynnau gwaith'. Crynhoir y rhain fel a ganlyn:

1. **Cyd gynhyrchu**

   Mae cyd-gynhyrchu yn sail i'r astudiaeth ac mae dulliau cyfranogol yn bwydo i mewn i'r dylunio a'r casglu data. Mae grŵp o oedolion ifanc sydd â phrofiad o ofal, sy'n byw mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd addysgol, cyflogaeth a thai, yn cyfarfod yn rheolaidd i roi cyngor. Eu rôl yw cyd-greu cwestiynau ymchwil ac offerynnau casglu data, ystyried cwestiynau moesegol a dadansoddol, a chynghori ar oblygiadau polisi ac ymarfer. Cynhaliwyd deg cyfarfod hyd yma, yn cynnwys rhwng chwech a 10 o bobl ifanc ym mhob cyfarfod, ac mae'r cyngor o'r grŵp wedi llywio'n gwaith ni yn sylweddol, gan gynnwys casglu data a dadansoddi data'r bobl ifanc a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

2. **Gwella damcaniaethau**

   Mae'r astudiaeth yn werthusiad sy'n seiliedig ar ddamcaniaethau, ac mae'n defnyddio technegau a lywiwyd gan werthuso realaidd (Chen, 2014; Pawson, 2013; Pawson a Tilley, 1997). Mantais y dull hwn yw ei fod yn addo cipolwg ar sut a pham y gallai'r cynllun peilot gael yr effeithiau positif ar gyfer y gwahanol bobl sy'n gysylltiedig neu beidio.

3. **Gwerthuso effaith**

   Mae effaith y cynllun peilot yn cael ei mesur yn ôl sawl canlyniad, fel y gallwn weld ym mha ffyrdd a faint o effaith y mae'n ei chael ar gyfer y bobl ifanc dan sylw. Mae'r canlyniadau o ddiddordeb ar gyfer y cynllun peilot, a bennwyd ar y dechrau gan Lywodraeth Cymru, yn perthyn i'r categorïau canlynol:

(1) llesiant

(2) llythrennedd / diogelwch ariannol

(3) cydlyniant / ymgysylltiad cymunedol

(4) effeithiau tlodi

(5) mynediad at farchnadoedd llafur ac addysg

(6) gwirfoddoli a sgiliau bywyd

(7) iechyd corfforol a meddyliol.

4. **Gweithredu a gwerthuso'r broses**

   Mae'r maes hwn yn canolbwyntio ar sut y mae'r cynllun peilot yn cael ei weithredu, ei ddarpariaeth barhaus, sut brofiad yw'r cynllun, a sut y mae'n cael ei ystyried gan y rhai sy'n gysylltiedig. Mae'r dadansoddiad hwn hefyd yn archwilio sut y mae'r cynllun peilot yn cyd-fynd â'r cynnig cyffredinol ar gyfer pobl sy'n gadael gofal yng Nghymru, gan gynnwys croestoriadau â gwasanaethau presennol. Cafodd elfennau ansoddol y pecyn gwaith hwn eu gwella a'u hymestyn yn 2023, pan ddaeth rhagor o arian ar gael. Mae hyn yn cynyddu cwmpas yr astudiaeth er mwyn deall profiad byw y bobl ifanc dan sylw.

5. **Gwerthusiad economaidd**

   Bydd y gwerthusiad economaidd yn ystyried a ydyw'r cynllun peilot yn cynrychioli gwerth am arian o ran y canlyniadau a gyflawnwyd. Ei nod yw cyfuno costau a chanlyniadau'r cynllun peilot, er mwyn llywio dadansoddiad cost a budd cymdeithasol. Mae dadansoddiad cost a budd cymdeithasol yn estyniad o ddadansoddiad cost a budd, wedi'i addasu i ystyried y sbectrwm llawn o gostau a buddion (gan gynnwys effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol) y mae cymdeithas gyfan yn eu hwynebu o ganlyniad i ymyriad neu raglen. Bydd dadansoddiad canlyniadau a chostau ychwanegol yn edrych ar ystod o ganlyniadau allweddol i archwilio llesiant pan fydd y data'n caniatáu, ac agweddau ar gyrhaeddiad addysgol, ymgysylltu â'r farchnad lafur a sicrwydd ariannol.

Mae'r gwerthusiad hefyd yn cynnwys Coram Voice, elusen hawliau plant. Fe'i comisiynwyd ar wahân gan Lywodraeth Cymru i gasglu data arolwg gan dderbynyddion y cynllun peilot a grŵp cymharu.

Mae'n rhaid i'r holl ymchwil a wneir gan Brifysgol Caerdydd gael adolygiad moesegol. Ystyriwyd yr astudiaeth hon gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd, ac fe'i cymeradwywyd ym mis Ionawr 2023 o dan y cyfeirnod SREC/323. Cymeradwywyd diwygiad, i gynnwys dulliau

ansoddol ychwanegol, ar 20 Mehefin 2023. Cyn hynny, cafwyd cymeradwyaeth foesegol i waith Coram Voice yn gweinyddu'r arolygon gwerthuso gan Brifysgol Rhydychen o dan y cyfeirnod CIA-22TT-149. Mae'r astudiaeth hefyd yn cael ei chynnal yn unol ag egwyddorion moesegol Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth.

## 1.3. Nodau a chwmpas yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar yr adroddiadau blynyddol blaenorol ac yn parhau â'r gwerthusiad cynhwysfawr o'r cynllun peilot incwm sylfaenol ar gyfer pobl yn gadael gofal yng Nghymru . Yn dilyn yr adran fethodoleg, mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar dri maes dadansoddi pwysig. Mae'r adran sylweddol gyntaf yn archwilio profiadau pobl ifanc o'r cynllun peilot, yn seiliedig ar gyfweliadau a gynhaliwyd ar ddau gam: hanner ffordd drwy'r cynllun a thuag at ddiwedd y taliadau incwm sylfaenol. Nod yr adran hon yw rhoi sylw i leisiau a phrofiadau amrywiol buddiolwyr y cynllun peilot, gan archwilio sut y maen nhw wedi defnyddio'r incwm a sut y maen nhw'n teimlo ei fod wedi effeithio ar wahanol agweddau ar eu bywydau. Mae'r dadansoddiad hwn yn mynd i'r afael â'r cwestiynau ymchwil: 'Sut brofiad yw'r cynllun peilot?', a 'Sut y mae'r cynllun peilot yn cyd-fynd â'r cynnig cyffredinol ar gyfer pobl sy'n gadael gofal yng Nghymru?'

Mae'r ail adran yn archwilio canfyddiadau a phrofiadau gweithwyr proffesiynol o'r cynllun peilot ar ôl iddo gael ei weithredu am beth amser. Mae hyn yn archwilio'r heriau a'r cyfleoedd a wynebwyd ganddynt, a'u harsylwadau o newidiadau yn y bobl ifanc y maent yn eu cynorthwyo. Trwy ddod â safbwyntiau pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol at ei gilydd, mae'r adran hon hefyd yn mynd i'r afael â'r cwestiynau ymchwil: 'Sut brofiad yw'r cynllun peilot?', a 'Sut y mae'r cynllun peilot yn cyd-fynd â'r cynnig cyffredinol ar gyfer pobl sy'n gadael gofal yng Nghymru?'

Mae'r drydedd adran yn cyflwyno damcaniaeth rhaglenni a model rhesymeg wedi'i ddiweddaru. Mae'r fersiwn gychwynnol o hyn, a gyflwynir yn yr adroddiad blynyddol cyntaf, yn seiliedig ar lenyddiaeth a dogfennau polisi, felly yn yr adroddiad hwn defnyddiwyd data empirig o'r cynllun peilot i wella'r ddamcaniaeth am sut y gallai'r cynllun weithredu. Wrth i'r cynllun peilot fynd rhagddo, mae'r data a gasglwyd wedi tynnu sylw at ba fecanweithiau sydd fwy neu lai yn arwyddocaol ac wedi llenwi bylchau yn ein dealltwriaeth gychwynnol. Mae'r dull ailadroddol hwn o ddatblygu damcaniaeth yn sicrhau bod y gwerthusiad yn parhau i fod yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ac yn mynd i'r afael â'r cwestiwn: A ydyw'r cynllun peilot yn cael ei roi ar waith fel y bwriadwyd?

Mae'r adran drafod yn dwyn ynghyd ganfyddiadau o'r tair adran hyn, gan syntheseiddio'r dystiolaeth a'i rhoi yng nghyd-destun y gwerthusiad ehangach. Dilynir hyn gan gasgliadau ac edrych ymlaen at gamau nesaf y gwerthusiad, gan gynnwys pedwerydd adroddiad blynyddol yng ngwanwyn 2027 ac adroddiad terfynol yn ddiweddarach yn 2027.

# 2. Methodoleg

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad ansoddol o gyfweliadau a grwpiau ffocws gyda phobl ifanc a gweithwyr proffesiynol sy'n rhan o'r cynllun peilot. Mae Adrannau 3 a 4 yn cynnwys canfyddiadau a phrofiadau pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol o'r cynllun peilot. Mae'r canfyddiadau'n ymwneud â'r cwestiynau ymchwil canlynol:

- Cwestiwn ymchwil 3: Sut brofiad yw'r cynllun peilot?
- Cwestiwn ymchwil 4: Sut y mae'r cynllun peilot yn cyd-fynd â'r cynnig cyffredinol i bobl sy'n gadael gofal yng Nghymru?

Nesaf, defnyddir y data i fireinio damcaniaeth ein rhaglen, ac esbonio sut, pam, i bwy ac ym mha amgylchiadau y mae'r cynllun peilot yn cael effaith (Adran 5). Mae hyn yn ymwneud â'r cwestiwn ymchwil canlynol:

- Cwestiwn ymchwil 2: A ydyw'r cynllun peilot yn cael ei roi ar waith fel y bwriadwyd?

## 2.1. Cyfweliadau a grwpiau ffocws gyda phobl ifanc sy'n dderbynyddion

Cynhaliwyd y cyfweliadau â phobl ifanc a'r grwpiau ffocws a gyflwynwyd yma ar ddau bwynt. Un, tua hanner ffordd i mewn i'r cynllun peilot (y cyfeirir ato fel 'cyfweliad hanner ffordd drwy'r cynllun peilot'), a'r ail, ychydig fisoedd ar ôl i'r bobl ifanc gael eu taliad terfynol (sef 'diwedd y cynllun peilot' neu'r 'cyfweliad dilynol'). Ar gyfer y cyfweliadau hanner ffordd drwy'r cynllun peilot, a gynhaliwyd rhwng gwanwyn a hydref 2024, gwahoddwyd pobl ifanc a gafodd eu cyf-weld yn y rownd sylfaenol o gyfweliadau (fel yr adroddwyd yn flaenorol – Mathur ac eraill, 2025) i gymryd rhan mewn cyfweliadau unwaith eto. Ar gyfer y  cyfweliadau ar ddiwedd y cynllun peilot, a gynhaliwyd rhwng gaeaf 2024 a haf 2025, cysylltwyd â phobl ifanc yn uniongyrchol drwy e-bost neu neges destun gan ymchwilwyr ym Mhrifysgol Caerdydd tua dau neu dri mis ar ôl cael eu taliad terfynol i gymryd rhan mewn cyfweliad (gweler Tabl 1).

Cymerodd cyfranogwyr ran yn bennaf mewn cyfweliadau personol, gyda grwpiau ffocws yn cael eu cynnal ar chwe achlysur gyda rhwng dau a chwech o bobl ifanc yn bresennol ym mhob sesiwn. Cynhaliwyd y cyfweliadau a'r grwpiau ffocws trwy gyfrwng fideo-gynhadledd (Microsoft Teams), galwadau ffôn neu wyneb yn wynebl mewn swyddfa awdurdod lleol neu yn swyddfa CASCADE. Parhaodd y cyfweliadau rhwng 20 a 60 munud, gan ymdrin â themâu fel barn cyfranogwyr ar ddyluniad y cynllun peilot, effeithiau canfyddedig yr ymyriad ar eu llesiant, iechyd, perthnasoedd, dewisiadau yn ymwneud â gwaith, tai, addysg, profiadau o reoli ariannol ac ymgysylltu â'r cymorth ychwanegol a oedd ar gael. Mae Atodiad A yn darparu mwy o fanylion am y cwestiynau a'r themâu a archwiliwyd yn y cyfweliadau. Rhoddwyd sylw arbennig i bryderon moesegol ynghylch ymchwil ansoddol gyda phoblogaethau

agored i niwed, pryderon ynghylch pŵer, a phwysau penodol a nodwyd ynghylch ymchwil incwm sylfaenol (Mathur, 2024). Roedd y rhain yn cynnwys gwirio bod cyfranogwyr yn cytuno i gymryd rhan, sicrhau cyfrinachedd a llesiant cyfranogwyr, a gofalu bod cwestiynau (ac ymatebion i atebion) yn cael eu geirio mewn ffyrdd nad oedd fyddai'n gwneud i gyfranogwyr deimlo eu bod yn cael eu beirniadu am eu dewisiadau.

**Tabl 1: Cyfranogiad pobl ifanc mewn gweithgareddau casglu data ansoddol**

| Adeg | Nifer y cyfranogwyr (n=) | Fformat y cyfranogiad | Amseru | Adroddwyd |
|---|---|---|---|---|
| Sylfaenol | 41 | Cyfweliadau a grwpiau ffocws | Gwanwyn 2023–Gaeaf 2023 | Cyhoeddiad blaenorol: Mathur ac eraill 2025 ac Adran 5 |
| Hanner ffordd drwy'r cynllun peilot | 14 | Cyfweliadau a grwpiau ffocws | Gwanwyn 2024–Hydref 2024 | Adran 3: |
| Diwedd y cynllun peilot | 36 | Cyfweliadau a grwpiau ffocws | Gaeaf 2024–Haf 2025 | Adran 3 ac Adran 5 |

Ffynhonnell: Gwybodaeth rheoli gwerthuso, Prifysgol Caerdydd, 2025.

Cymerwyd rhan yn y cyfweliadau a'r grwpiau ffocws gan 72 o bobl ifanc. Cymerodd 15 o bobl ifanc ran sawl gwaith yn ystod y gwerthusiad. Cymerodd tri pherson ifanc ran mewn cyfweliad a grŵp ffocws sylfaenol, cymerodd pedwar person ifanc ran yn sylfaenol hanner ffordd drwy'r cynllun peilot, a chymerodd un ran yn sylfaenol ar ddiwedd y cynllun peilot. Cymerodd saith person ifanc ran ym mhob un o'r tri adeg.

Fel y nodwyd o'r blaen (Mathur ac eraill, 2025), roedd y sampl yn amrywiol ac yn cynnwys pobl ifanc â nodweddion ac amgylchiadau amrywiol. Roedd hyn yn cynnwys pobl ifanc â statws lloches gwahanol, sy'n byw mewn amrywiaeth o leoliadau, gydag anghenion iechyd ac amhariadau gwahanol, a lefelau amrywiol o ymgysylltu mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Er gwaethaf hyn, cydnabyddir efallai na fydd y sampl yn cynrychioli'r garfan o dderbynyddion incwm sylfaenol yn ei chyfanrwydd.

Recordiwyd cyfweliadau a grwpiau ffocws yn ddigidol ac yna eu trawsgrifio. Adolygwyd trawsgrifiadau i gael gwared ar unrhyw wybodaeth a allai arwain at adnabod y cyfranogwr. Er mwyn dadansoddi eu cynnwys, cafodd y trawsgrifiadau dienw wedyn eu codio yn thematig gan ddefnyddio meddalwedd NVivo, gan gyfuno rhesymu casgliadol ac anwythol (Fereday a Muir-Cochrane, 2006; Meyer a Lunnay,

2013).  Damcaniaeth gychwynnol y rhaglen a chwestiynau ymchwil (Holland ac eraill, 2024) a arweiniodd y gwaith o ddatblygu'r set gychwynnol o godau (er enghraifft, yr effeithiau ar ddewisiadau addysg, iechyd corfforol a meddyliol, ymgysylltu â Chyngor ar Bopeth a chynghorwyr personol, paratoi ar gyfer diwedd y cynllun peilot). Wrth ddarllen a myfyrio ar y trawsgrifiadau, nodwyd codau pellach o'r data (megis profiadau o Gredyd Cynhwysol, cymorth amodol yn erbyn cymorth diamod, urddas ac ymreolaeth).

Gall dadansoddiad naratif cyfoethog fel hwn gynnig cryn ddyfnder, gronynogrwydd ac eglurhad o ran sut brofiad oedd y cynllun peilot i'r rhai a ddewisodd gymryd rhan mewn cyfweliadau neu grwpiau ffocws; sut brofiad fu'r incwm iddyn nhw; yr effaith y cafodd hynny ar eu bywydau, yn eu tyb nhw; canlyniad yr effeithiau hynny; a sut y maen nhw'n teimlo am y newidiadau hyn (Copestake ac eraill, 2019). I'r perwyl hwn, mae'n rhoi cipolwg ar amrywiaeth o brofiadau, ac ar effeithiau'r cynllun peilot, ac yn galluogi dealltwriaeth o'r mecanweithiau y tu ôl i unrhyw newidiadau neu effeithiau yn eu bywydau (neu ddiffyg hynny) (Kopec, 2023; Maxwell, 2012). Fodd bynnag, nid yw'n anelu at ddarparu effeithiau achosol neu gyfanredol diffiniol y cynllun ar y garfan gyfan. Mae'n gynhenid gyfyngedig yn ei sampl – o ran maint, a hunan-ddewis. Hynny yw, efallai na fydd cyfranogwyr a allai fod yn cael trafferth emosiynol, corfforol neu ariannol—neu'r rhai sy'n ffynnu mewn bywyd ag amryfal ymrwymiadau gwaith, addysg neu gymdeithasol—yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil. Ymhellach, mae rhagfarn dymunoldeb cymdeithasol, a ddiffinnir fel tueddiad cyfranogwyr i ddarparu atebion sy'n cael eu hystyried yn 'ddymunol' gan ymchwilwyr, yn debygol o effeithio ar ymchwil o'r fath (Bergen a Labonté, 2019).

## 2.2. Cyfweliadau a grwpiau ffocws gyda gweithwyr proffesiynol

Gwahoddwyd gweithwyr proffesiynol yn gweithio mewn amrywiaeth o rolau i gymryd rhan mewn grŵp ffocws tuag at ddechrau a diwedd y cynllun peilot. Ar rai adegau, cynhaliwyd cyfweliadau gan fod y gweithwyr proffesiynol yn dymuno cymryd rhan ond yn methu â bod yn bresennol mewn grŵp ffocws. Adroddir ar y canfyddiadau o'r set gyntaf (sylfaenol) o gyfweliadau a grwpiau ffocws yn yr adroddiad gwerthuso blynyddol cyntaf (Holland ac eraill, 2024) ac roedd y dadansoddiad hwn hefyd yn llywio'r gwaith datblygu damcaniaeth (a drafodir yn Adran 5 o'r adroddiad hwn). Trafodir canfyddiadau'r cyfweliadau a'r grwpiau ffocws a gynhaliwyd tua diwedd y cynllun peilot yn Adrannau 4 a 5 o'r adroddiad hwn.

Gwahoddwyd gweithwyr proffesiynol o bob cwr o Gymru i gymryd rhan mewn cyfweliad neu grŵp ffocws yng ngwanwyn 2025. Erbyn hynny, roedd mwyafrif y derbynyddion wedi cael eu taliad incwm sylfaenol terfynol. Bu'r sesiynau yn archwilio profiadau gweithwyr proffesiynol o gynorthwyo pobl ifanc ar y cynllun peilot, eu barn ar sut yr oedd y cynllun wedi effeithio ar dderbynyddion (er enghraifft, o ran eu hiechyd a'u haddysg, cyflogaeth a hyfforddiant) a'u barn am ddyluniad y cynllun peilot (gweler Atodiad B am ganllaw llawn ar bynciau'r grwpiau ffocws ). Cynhaliwyd y cyfweliadau a'r grwpiau ffocws trwy gyfrwng fideo-gynhadledd (Microsoft Teams),

galwadau ffôn neu wyneb yn wyneb mewn swyddfa awdurdod lleol neu yn swyddfa CASCADE gan bara rhwng 30 a 90 munud. Roedd y gweithwyr proffesiynol a gymerodd ran yn cynrychioli 14 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, ac yn cynnwys cynghorwyr personol, rheolwyr tîm a phenaethiaid gwasanaeth, neu uwch-reolwyr pobl ifanc, yn ogystal â staff Cyngor ar Bopeth Cymru (gweler Tabl 2). Cymerwyd rhan mewn cyfweliad neu grŵp ffocws gan wyth gweithiwr proffesiynol ar fwy nag un achlysur yn ystod y gwerthusiad.

**Tabl 2: Cyfranogiad mewn gweithgareddau casglu data ansoddol**

| Adeg | Math o gyfranogwr | Fformat cyfranogi | Nifer y cyfranogwyr (n=) | Amseru | Adroddwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaenol | Cynghorwyr personol | Cyfweliadau a grwpiau ffocws | 22 | Gwanwyn 2023 | Cyhoeddiad blaenorol: Holland ac eraill, 2024 Adran 5 |
| Sylfaenol | Penaethiaid gwasanaethau / uwch-reolwyr | Grwpiau ffocws | 12 | Gwanwyn 2023 | Cyhoeddiad blaenorol: Holland ac eraill, 2024 Adran 5 |
| Sylfaenol | Rheolwyr tîm | Grwpiau ffocws | 7 | Gwanwyn 2023 | Cyhoeddiad blaenorol: Holland ac eraill, 2024 Adran 5 |
| Diwedd y cynllun peilot | Cynghorwyr personol | Cyfweliadau a grwpiau ffocws | 20 | Gwanwyn 2025 | Adran 4 ac Adran 5 |
| Diwedd y cynllun peilot | Penaethiaid gwasanaeth | Grwpiau ffocws | 4 | Gwanwyn 2025 | Adran 4 ac Adran 5 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | au / uwch-reolwyr | | | | |
| Diwedd y cynllun peilot | Rheolwyr tîm | Cyfweliadau a grwpiau ffocws | 8 | Gwanwyn 2025 | Adran 4 ac Adran 5 |
| Diwedd y cynllun peilot | Cyngor ar Bopeth Cymru | Grwpiau ffocws | 4 | Gwanwyn 2025 | Adran 4 ac Adran 5 |

Ffynhonnell: Gwybodaeth rheoli gwerthuso, Prifysgol Caerdydd, 2025.

Cafodd y trawsgrifiadau o'r cyfweliadau a'r grwpiau ffocws eu gwneud yn ddienw, a'u codio gan ddefnyddio meddalwedd NVivo. Yn unol â data'r bobl ifanc, roedd y codio yn gasgliadol ac yn anwythol. Datblygwyd y ffrâm godio gychwynnol o ddamcaniaeth gychwynnol y rhaglen a'r cwestiynau ymchwil (Holland ac eraill, 2024), a chafodd codau ychwanegol eu nodi a'u grwpio mewn themâu trwy drafodaeth o fewn y tîm gwerthuso.

## 2.3. Dadansoddiad i lywio damcaniaeth y rhaglen ddiwygiedig

Mae'r gwerthusiad hwn yn defnyddio dull realistig, sy'n seiliedig ar ddamcaniaeth i archwilio sut a pham y mae'r cynllun peilot yn gweithio, i bwy ac ym mha amgylchiadau (Pawson a Tilley, 1997). Mae'r adroddiad blynyddol cyntaf (Holland ac eraill, 2024) yn cynnwys damcaniaeth gychwynnol y rhaglen yn seiliedig ar ganfyddiadau adolygiadau systematig, gwaith academaidd sy'n damcaniaethu effeithiau achosol cynlluniau incwm sylfaenol a dogfennau polisi. Mae'r ddamcaniaeth bellach wedi'i mireinio gan ddefnyddio data empirig a gasglwyd yn ystod y cynllun peilot (cyfweliadau a grwpiau ffocws gyda phobl ifanc a gweithwyr proffesiynol; gweler Tablau 1 a 2). Cafodd y data eu codio gan ddefnyddio NVivo yn ôl yr elfennau yn namcaniaeth gychwynnol y rhaglen (y gwahanol gyd-destunau, mecanweithiau (adnoddau a rhesymu), a chanlyniadau). Ychwanegwyd codau ychwanegol pan gyflwynodd cyfranogwyr syniadau newydd ar gyfer sut yr oedd y cynllun peilot yn gweithio ac yn cynhyrchu canlyniadau mewn gwahanol amodau. Adolygwyd y codau gan aelod o'r tîm ymchwil, a dogfennwyd proses mireinio'r ddamcaniaethdrwy ddefnyddio cofnod penderfyniadau.  Roedd y cofnod yn cynnwys nodiadau'r ymchwilydd o ran a oedd y data yn ategu neu'n herio'r llwybrau achosol yn namcaniaeth gychwynnol y rhaglen, lle'r oedd angen addasiadau a lle'r oedd bylchau yn ein dealltwriaeth yn parhau. Adolygwyd a thrafodwyd y newidiadau arfaethedig i ddamcaniaeth gychwynnol y rhaglen gan y tîm ymchwil, a chynhyrchwyd damcaniaeth rhaglen ddiwygiedig.

# Canfyddiadau 1: Profiadau pobl ifanc o'r cynllun peilot

Mae'r adran hon yn  rhoi cipolwg ar y cyfweliadau a'r grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda 14 o bobl ifanc hanner ffordd drwy'r cynllun peilot (tua 12 i 16 mis i mewn i'r cynllun) a 36 o bobl ifanc ar ddiwedd y cynllun peilot (tua dau neu dri mis ar ôl iddynt gael eu taliad olaf ar y cynllun). Mae'r cyfweliadau a'r grwpiau ffocws hyn yn cwmpasu ystod o themâu, ac yn yr adrannau dilynol, rydym yn cyflwyno barn cyfranogwyr ar ddyluniad y cynllun peilot, yr effeithiau ar lesiant, iechyd, dewisiadau o ran llafur ac addysg, ymreolaeth a rheolaeth, perthnasoedd, ymgysylltu â chymorth, yn ogystal â'u bywydau, ers diwedd y cynllun peilot. Priodolir pob dyfyniad i berson ifanc dienw a gymerodd ran mewn cyfweliad neu grŵp ffocws, gydag arwydd o pryd y gwnaethant gymryd rhan, er enghraifft 'Person ifanc (PI) 12 – diwedd y cynllun peilot'. Mae dwy elfen yn bwysig i'w nodi fel edafedd cyson sy'n rhedeg ar draws ein data. Yn gyntaf, mae rhywfaint o'r tensiwn sy'n cael ei fynegi yn y 'defnydd gorau' o'r arian ar gyfer cyfranogwyr rhwng gwella'u ffordd o fyw presennol yn ystod y cynllun peilot, yn erbyn buddsoddi yn eu dyfodol. Yn ail, gwnaed nifer o'r asesiadau gan gyfranogwyr o'u profiadau ar adeg pan oeddent wedi ymadael â'r cynllun peilot yn ddiweddar ac yn gorfod ymdrin â gostyngiad sylweddol yn eu hadnoddau materol.

## 3.1 Canfyddiadau ar ddyluniad

Roedd barn y bobl ifanc ar elfennau dylunio craidd y cynllun peilot yn gyson i raddau helaeth â chanfyddiadau o'n ton gyntaf o ddadansoddi (Mathur ac eraill, 2025). Roeddent o'r farn mai 18 oed oedd y man cychwyn, gan ei weld fel yr oedran pan fyddai pobl yn gadael gofal yn colli mynediad at gymorth arall ac yn gorfod dechrau dod yn annibynnol. Cytunodd y mwyafrif fod y swm (£1,280 y mis ar ôl treth) yn briodol, ac yng ngeiriau un cyfranogwr 'ddim yn rhy fach, ddim yn ormod' (PI12 – diwedd y cynllun peilot). Disgrifiwyd hyn fel eu galluogi i ddiwallu anghenion sylfaenol, dilyn diddordebau newydd, a chyflawni rhywfaint o ddiogelwch ariannol. Efallai nad yw'n syndod bod y bobl a fyddai'n gadael gofal yn parhau i gael eu cymeradwyo'n eang fel grŵp targed, o ystyried eu hanfanteision unigryw a'u diffyg cymorth ariannol teuluol, o'u cymharu â'u cyfoedion a oedd heb brofiad o ofal. Fel y gwelsom o'r blaen, mynegodd rhai bryderon y gallai dwy flynedd fod yn rhy fyr i elwa'n llawn a pharatoi ar gyfer pontio i fywyd heb yr incwm, tra bod eraill yn teimlo ei fod yn taro'r cydbwysedd cywir trwy osgoi creu dibyniaeth.

O ran diamodrwydd, parhaodd y bobl ifanc i werthfawrogi'r rhyddid a ddarparodd hyn, yn enwedig mewn cyferbyniad â'u profiadau gofal lle byddai penderfyniadau yn aml yn cael eu gwneud ar eu rhan. Dywedodd un 'Dw i'n credu na fyddwn i wedi eisiau i'r amodau fod yn rhy ormesol neu'n ormodol, oherwydd rwyf i wedi cael hynny drwy gydol fy mywyd' (PI51 – diwedd y cynllun peilot). Fodd bynnag, yn hytrach na thrafod cymorth amodol yn erbyn cymorth diamod, awgrymodd y cyfranogwyr y gallai diamodrwydd ynghyd â chymorth rhagweithiol, strwythuredig fod yr hyn y mae ei angen:

> 'Fe wnaethon nhw ollwng miloedd o bunnoedd ar griw o blant a dweud, 'Hei, pob lwc.' Mae angen mwy arnyn nhw; roedd angen mwy o gyngor arnon ni. Dylem fod wedi cael gwybod am bethau yn ymwneud â chyllidebu ynghynt, nid pan y mae'n dod i ben. Dylem wedi cael gwybod sut i gyllidebu a ble i wneud cais, a ble i gael yr holl gynlluniau hyn a phopeth ynghynt' (PI56 – diwedd y cynllun peilot).

Mae hyn yn cyd-fynd â dadleuon ehangach am raglenni 'arian parod a mwy' (Howard ac eraill, 2024) ac yn tynnu sylw at rôl cymorth ategol o amgylch yr incwm. Fel y soniwyd uchod, roedd derbynyddion y cynllun peilot yn gallu cael mynediad at gyngor ariannol fel rhan o'r cynllun hwn, a thrafodir ymgysylltu ag ef yn Adran 3.8.2.

## 3.2 Llesiant ac iechyd

### 3.2.1 Urddas a llesiant

Mae gan urddas fel cysyniad ddiffiniadau a dealltwriaeth amrywiol. Mae dealltwriaeth cyffredin wedi'i greu o amgylch sut y mae rhywun yn gweld ei hun, sut y mae rhywun yn meddwl bod eraill yn ei weld, a'r hyn y mae'n teimlo ei fod yn gallu ei wneud â'i fywyd ei hun (Jütten, 2017). Pan ofynnwyd i'r cyfranogwyr am yr effeithiau pwysicaf o fod yn rhan o'r cynllun peilot ar eu bywydau, roedd llawer o'u hymatebion yn ffitio o fewn y diffiniad eang hwn o urddas, gyda'r mwyafrif yn sôn am newidiadau yn eu hymdeimlad o'u hunan. Roedd atebion eraill yn tynnu sylw at fwy o ymdeimlad o hyder, megis gallu 'talu biliau a gwneud mwy' (PI42 – hanner ffordd drwy'r cynllun peilot), buddsoddi ynddynt eu hunain a pherthnasoedd cymdeithasol, a thrwy hynny wella eu llesiant.

O ran ymdeimlad o hunan, soniodd y cyfranogwyr am ddefnyddio'r incwm sylfaenol i'w wario arnyn nhw eu hunain – ar sut y maen nhw'n edrych, eu hobïau a'u diddordebau ac ar bethau yr oeddent yn eu hystyried yn bwysig:

> 'Roeddwn i'n gallu prynu'r pethau roedden i eu heisiau, mynd allan gyda fy ffrindiau a chael mwy o incwm gwario i fwynhau fy mywyd gyda nhw cyn i fywyd fynd o ddifrif. Felly roedd hynny'n gadarnhaol iawn i mi, ac roeddwn i wrth fy modd yn cael arian i allu gwneud hynny.' (PI60 – diwedd y cynllun peilot).

Elfen bwysig arall o urddas yw'r gwerth a deimlir wrth allu cyfrannu at berthnasoedd a chyfrifoldebau, a throi i fyny. Tynnodd y cyfranogwyr sylw at sawl achos lle'r oeddent yn teimlo'n falch o allu helpu teulu a ffrindiau yn ariannol, prynu anrhegion iddynt, neu wario arian ar deithio neu ddigwyddiadau gyda phobl o'u cwmpas. Dywedodd un, 'Roeddwn i'n gallu rhoi rhywbeth yn ôl am unwaith, nid dim ond derbyn neu gymryd pethau, ac roeddwn i'n wirioneddol hapus o allu talu.' (PI69 – diwedd y cynllun peilot). Mae'r ymdeimlad hwn o falchder ac urddas yn nodwedd wedi'i gofnodi'n dda mewn ymchwil empirig gan y rhai sydd wedi byw mewn tlodi (Walker ac eraill, 2013). Fodd bynnag, roedd rhai achosion pan drodd y

perthnasoedd hyn yn drafodion ac yn ecsbloetiol i dderbynyddion, yr ydym yn tynnu sylw at hyn mewn mwy o fanylder isod (Adran 3.6).

Canfuwyd bod cael yr incwm sylfaenol yn ddiamod hefyd yn effeithio ar sut yr oedd y cyfranogwyr yn gweld eu hunain, a sut yr oeddent yn teimlo bod eraill yn eu canfod. I rai roedd hyn yn cael ei ystyried fel cefnogaeth a chydnabyddiaeth o'u gwerth cynhenid fel pobl a'u hymdrechion, a 'hwb i'r morâl' (PI64 – diwedd y cynllun peilot), tra bod eraill yn yn poeni am gael eu hystyried yn negyddol gan nad oeddent wedi 'ennill' yr arian:

> 'Rwy'n teimlo nad ydw i wedi gwneud unrhyw beth i'w haeddu, rwy'n teimlo'n ddrwg iawn achos rwy'n cael arian am ddim, tra bod pobl yn gweithio yn galed iawn am eu harian. Bu adegau lle'r oeddwn i'n casáu cael yr arian hwn gan nad oeddwn yn ei haeddu.' (PI69 – diwedd y cynllun peilot).

> 'Rwy'n teimlo mor euog fy mod i'n cael yr arian hwn; yr unig beth rydw i wedi'i wneud yw bod mewn grŵp oedran penodol, rydw i jyst wedi bod yn lwcus. Dydw i ddim yn gweithio i'w gael, dydw i ddim yn gwneud unrhyw beth amdano gan fy mod yn gwybod bod y trethdalwr yn talu am hyn. Weithiau, byddwn i'n ceisio peidio â gwario arian oherwydd fy mod i'n teimlo'n euog' (PI6 – hanner ffordd drwy'r cynllun peilot).

### 3.2.2 Ymreolaeth a rheolaeth

Ymdeimlad gwell o ymreolaeth, rheolaeth a rhyddid ariannol oedd un o'r canfyddiadau mwyaf cyson o'n cyfweliadau. Disgrifiodd y cyfranogwyr sut y gwnaeth yr arian eu helpu i lywio heriau penodol, yn bennaf trwy ddiogelwch ariannol ac adnoddau materol gwell, a'r pŵer i wneud eu penderfyniadau eu hunain. Dywedodd un cyfranogwr, er enghraifft, ei fod yn rhoi 'Tawelwch meddwl pan fyddaf ar fy mhen fy hun, fy mod i wedi arbed yr arian, ac mae fel rhwyd ddiogelwch bach' (PI39 – diwedd y cynllun peilot). Dywedodd un arall wrthym sut y rhoddodd yr arian ryddid iddynt trwy yrru:

> 'Pan basiais fy mhrawf gyrru, ac yn amlwg roedd y cynllun peilot wedi caniatáu i mi wneud hynny, heb yr arian hwnnw fyddwn i ddim wedi gallu cael gwersi gyrru, ymgymryd â'r prawf ac ati, a chael fy nghar cyntaf. Fe wnaeth e' ganiatáu i mi ... Rhoddodd gymaint mwy o ryddid i mi fynd allan a chwrdd â phobl, ac roedd cwrdd â phobl yn amlwg wedi mynd â mi allan o'r tŷ.' (PI62 – diwedd y cynllun peilot).

Roedd y teimlad o gael mwy o ryddid yn anferthol. Er enghraifft, roedd cyfranogwyr eraill yn cyfeirio at hyn fel 'datgloi mwy o gyfleoedd a rhyddid' (PI68 – diwedd y cynllun peilot) yn ogystal â'u paratoi ar gyfer argyfyngau (PI69 – diwedd y cynllun peilot). Mae hyn yn cyferbynnu â'r teimlad o opsiynau yn cael eu cyfyngu naill ai cyn neu ar ôl y cynllun peilot:

> ‘Cyn yr arian, roeddwn i’n teimlo’n gyfyngedig iawn o ran yr hyn y gallwn ei wneud. Wrth gael yr arian, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, roeddwn i’n teimlo fy mod i’n gallu gwneud yr hyn yr oeddwn i eisiau, a byw fy mywyd fel yr oeddwn i’n ei ddymuno, ac roedd hynny’n gwneud i mi deimlo’n dda. Gwnaeth hynny i mi agor fy llygaid i’r ffaith fy mod i’n llawer mwy cymwys nag yr oeddwn i’n ei feddwl.’ (PI46 – diwedd y cynllun peilot).

Dangoswyd y cyferbyniad mewn rhyddid ariannol yn ystod ac ar ôl y cynllun peilot trwy ddigwyddiadau cymharol fach, bob dydd. Yn ystod y cynllun peilot roedd enghreifftiau yn cynnwys gallu fforddio ystafell gwesty pan fyddent oddi cartref, cymryd trenau a thacsis i leoedd, neu allu talu eu cyfran o fil bwyty. Mewn cyferbyniad, byddai enghreifftiau o gyfyngiadau ariannol ar ôl i’r cynllun peilot ddod i ben yn amrywio o beidio â gallu prynu gwefrydd ar gyfer ffôn symudol newydd pan fyddai’r un presennol yn torri, neu beidio â gallu fforddio triniaeth ddeintyddol breifat fel y gallent yn ystod y cynllun peilot.

### 3.2.3 Iechyd meddwl

Un o’r effeithiau canfyddedig â’r consensws cryfaf yn ein set ddata ansoddol oedd y gostyngiad mewn straen a phryder oherwydd diogelwch ariannol a fyddai’n cael ei ddarparu gan yr incwm sylfaenol, a hyder a rheolaeth gysylltiedig dros fywyd rhywun. Er enghraifft, dywedodd un cyfranogwr ‘Mae’n helpu gydag iechyd meddwl gan nad ydych chi’n poeni ac yn gofyn i’ch hun, ‘a allaf i wneud hyn?’’ (PI52 – diwedd y cynllun peilot). Hanner ffordd drwy’r cynllun peilot ac ar ddiwedd y cynllun, esboniodd cyfranogwyr eraill sut yr oedd yr incwm yn lleddfu pryderon ariannol yng nghyd-destun anawsterau eraill, megis digartrefedd neu brofiad o gamdriniaeth:

> ‘Nid oes gennyf gartref sefydlog mewn gwirionedd, felly ... Rwy’n gwybod y gallaf gael bwyd os oes ei angen arnaf, ac rwy’n gwybod y gallaf brynu hwn os oes ei angen arnaf, ac os oes angen dillad arnaf. Mae’n llawer gwell. Mae’n helpu gydag iechyd meddwl yn arbennig.’ (PI2 – hanner ffordd drwy’r cynllun peilot).

> ‘Pan fyddwch chi mewn gofal, does gennych chi ddim rhyddid. Doedd gen i ddim rhyddid. Roeddwn i’n cael fy ngham-drin gan fy ngofalwyr ac ati, ond pan ges i fod yn rhan o’r cynllun peilot, roeddwn yn teimlo y gallwn fynd i unrhyw le, gwneud beth bynnag roeddwn i eisiau ei wneud, a chan fy mod yn dioddef o iechyd meddwl gwael ar y pryd—ac rwy’n dal i wneud—gwnaeth fy helpu i fynd ar fy nhaith iechyd hefyd.’ (PI56 – diwedd y cynllun peilot).

Ar y pwynt dilynol hwn, gallai’r cyfranogwyr gymharu bywyd yn ystod y cynllun peilot â bywyd ar ôl y cynllun, a gwrthgyferbynnu â’r hyn yr oeddent yn gallu ei wneud, a’r effeithiau cysylltiedig ar eu llesiant meddyliol. Er enghraifft, dywedodd un person ifanc wrthym, a oedd yn teimlo bod eu gorbryder cymdeithasol yn cael ei leddfu tra’i fod yn rhan o’r cynllun peilot, ar ôl iddo orffen, ei fod yn cael eu hunan yn ‘pellhau

oddi wrth bawb, dydw i ddim yn siarad â llawer o bobl. Rwy'n cadw'n agos at y bobl rydw i'n eu hadnabod.' (PI12 – diwedd y cynllun peilot).

I rai cyfranogwyr, daeth maint y cyferbyniad hwn yn fwyaf amlwg ar ôl i'r taliadau ddod i ben, a bu'n rhaid iddynt addasu i fod ar swm sylweddol is, a ddarparwyd yn amodol, o gymorth ariannol neu incwm:

> 'Byddwn i'n dweud pe na bawn i erioed wedi ei gael, fyddwn i ddim yn gwybod unrhyw beth gwahanol. Fodd bynnag, oherwydd fy mod i wedi ei gael nawr, dydw i ddim ... Rwy'n teimlo fy mod i'n goroesi, nid dim ond yn byw. Y cyfan y mae angen i mi ei wneud yw poeni am fwyta, a gwneud yn siŵr bod gennyf ddigon o fwyd i aros yn fyw, a thalu fy mil trydan. Pan oeddwn i'n rhan o'r cynllun peilot, byddwn i'n dweud fy mod i'n llawer hapusach.' (PI63 – diwedd y cynllun peilot).

Mae iechyd meddwl wedi bod yn faes pwysig o ddiddordeb o ran effeithiau hyn a chynlluniau incwm sylfaenol eraill. Mae pobl sy'n gadael gofal yn aml wedi bod drwy drawma sylweddol yn eu plentyndod, ac y maent wedi gweld effaith anghymesur o salwch meddwl (Phillips ac eraill, 2023; Smith, 2017). Ar ben hynny, o ystyried effeithiau gwael iechyd meddwl cymhleth tlodi ac ansicrwydd ariannol, awgrymir yn aml y gall trosglwyddiadau arian parod a chynlluniau incwm sylfaenol fod â photensial iechyd meddwl cadarnhaol sylweddol (Wilson a McDaid, 2021; Chen ac eraill, 2023).

### 3.2.4 Iechyd corfforol

Mae'r dadansoddiad hwn yn atgyfnerthu canfyddiadau o'r rownd gyntaf o gyfweliadau. Dywedodd traean o gyfranogwyr y cyfweliadau nad oedd y cynllun peilot yn cael unrhyw effaith nodedig ar eu hiechyd corfforol. I sawl cyfranogwr, roedd yr incwm sylfaenol yn caniatáu iddynt fwyta'n well, ymadael â'r tŷ yn amlach, a buddsoddi mewn ymarfer corff ac aelodaeth campfa. Mewn cyferbyniad, disgrifiodd eraill fynediad haws at gludfwydydd a bwyd nad yw'n iach, yn ogystal ag alcohol a sylweddau.

Tynnwyd sylw gan rai, mewn cyfweliadau hanner ffordd drwy'r cynllun peilot ac ar ddiwedd y cynllun, at welliannau yn eu hiechyd, gan gyfeirio at sut yr oedd mwy o ryddid ariannol yn caniatáu iddynt fwyta'n fwy iachus a gwario arian ar offer gwell, ac iechyd corfforol, a chredwyd bod hyn yn ffactor o fod 'mewn gwell siâp yn gorfforol' (PI67 – diwedd y cynllun peilot):

> 'Gwellodd fy iechyd corfforol gan fod mod yn mynd i'r gampfa yn amlach, ac roeddwn i'n poeni am lai o bethau gan fy mod yn gallu bwyta; roeddwn i'n gallu bwyta'n iawn. Roeddwn i'n gallu fforddio byw'n iawn. Roeddwn i'n gallu fforddio'r aelodaeth yn y gampfa. Roeddwn i'n gallu mynd yno bob dydd. Roeddwn i'n gallu gweithio ar ben fy hun. Felly, roedd yn helpu mewn sawl ffordd.' (PI56 – diwedd y cynllun peilot).

> ‘Ydyw, mae wedi newid llawer. Rwy’n ceisio mynd i’r gampfa, a nofio ac ati. Mae’r BIP [y cynllun peilot incwm sylfaenol] wedi helpu hyn yn fawr, gan ei fod, i bob pwrpas, yn talu amdano.’ (PI4 – hanner ffordd drwy’r cynllun peilot).

Roedd yr effeithiau cadarnhaol hyn hefyd yn nodedig i dderbynyddion anabl, gan eu bod yn gallu fforddio’r cymorth ychwanegol yr oedd ei hangen arnynt, er enghraifft, ar gyfer symudedd i gynnal eu llesiant.

Ymhlith y lleiafrif bach o gyfranogwyr a soniodd am brynu mwy o fwyd nad oedd yn iach, roedd rhai yn cydnabod yr incwm sylfaenol fel ffactor a oedd yn codi risgiau iechyd:

> ‘O ran iechyd yn gyffredinol, rwy’n meddwl fy mod i’n eithaf iach er fy mod i ychydig dros bwysau, ac rwy’n beio hynny ar y gallu i brynu llawer o fwyd. Gallwn fforddio mwy o siocled.’ (PI45 – diwedd y cynllun peilot).

Yn yr un modd, dywedodd rhai cyfranogwyr eu bod yn gwario’r incwm sylfaenol ar sylweddau anghyfreithlon. Er nad oedd y cynllun peilot o reidrwydd yn eu rhoi ar ben y ffordd o ran y llwybr hwn, ystyriwyd ei fod wedi gwneud prynu sylweddau o’r fath yn fwy posibl. Dywedodd un cyfranogwr, ‘Ni fyddwn wedi gallu fforddio’r pethau y byddwn yn eu prynu pe na bawn i’n cael yr holl arian hwnnw yn dod i mewn.’ (PI51 – diwedd y cynllun peilot).

Disgrifiodd rhai cyfranogwyr eu bod yn gallu gwneud mwy o bethau a oedd yn gwella ac yn rhwystro eu hiechyd corfforol, gan arwain at effeithiau cymysg. Esboniodd un cyfranogwr fod hyn yn golygu bod ganddo’r rhyddid i ystyried ei ddewisiadau, fel ‘mynd i’r gampfa yn aml’ ochr yn ochr â phenderfyniadau nad oedd ‘yn rhai doeth’, fel ‘yfed bob nos, neu bob yn ail noson’ (PI63 – diwedd y cynllun peilot). Ategodd cyfranogwr arall y tensiwn hwn mewn perthynas â bwyta a ffordd iach o fyw:

> ‘Byddwn wedi dweud ei fod yn mynd i’r ddau gyfeiriad, oherwydd rwy’n tueddu i fwyta dan emosiwn, felly gyda mwy o arian, roeddwn i’n gallu prynu mwy nag y dylwn fod wedi bwyta, a oedd yn caniatáu i mi fagu pwysau. Ond yna, i’r gwrthwyneb, roedd hefyd yn rhoi’r rhyddid i mi fynd allan gyda ffrindiau a gwneud gweithgareddau, fel mynd am dro, mynd i fowlio, ac ati, a helpodd fi i golli pwysau hefyd. Neu fel aelodaeth campfa, a oedd gennyf, a helpodd fi i golli pwysau. Felly, aeth i fyny ac i lawr, i fod yn onest.’ (PI47 – diwedd y cynllun peilot).

## 3.3 Gwaith, addysg ac hyfforddiant

Yn yr adran hon rydym yn amlinellu naratifau cyfranogwyr ar effeithiau’r incwm sylfaenol ar eu cymhelliant a’u hagwedd at eu dyfodol, a’u dewisiadau ynghylch addysg, sgiliau a gwaith.

### 3.3.1 Cymhellion a chynllunio i'r dyfodol

Cydnabu cyfranogwyr y gall natur trawmatig ac ansefydlog bod mewn gofal olygu efallai na fydd rhai derbynyddion yn tueddu i feddwl am y dyfodol wrth wneud penderfyniadau. Disgrifiodd un hyn yn fyw, gan ddweud ei bod yn canolbwyntio'n bennaf ar 'bethau bob dydd' a'r profiad o fyw gyda'i fam a chael ei gicio allan a dod yn ddigartref' a wnaeth iddo feddwl 'un dydd ar y tro, a dim mwy na hynny.' (PI65 – diwedd y cynllun peilot).

Clywsom am ystod o brofiadau o ran yr incwm sylfaenol a'i effaith ar gymhelliant a meddwl am y dyfodol. Dywedodd llawer nad oedd y cynllun peilot wedi cael unrhyw effaith arbennig ar eu meddwl tuag at y dyfodol, gyda'i effeithiau pennaf yn cael eu teimlo ar eu bywyd bob dydd yn ystod y cynllun peilot. Ar y llaw arall, i rai cyfranogwyr â'r arian hwn yn agored iddynt 'roedd yn rhoi'r syniad o'r hyn yr oedd yn ei deimlo i gael swm da o arian' (PI70 – diwedd y cynllun peilot), a'r ffordd o fyw yr oedd hynny'n ei alluogi. Roedd hyn yn eu hannog i anelu at gynnal a gwella eu bywydau ar ôl y cynllun peilot. Dywedodd un cyfranogwr fod y cynllun peilot wedi rhoi'r 'uchelgais i wneud mwy o'r pethau rydw i eisiau eu gwneud, ac nid dim ond segura a gwastraffu cyfleoedd' (PI56 – diwedd y cynllun peilot). Mae'r myfyrdod canlynol gan berson ifanc nad oedd wedi bwriadu mynd i mewn i'r gweithle yn herio'r farn y gallai'r cynllun peilot atal gwaith:

> 'Doedd gen i erioed y bwriad o weithio mewn swydd, a phan ddechreues i ar y cynllun peilot, byddech chi'n meddwl y byddai hynny'n fy argyhoeddi hyd yn oed yn fwy i beidio â gweithio, oherwydd pam mae angen i mi weithio? Mae gen i'r arian yn dod i mewn. Ond pan ddaeth y peilot drwodd, meddyliais i, 'Wel, os ydw i'n gweithio, gallaf arbed yr holl arian o'r cynllun peilot ac efallai rhywfaint o'r swydd hefyd,' a phe na fyddwn wedi cael fy nhemtio gan y cynllun peilot, yn rhyfedd ddigon, i fynd i wneud mwy o waith i gael mwy o arian, ni fyddwn byth wedi dod yn fwy cymdeithasol ac wedi mynd allan o'r tŷ, a datblygu fel unigolyn fel rydw i wedi ei wneud yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Fe wnaeth hyn fi'n hapus. Newidiodd sut roeddwn i'n gweithredu cryn dipyn' (PI62 – diwedd y cynllun peilot).

I rai cyfranogwyr, roedd yr arian a gynilwyd ganddynt yn ystod y cynllun peilot yn eu galluogi i deimlo'n fwy diogel a gwneud cynlluniau a oedd yn ymddangos yn 'fforddiadwy' ar gyfer y dyfodol. Hanner ffordd drwy'r cynllun peilot, awgrymodd un cyfranogwr ei fod yn ymestyn cwmpas eu gwaith cynllunio:

> 'Rwy'n credu bod y BIP wedi ei gwneud hi'n fwy ymarferol i ddechrau meddwl yn yr hirdymor, lle gallaf nawr ddweud yn realistig, 'O, gallaf fforddio hyn mewn gwirionedd, a gallaf ei gyflawni.' Felly, mae'n gwneud y cynlluniau roeddwn i eisoes wedi'u gwneud o'r blaen, cyn cael y BIP, yn fwy realistig.' (PI6 – hanner ffordd drwy'r cynllun peilot).

Disgrifiodd rhai fod ganddynt y gofod meddyliol i benderfynu beth oedden nhw eisiau ar gyfer y dyfodol, heb i bryderon ariannol bob dydd eu rhwystro (PI50 – diwedd y cynllun peilot). Roedd yr arbedion a oedd wedi crynhoi wedi rhoi'r hyder i un cyfranogwr gan ei gwneud 'yn llawer haws cael rhywle i fyw cyn i mi ddechrau gweithio go iawn' (PI20 – diwedd y cynllun peilot). Roedd un arall yn teimlo bod 'arbed cynilion ... wedi gwneud i mi deimlo'n fwy hyderus am fod yn y brifysgol. Roedd yn gwneud i mi deimlo'n fwy hyderus am fy nyfodol' (PI60 – diwedd y cynllun peilot). Yn fwy cyffredinol, dywedodd trydydd cyfranogwr fod y cynllun peilot 'wedi fy ngalluogi i feddwl am y dyfodol yn fwy, ac edrych ar gyfleoedd ehangach,' gan gynnwys buddsoddi yn ei addysg: 'Nid wyf yn credu y byddwn i erioed wedi ystyried gwario cyn gymaint o arian ar fy addysg" (PI64 – diwedd y cynllun peilot).

Fodd bynnag, roedd cyfranogwyr eraill yn edifarhau na fyddent wedi cael mwy o gefnogaeth ac anogaeth i chwilio am waith, arbed mwy a meddwl yn fwy cynhyrchiol am y dyfodol. Dywedodd un:

> 'Rydych chi'n cael yr arian hwn ac nid yw'n cael ei drethu, ac nid oes rhaid i chi weithio; felly does dim anogaeth i'ch cael chi i mewn i waith. Nid oes gennych unrhyw un sy'n eich cynorthwyo drwy gydol hynny' (PI51 – diwedd y cynllun peilot).

Er eglurhad, roedd yr incwm sylfaenol yn cael ei drethu (ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru), ond ymddengys nad oedd y person ifanc a ddyfynnwyd uchod wedi bod yn ymwybodol o hyn.

Mae'r tensiwn hwn rhwng credoau am ddiamodrwydd ac ymreolaeth ar y naill law, a mwy o reoleiddio, cymorth ac arweiniad ar y llall, yn thema gyson ar draws y dadansoddiad a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

### 3.3.2 Profiadau o addysg

Roedd dros hanner y cyfranogwyr yn y cyfweliadau ar ddiwedd y cynllun peilot yn ymwneud â, neu'n bwriadu bod mewn hyfforddiant, prentisiaethau neu addysg ar ddiwedd y cyfnod peilot. Fel pwynt cyfeirio, roedd bron i 40% o'r rhai a wnaeth adael gofal (19–21 oed) yn Lloegr yn 2023–2024 yn rhai nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) (Foley ac eraill, 2025). Mae hyn yn sylweddol uwch na ffigur tebyg o ryw 15% o bobl ifanc 18–24 oed yn y DU (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2025b) ac 11.6% o bobl ifanc 16–24 oed yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2025a). Roedd bron i hanner y rhai a wnaeth adael gofal yng Nghymru yn NEET yn 2019–2020, mewn cyferbyniad â 17% o'r holl bobl ifanc 19–24 oed, sef y ffigur diweddaraf sydd ar gael yng Nghymru (Ystadegau Cymru, 2019).

Yn debyg iawn i'r drafodaeth uchod, roedd effeithiau'r cynllun peilot ar benderfyniadau ynghylch addysg, hyfforddiant a datblygu sgiliau yn amrywiol. I rai cyfranogwyr, nid oedd penderfyniadau ynghylch addysg neu hyfforddiant yn dibynnu ar yr incwm sylfaenol: roeddent yn teimlo y byddent wedi gwneud yr un dewisiadau

beth bynnag. I eraill, effeithiodd y peilot ar sut yr oedden nhw'n gweld eu dyfodol, yn dod â diogelwch a sefydlogrwydd i fynd i addysg bellach, a gwella eu profiadau o fod mewn addysg.

Fel enghraifft o'r dewisiadau a gynhyrchwyd gan y cynllun peilot, dywedodd un cyfranogwr wrthym sut yr oedd yn gweithio mewn swydd yr oedd bob amser wedi dymuno ei wneud, ond yna sylweddoli bod mwy o opsiynau ar gael ac yn gyraeddadwy oherwydd y cynllun peilot (PI64 – diwedd y cynllun peilot). Disgrifiodd eraill sut yr oedd bod ar yr incwm sylfaenol yn eu hannog i feddwl am addysg fel offeryn i wella eu dyfodol. Disgrifiodd un cyfranogwr ddefnyddio'r arian 'i fynd nôl a chael rhai cymwysterau' i wneud yn iawn am golli llawer o ysgol a pheidio ag ymadael gyda llawer o gymwysterau (PI50 – diwedd y cynllun peilot). Disgrifiodd un arall fod yr arian wedi gwneud agweddau eraill ar ddilyn addysg yn fwy fforddiadwy:

> 'Rwy'n credu fy mod i'n fwy optimistaidd ar gyfer y dyfodol, oherwydd roeddwn i'n gwybod na fyddai arian yn broblem, y gallwn fforddio pethau, a phan oeddwn i'n gwneud y celfyddydau perfformio, pe byddwn i'n cael clyweliad ac y byddai angen i mi gyrraedd [lleoliad] neu rywbeth, gallwn fforddio'r bws, a gallwn fforddio aros mewn gwesty am y noson ac ati.' (PI53 – diwedd y cynllun peilot).

Roedd y rhai a oedd mewn addysg ar ddiwedd y cynllun peilot mewn gwahanol sefyllfaoedd yn ariannol, gyda rhai yn cael mynediad at gyllid myfyrwyr, grantiau gan eu hawdurdod lleol a chymorth arall gan eu sefydliadau addysgol.

### 3.3.3 Penderfyniadau yn gysylltiedig â gwaith

Mae effaith incwm sylfaenol diamod ar gymhelliant pobl i ddechrau neu barhau â llafur â thâl wedi bod yn nodwedd bwysig o drafodaethau incwm sylfaenol (Francisco ac eraill, 2024; Howard a Mathur, 2025). Yng nghyfweliadau diwedd y cynllun peilot, roedd ychydig llai na hanner y cyfranogwyr yn ymwneud â rhyw fath o lafur cyflogedig neu wirfoddoli pan oeddent ar y peilot. Yn yr adran isod rydym yn tynnu sylw at effeithiau yr incwm sylfaenol y disgrifiwyd gan gyfranogwyr ar eu gallu i ddewis pryd, faint a pha waith i'w wneud, sut y gwnaeth eu galluogi i lywio trefniadau gwaith ansicr ac anodd, effeithiau ar gymhelliant a dyheadau o amgylch gwaith, a'r newidiadau sydd wedi digwydd ers diwedd y cynllun peilot.

### 3.3.4 Galluogedd a dewis

Roedd y cynnydd mewn ymreolaeth a rheolaeth a drafodwyd uchod yn arbennig o amlwg mewn perthynas â gwaith. Roedd yn amlwg bod mwy o ryddid a dewis am waith. Yn y cyfweliadau hanner ffordd, siaradodd yr holl gyfranogwyr am bwysigrwydd gwaith, yn enwedig i bontio y tu hwnt i'r cynllun peilot. Mewn cyfweliadau ar ddiwedd y cynllun peilot, siaradodd rhai yn edifarhaus ynglŷn â llai o gymhelliant i weithio. Disgrifiodd un nad oedd yn teimlo brys i ddod o hyd i swydd 'oherwydd eich bod chi'n iawn i raddau.  Pan fydd yr arian yno, rydych chi'n meddwl, wel mae gen i arian, felly beth yw'r pwynt?' (PI72– diwedd y cynllun peilot).

Dywedodd un arall: ‘Doeddwn i ddim eisiau gweithio. Nid oeddwn hyd yn oed yn meddwl gwneud cais am swydd o gwbl, oherwydd roeddwn i jyst yn byw fy mywyd ar gefn yr arian hwnnw’ (PI57 – diwedd y cynllun peilot). Yn yr un modd, pan ofynnwyd beth oedd yn ei atal rhag cael swydd yn ystod y cynllun peilot, atebodd un arall yn syml: ‘Nid oedd angen i mi’ (PI51 – diwedd y cynllun peilot).

Yn ogystal â’r dewis i benderfynu peidio â gweithio, dywedwyd bod y trosglwyddiadau arian hefyd yn caniatáu i eraill gael rheolaeth dros y mathau o waith i’w dilyn. Roedd y rhyddid ariannol yn darparu rhywfaint o ‘le i anadlu’, a oedd yn amlygu ei hun mewn gwahanol ffyrdd. I lawer o’r cyfranogwyr, tynnwyd y straen o ddiwallu anghenion sylfaenol, a oedd yn golygu nad oedd angen iddynt gymryd y swydd gyntaf a oedd ar gael, sef trafodaeth yr ymhelaethwyd arni ymhellach yn namcaniaeth y rhaglen a drafodwyd yn Adran 5. Gyda’r cynllun peilot yn ei le, nid oedd rhaid iddyn nhw feddwl, er enghraifft: ‘O’r mowredd, o ble ydw i’n mynd i gael fy arian rhent? O ble ydw i’n mynd i gael bwyd? O ble ydw i’n mynd i gael hwn a’r llall?’ (PI67 – diwedd y cynllun peilot). Gyda’r straen hwnnw wedi’i leddfu, roedden nhw’n gallu canolbwyntio mwy ar y cyfeiriad yr oeddent am i’w bywydau gwaith fynd:

> ‘Byddai fel rhyw fath o rwyd ddiogelwch fach lle gallech feddwl, hei, dydw i ddim yn gwneud yn dda gyda hyn, rwy’n gwybod bod gen i’r ychydig hwn wrth gefn y gallaf dipio iddo. Mae gen i’r arian hwnnw wedi’i arbed i allu byw ar fy mhen fy hun, a pheidio â phoeni am golli’r lle rydw i ynddo.’ (PI39 – hanner ffordd drwy’r cynllun peilot).

> ‘Rwy’n credu mai’r cynllun peilot a wnaeth fy ngalluogi i benderfynu beth oeddwn i eisiau, oherwydd rhoddodd yr amser i mi lle nad oedd yn rhaid i mi jyglo pethau. Gallwn ganolbwyntio ar yr hyn yr oeddwn i’n dymuno ei wneud yn unig, ac fe wnaeth fy rhoi i ar ben y ffordd i allu mynd i’r cyfeiriad rydw i eisiau mynd iddo [gweithio gydag anifeiliaid], ac fe helpodd yn fawr gyda dod o hyd i’r hyn roeddwn i ei eisiau.’ (PI50 – diwedd y cynllun peilot).

Y tu hwnt i’r cwestiwn deuaidd o ran a ddylid gweithio neu beidio, bu’n fodd hefyd o alluogi opsiynau gyrfa amgen a hunangyflogaeth i ychydig o gyfranogwyr, fel yr adroddwyd yn y dadansoddiad blaenorol o gyfweliadau sylfaenol (Mathur ac eraill, 2025):

> ‘Felly, pan ddechreuais ar y cynllun peilot, roedd yn wych mewn gwirionedd, oherwydd dechreuais fusnes gydag ef. Felly, fe wnes i sefydlu busnes hunangyflogedig, ac roedd yn mynd yn dda iawn pan oeddwn yn cael yr arian. I fod deg, pan stopiodd yr arian, fe arweiniodd at ychydig o fethiant, oherwydd nid oedd unrhyw siawns i mi gyrraedd y math o incwm a roddwyd i mi. Felly, roeddwn i’n gallu rhedeg y busnes arno, ond mae’r busnes yn dal gen i, ond mae’n anodd. Dydw i ddim yn cael unrhyw gymorth ariannol; dim byd. Felly unwaith y stopiodd yr arian i mi, roedd yn anodd iawn. Ond bu’n help mawr ar gyfer sefydlu busnes, a gallu ei gynnal.’ (PI48 – diwedd y cynllun peilot).

### 3.3.5 Gwaith â thâl ddim bob amser ar gael nac yn ddibynadwy

Roedd rhyddid a dibynadwyedd gwell incwm o'r cynllun peilot yn arbennig o nodedig i rai cyfranogwyr, gan nad oedd gwaith yn ffynhonnell gynhaliaeth neu'n sefydlog bob amser. Mewn sawl rhan o Gymru roedd cyfranogwyr yn cael trafferth dod o hyd i swyddi a sicrhau swyddi. Adroddodd cyfranogwyr am wneud ceisiadau aflwyddiannus 'yn llythrennol ar gyfer cannoedd' o swyddi (PI63 – diwedd y cynllun peilot). Dywedodd un ei fod yn ddi-waith: 'Ddim o ddewis; gwneud popeth y gallech, gwneud cais ar Indeed, mynd i'r Ganolfan Waith, rhannu'ch CV o gwmpas y stryd fawr. Mae'n ymddangos nad oes unrhyw un yn cynnig swyddi' (PI47 – diwedd y cynllun peilot). Roedd un arall wedi gwneud cais am '800 o swyddi' gydag un ymateb yn unig, gan briodoli hyn i 'ddeallusrwydd artiffisial yn gwrthod ar unwaith miloedd o geisiadau' a 'swyddi ysbryd' lle mae'n ymddangos bod cwmnïau 'bob amser yn cyflogi, ond byth yn cyflogi ar yr un pryd" (PI46 – diwedd y cynllun peilot).

Mae'n bwysig nodi bod ffactorau sy'n dylanwadu ar argaeledd swyddi (er enghraifft, awtomeiddio neu lefelau gweithgarwch economaidd) yn annibynnol ar y cynllun peilot. Mae penderfyniadau sy'n gysylltiedig â gwaith mewn cynllun peilot incwm sylfaenol bob amser yn cael eu dylanwadu gan sefyllfa ehangach yr economi wleidyddol lle mae'n cael ei weithredu (Calnitsky a Latner, 2017).

Hyd yn oed pan oedd cyfranogwyr yn sicrhau cyflogaeth, nid oeddent bob amser yn gallu cadw at y gwaith oherwydd salwch meddwl, tai ansefydlog a materion eraill. Er enghraifft, dywedodd un cyfranogwr: 'Mae gen i baranoia drwg, ac rwy'n dioddef o ADHD hefyd, felly mae'n tueddu i fod yn anodd i mi gadw swydd weithiau.' (PI56 – diwedd y cynllun peilot). Roedd pryderon hefyd ynglŷn ag effaith gweithio cynaliadwy ar hawl i fudd-daliadau:

> 'Gan nad ydw i'n rhywun sy'n gallu dibynnu ar waith fel ffynhonnell incwm, gallaf ei wneud, ond nid wyf yn gwybod tan pryd y byddaf yn gallu ei wneud, neu nid wyf yn gwybod a fyddaf yn gallu ei gynnal. Mae'r pryder o ran dod oddi ar y pethau hynny [Credyd Cynhwysol] a dim ond dibynnu ar swydd, a'r un peth yn digwydd eto, a chael fy ngadael heb incwm yn bryder mawr. Rwy'n cael llawer o drafferthion gyda'm iechyd meddwl i, ac ADHD ac ati, felly rwy'n credu bod a wnelo hynny dipyn â'r peth, ond rwy'n credu ei fod hefyd yn ymwneud â'r hyn rydw i'n dod adref iddo, a hefyd faint rydw i'n ei ennill yn y gwaith, ond faint rydw i'n ei gael os ydw i'n cael budd-daliadau eraill. Mae'n waeth i mi, mewn gwirionedd. Mae'n fwy brawychus i mi fod mewn gwaith nag yw peidio â bod.' (PI51 – diwedd y cynllun peilot).

Yn y cyfweliadau hanner ffordd drwy'r cynllun peilot ac ar ddiwedd y cynllun, tynnwyd sylw gan y rhan fwyaf o gyfranogwyr at bwysigrwydd chwilio am swydd. I lawer o'r cyfranogwyr, roedd diwedd y cynllun peilot yn gyfnod dyngedfennol lle'r oedd yn rhaid iddynt chwilio am swydd. Roedd yr heriau yn y broses honno, ynghyd â'r gostyngiad sylweddol mewn incwm, a gorfod cofrestru ar gyfer Credyd

Cynhwysol yn gwneud hwn yn gyfnod o straen mawr. Roedd rhai yn llwyddiannus yn sicrhau swydd neu gofrestru ar gwrs, ond roedd llawer o rai eraill nad oeddent mor llwyddiannus, wedi profi cyfnod o bryder ac ansicrwydd mawr.

Dywedodd y cyfranogwyr fod y cynllun peilot yn eu galluogi i gymryd risgiau, gan roi iddynt 'y rhyddid yn ariannol i wneud y dewis, ac iddo fynd o'i le' oherwydd 'ni fyddai'n risg enfawr pe na fyddai rhywbeth yn mynd y ffordd yr oeddwn i eisiau iddo fynd' (PI47 – diwedd y cynllun peilot). Aeth yr un cyfranogwr ymlaen i ychwanegu bod arian y cynllun peilot, yn ei alluogi i 'wario arian ar y bws i fynd i bump neu chwe chyfweliad pe byddwn i'n dymuno, i gael y swydd y byddwn i ei heisiau, neu i fynd i'r coleg ac yn ôl', ond nid oedd yn teimlo bod hyn yn bosibl ers i'r arian ddod i ben. Disgrifiodd un arall bod yn 'gaeth' mewn swydd nad oedd yn bodloni eu hanghenion:

> 'Doeddwn i ddim yn teimlo'n gaeth pan oeddwn i'n rhan o'r cynllun peilot, oherwydd ar hyn o bryd mae gen i waith; mae gen i swydd ran-amser, ond rydw i wir eisiau ymadael gan nad yw'r cyflogwr yn rhoi llawer o oriau; nid yw'n talu'r swm cywir i mi. Rwy'n teimlo'n gaeth, oherwydd mae'n rhaid i mi aros. Efallai y gallai rhywbeth ddigwydd pe byddwn yn rhoi'r gorau i'r swydd heb unrhyw reswm. Gallen nhw atal y taliadau [Credyd Cynhwysol], yr arian rydw i'n ei gael am fis neu ddau ac ati.' (PI31 – diwedd y cynllun peilot).

## 3.4 Tai

Roedd sefyllfaoedd tai cyfranogwyr y cyfweliadau yn amrywio'n fawr. Yn y cyfweliadau ar ddiwedd y cynllun peilot, roedd pump cyfranogwr yn byw gyda theulu (neiniau a theidiau, brodyr a chwiorydd, rhieni), pump gyda gofalwyr, pedwar mewn tai â chymorth, wyth mewn tai awdurdodau lleol, chwech mewn tenantiaethau preifat, tri mewn neuaddau preswyl prifysgol, dau mewn tai cymdeithasol a thri yn byw mewn mathau eraill o dai. Mae arwyddocâd tai i dderbynyddion yr incwm sylfaenol yn cael ei amlygu gan yr heriau enfawr ynghylch argaeledd a fforddiadwyedd tai yng Nghymru (Rogers ac eraill, 2025). Roedd y swm yr oedd cyfranogwyr yn ei dalu tuag at dai yn amrywio'n fawr, gydag effeithiau ar eu hincwm gwario, ac felly profiadau'r cynllun peilot. Mae argaeledd a chostau tai hefyd yn amrywio'n sylweddol ar draws rhanbarthau yng Nghymru, yn ogystal â'r math o lety yr oedd pobl ifanc ynddo. Roedd polisïau codi tâl ar gyfer 'Pan fydda i'n barod' / tai â chymorth hefyd yn amrywio yn ddaearyddol.

Er bod incwm sylfaenol wedi ehangu gallu derbynyddion i fforddio tai, mae ein data yn awgrymu nad dyma'r unig ffactor sy'n effeithio ar eu penderfyniadau sy'n gysylltiedig â thai. Roedd rhaniad tua hanner a hanner rhwng y cyfranogwyr a adroddodd mewn cyfweliadau bod cael yr incwm sylfaenol yn effeithio ar eu penderfyniadau ynghylch tai, a'r rhai a ddywedodd nad oedd yn cael effaith. Pryderon ynghylch eu hanghenion, argaeledd gwahanol opsiynau tai, a fforddiadwyedd oedd y prif ffactorau yn sbarduno dewisiadau yn gysylltiedig â thai. Dywedodd un cyfranogwr a oedd yn byw gyda'i nain a'i daid pa mor ddrud oedd

costau rhent, a dywedodd nad oedd y cynllun peilot ‘yn effeithio ar fy sefyllfa tai, ond yn ei gwneud hi’n haws talu rhent’ (PI46 – diwedd y cynllun peilot).

Mae ffactorau eraill, megis rhestrau aros hir, argaeledd cyfyngedig o dai cymdeithasol, anghenion iechyd cyfranogwyr ac anfforddiadwyedd rhenti preifat yn aml yn golygu nad oedd ganddynt y gallu i ymarfer llawer o ddisgresiwn dros ddewisiadau tai. Dywedodd un: ‘Dylech ddewis beth bynnag sydd ar gael, oherwydd fel arall nid ydych chi’n gallu cael fflat mewn dwy, tair neu bedair blynedd. Mae’n dibynnu pa mor hir y mae hynny’n ei gymryd’ (PI15 – diwedd y cynllun peilot). Dywedodd un arall nad oedd byth ‘mewn sefyllfa i wrthod eiddo os ydw i’n cael ei gynnig’ (PI72 – diwedd y cynllun peilot). Fodd bynnag, i rai cyfranogwyr, roedd y cynllun peilot wedi sicrhau bod tai a fyddai fel arall allan o gyrraedd, yn llawer mwy fforddiadwy:

> ‘Alla i ddim esbonio faint y mae’r arian wedi helpu. Mae gen i fy lle fy hun nawr. Mae cael yr arian hwnnw wedi rhoi cyfle i mi gael fy lle fy hun, a byw ar fy mhen fy hun, cael fy annibyniaeth fy hun. Felly, ydyw, mae wedi bod yn dda iawn.’ (PI40 – hanner ffordd drwy’r cynllun peilot).

Cyfeiriodd cyfranogwyr hefyd at sut yr oedd y cynllun peilot yn eu gwneud yn deilwng o gredyd neu’n ddibynadwy yng ngolwg landlordiaid posibl. Roedd hyn yn cynnwys y cyngor mewn rhai achosion, a sylwodd un cyfranogwr ei fod ‘yn gwybod bod gen i’r arian i dalu’r rhent fel na allant ddweud, ‘O na, mae hi’n annibynadwy’, neu rywbeth tebyg, oherwydd roedd gen i’r arian’ (PI52 – diwedd y cynllun peilot). Fodd bynnag, nid oedd pob cyfranogwr yn elwa o’r cymorth ariannol y gellir ei ddangos, gan nad oedd llawer o landlordiaid yn gyfarwydd â’r peilot incwm sylfaenol, neu ddim yn ei ystyried yn ddigon sefydlog. Fel yr amlinellir isod, roedd rhai cyfranogwyr hyd yn oed yn teimlo ei fod yn anfantais iddynt wrth gael mynediad at gymorth sy’n gysylltiedig â thai gan y cyngor.

Adroddwyd hefyd bod yr incwm sylfaenol yn darparu diogelwch a sefydlogrwydd trwy gyfnodau o ansicrwydd a thrawsnewid. Nid oedd y profiadau hyn yn anghyffredin i bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal sy’n aml yn mynd trwy amryfal leoliadau llety cyn iddynt allu fforddio ymgartrefu mewn cartref. Nid oedd cyfnodau o ddigartrefedd, llety dros dro a thai â chymorth yn nhaith dwy flynedd y peilot yn anghyffredin yn ein cyfweliadau, gyda rhai cyfranogwyr yn symud bump neu chwe gwaith yn y cyfnod hwnnw. Mae hyn yn tanlinellu cymhlethdod digartrefedd fel cynnyrch amryw ffactorau y tu hwnt i fforddiadwyedd ariannol yn unig (Palmer ac eraill, 2022; Cross ac eraill, 2022):

> ‘Helpodd hwn ni i dalu swm o arian i bobl lle gallem aros bob hyn a hyn, dim ond i wneud yn siŵr bod gennym do dros ein pen. Os nad oedd gennym unman i fynd, byddai gennym arian oherwydd ein bod ni’n cael arian y cynllun peilot bob mis. Byddwn yn mynd i archebu gwesty ac aros yno am ychydig

ddyddiau, ac yna yn amlwg mynd i lety dros dro bryd hynny.' (PI61 – diwedd y cynllun peilot).

> 'Wel, roedd yn gwneud i mi deimlo'n fwy cyfforddus, oherwydd wrth gwrs, pe na bai gen i arian a'm bod yn ddigartref ar yr un pryd, byddwn wedi bod yn ofnus gan fod yr arian hwnnw yno. Roedd gen i rywbeth i ddisgyn yn ôl arno; dyna'r peth pwysicaf i mi.' (PI65 – diwedd y cynllun peilot).

Roedd profiadau o gael mynediad a derbyn cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn amrywio'n fawr. Ar gyfer cyd-destun, roedd gan y rhai a oedd yn byw mewn tai â chymorth, tai gwarchod neu dai dros dro yr hawl i wneud cais am y Budd-dal Tai yn unol â Rheoliadau Budd-dal Tai a Chredyd Cynhwysol (Llety â Chymorth) (Diwygio) 2014. Roedd canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir na ddylai bod yn rhan o'r cynllun peilot wneud unrhyw un yn anghymwys i hawlio'r Budd-dal Tai, ac roedd llawer o gyfranogwyr yn cael y Budd-dal Tai. Fodd bynnag, mae'r Budd-dal Tai yn fudd-dal prawf modd, ac felly effeithiwyd ar yr hawl o ganlyniad i gymryd rhan yn y cynllun peilot. Mae pobl ar Gredyd Cynhwysol yn cael eu dyfarniad Budd-dal Tai mwyaf, waeth beth yw swm y rhent. Ar gyfer y rhai sydd yn rhan o'r cynllun peilot ac mewn trefniadau tai gyda rhent uwch na'r arfer (er enghraifft, llety â chymorth), mae'r Budd-dal Tai yn cael ei gyfrifo drwy'r broses prawf modd ac felly nid yw'n cwmpasu'r holl swm rhent. Felly, roedd sefyllfaoedd, anghenion ac amgylchiadau byw unigryw cyfranogwyr yn aml yn arwain at wahaniaethau sylweddol rhwng taliadau rhent rhwng derbynyddion, a chyda eu cyfoedion, a ddisgrifiwyd o fod yn annheg gan rai derbynyddion. Er enghraifft, disgrifiodd un ei bod yn byw mewn llety a rennir, lle mae'r landlordiaid:

'yn rhyw fath o fanteisio arnaf oherwydd yr incwm [sylfaenol], i'r pwynt lle'r oedd un o'r tenantiaid yno yn talu tua £80 y mis am un ystafell. Roedden nhw'n codi £300 yr wythnos arnaf' (PI71 – diwedd y cynllun peilot).

Disgrifiodd un arall lety hostel lle 'roeddwn i'n talu rhywbeth fel £700 neu £800, sy'n llawer o arian, a'r hyn rydych chi'n ei gael, yn llythrennol, yw un ystafell wely ac ystafell ymolchi.' Pan ofynnwyd iddynt a oedd yr hostel wedi cynyddu taliadau oherwydd yr incwm sylfaenol, cadarnhaodd: 'Rwy'n cofio'r frwydr er mwyn peidio â thalu'r swm llawn, oherwydd ei fod yn lladrad llwyr" (PI51 – diwedd y cynllun peilot).

Roedd hyn yn arbennig o berthnasol i'r rhai mewn llety â chymorth, lle gallai costau amrywio o £800 i £1,300 y mis i'r bobl ifanc a gyfwelwyd. Disgrifiodd un cyfranogwr sut yr oedd y profiad o fod mewn llety dros dro tra'i fod yn rhan o'r cynllun peilot yn gwneud pethau'n gymhleth a 'bron fel pe na baem yn bwysig' (PI67 – diwedd y cynllun peilot). Nodwyd bod y cyngor yn dweud wrthynt i beidio â gweithio oherwydd yr effaith y byddai hyn yn ei chael ar lety: 'Byddwn i'n hawlio gormod iddynt allu helpu gyda'n llety, felly byddai'n rhaid i mi wedyn dalu'r £2,300 neu faint bynnag.' Aethpwyd ymlaen i ychwanegu 'Mae'n chwerthinllyd faint maen nhw'n ei dalu i berchnogion llety dros dro' (PI67 – diwedd y cynllun peilot).

O ystyried cymhlethdod y trefniadau hyn, efallai nad yw'n syndod nad oedd y derbynyddion a'r rhai sy'n eu cefnogi bob amser yn glir ar sut roedd y cynllun peilot a'r cymorth tai yn rhyngweithio, ac roedd hyn yn aml yn achosi dryswch a straen. Disgrifiodd un pa mor anodd oedd hi i gael cyngor da:

> 'Rwy'n credu bod pawb y siaradais i â nhw, hyd yn oed Cyngor ar Bopeth ... doedden nhw ddim yn gwybod llawer am y BIP mewn gwirionedd, heblaw am yr ochr o dalu am bethau, oherwydd cefais lawer o broblemau gyda fy nhŷ a'm budd-daliadau lle'r oedd y BIP yn cael ei gymryd i ystyriaeth ac yna ddim yn cael ei ystyried, ac yna'n cael ei ystyried eto. Dim ond mater o eglurder ydyw.' (PI67 – diwedd y cynllun peilot).

Disgrifiodd pobl ifanc ymdeimlad o ddryswch yn enwedig ar y dechrau, lle'r oedd yn ymddangos iddynt nad oedd y system hawliau tra'u bod yn rhan o'r cynllun peilot yn hollol glir:

> 'Cefais lawer o gymhlethdodau gyda'r Budd-dal Tai pan ddechreuais gyntaf, oherwydd nid oeddent yn ei ddosbarthu fel taliad, fel cyflog, ond nid oeddent yn ei ddosbarthu fel un sy'n gallu derbyn Budd-dal Tai, felly byddwn i'n cael Budd-dal Tai un wythnos, a'r wythnos nesaf fyddwn i ddim. Byddai'n newid drwy'r amser. Ac rwy'n credu y byddwn i eisiau gwneud yn siŵr bod mwy o wybodaeth amdano i bobl eraill.' (PI50 – diwedd y cynllun peilot).

Tua diwedd y cynllun peilot dosbarthodd Llywodraeth Cymru nodiadau atgoffa bod y taliadau yn dod i ben ac yn annog cyfranogwyr i ystyried fforddiadwyedd tai presennol. Darparwyd rhestrau gwirio gan swyddogion i weithwyr proffesiynol a derbynyddion chwe mis, tri mis ac un mis cyn diwedd y cynllun peilot. Roedd rhestrau gwirio yn cynnwys tasgau a gweithredoedd fel ystyriaethau sylfaenol. Fodd bynnag, nid oedd y rhain yn effeithiol i bawb. Ar ddiwedd y cynllun peilot, gyda'r gostyngiad mewn incwm, roedd llawer o'r cyfranogwyr yn cael trafferth fforddio eu llety presennol. Cafodd y teimlad bod bywyd 'yn dipyn o frwydr nawr' (PI47 – diwedd y cynllun peilot) ei gyfleu gan sawl cyfranogwr, a daeth llety a oedd yn fforddiadwy yn ystod y peilot yn gyflym yn anfforddiadwy ar ôl iddo ddod i ben. I rai cafodd hyn effaith materol ar eu sefyllfa tai. Er enghraifft, roedd yn rhaid i berson ifanc a oedd yn dymuno parhau i aros gyda'u gofalwyr maeth, er mwyn bod gyda'i chwaer, aildrafod rhent nad oedd yn siŵr o allu ei dalu ar ôl y peilot:

> 'Na, rwy'n credu bod hynny wedi effeithio ar eu penderfyniad i ganiatáu i mi aros yno, oherwydd rwy'n credu eu bod wedi sylweddoli na fyddai wedi bod mor fforddiadwy ag yr oedden nhw'n meddwl ar ôl dweud wrthyf y gallwn aros yno, felly rwy'n credu y gallai hynny fod yn rhan o'r rheswm y bu'n rhaid i mi ymadael, i fod yn onest.' (PI51 – diwedd y cynllun peilot).

## 3.5 Hamdden, cymdeithasu a theithio

Yn y rhan fwyaf o gyfweliadau adroddwyd am gymdeithasu'n amlach yn ystod y cynllun peilot ac mewn rhai achosion, roedd yr incwm sylfaenol wedi galluogi'r cyfranogwyr i dalu costau teithio ac ymweld ag anwyliaid yn fwy rheolaidd, 'mynd ar ddyddiau allan' gyda theulu a oedd yn byw ymhell i ffwrdd (PI12 – diwedd y cynllun peilot), neu 'deithio i weld ffrind' ar y trên (PI58 – diwedd y cynllun peilot). Roedd y gweithgareddau a wnaed yn ystod yr ymweliadau hyn yn cynnwys bowlio, mynd i'r sinema a phrydau allan, bob un ohonynt yn fwy fforddiadwy gyda'r taliadau incwm sylfaenol. Roedd y cyfranogwyr yn amlwg yn gwerthfawrogi'r rhyddid ariannol a'r annibyniaeth o gael 'gwneud pethau braf' gydag eraill (PI48 – diwedd y cynllun peilot) a gwneud iddynt 'deimlo'n gyfforddus' (PI46 – diwedd y cynllun peilot). Nodwyd rhai manteision o ran iechyd meddwl (PI53 – diwedd y cynllun peilot) a mwy o rwydweithiau o ffrindiau (PI63 – diwedd y cynllun peilot):

> 'Roeddwn i'n gallu prynu pethau rydw i eu heisiau, mynd allan gyda fy ffrindiau a chael mwy o incwm i fwynhau fy mywyd gyda nhw cyn i fywyd fynd o ddifrif. Felly roedd hynny'n gadarnhaol iawn i mi, ac roeddwn i wrth fy modd yn cael arian i allu gwneud hynny' (PI60 – diwedd y cynllun peilot).

Dywedodd cyfranogwyr fod y gallu i dreulio amser gydag eraill a chymryd rhan yn y gweithgareddau hyn wedi bod o fudd i'w hiechyd a'u llesiant ac wedi gwella eu perthnasoedd.

Yn llai aml, adroddodd y cyfranogwyr am ddefnyddio'r incwm sylfaenol i gymryd gwyliau yn y DU, Ewrop neu ymhellach i ffwrdd, gydag un yn nodi mynd ar wyliau 'sawl gwaith y flwyddyn ... roeddwn i bob amser yn codi allan' (PI61 – diwedd y cynllun peilot).

Daeth y gweithgareddau hyn yn llai fforddiadwy i'r mwyafrif pan ddaeth y cynllun peilot i ben, ac adroddodd cyfranogwyr eu bod 'mewn gwirionedd yn colli'r rhyddid tra'u bod yn cael Credyd Cynhwysol' (PI47 – diwedd y cynllun peilot) a 'ddim yn mynd allan llawer' nawr (PI55 – diwedd y cynllun peilot). Yn yr un modd roedd y cyfranogwyr yn cyfeirio at effeithiau cadarnhaol ar iechyd meddwl tra'u bod yn rhan o'r cynllun peilot, gan dynnu sylw at effeithiau negyddol bywyd hebddo:

> 'Dim ond eistedd i lawr heb arian: allwch chi ddim hyd yn oed fynd allan am dro i'r siop neu rywbeth tebyg.  Bydd hynny'n effeithio ar iechyd meddwl, pan fyddwch yn byw ar eich pen eich hun, credwch fi.' (PI40 – diwedd y cynllun peilot).

## 3.6 Perthnasoedd

Fel y trafodwyd yn Adran 3.5, i lawer o gyfranogwyr, cynyddodd yr incwm sylfaenol eu gallu i gymdeithasu a chymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill, a chanfyddwyd bod hyn wedi gwella eu perthnasoedd. Ar ben hynny, roedd y

cyfranogwyr yn aml yn adrodd am wario eu hincwm sylfaenol ar eraill a'u cynorthwyo'n ariannol pan oeddent yn cael trafferth:

> 'Roeddwn i'n fwy parod i fynd allan a gwneud pethau ac weithiau talu biliau pobl ... roedd gallu gwneud hynny yn fy ngwneud i'n hapus.' (PI62 – diwedd y cynllun peilot).

> '… mae wedi helpu fy nheulu yn anuniongyrchol ar adegau hefyd pan oeddwn yn rhan o'r cynllun peilot incwm, oherwydd roedd yna adegau lle'r oedd fy mrawd hynaf yn cael trafferth gan nad oedd yn cael llawer o arian gyda Chredyd Cynhwysol, ac roedd prin yn ymdopi bob mis, felly dechreuodd ofyn am fenthyg arian, ond ni allai fy mam na'm chwaer helpu gymaint am eu bod yn cael trafferth eu hunain, felly roeddwn i'n gallu helpu...' (PI89 – diwedd y cynllun peilot).

Roedd yna deimlad amlwg bod gallu cefnogi'r rhai o'u cwmpas yn y modd hwn yn werth chweil i'r cyfranogwyr sy'n cynnig yr enghreifftiau hyn; roedden nhw'n gwerthfawrogi gallu gwario ar eu hanwyliaid. Fel y dywedodd un cyfranogwr, roedd bod yn ffodus cael bod yn rhan o'r cynllun peilot yn golygu 'eich bod am roi, fel rhywun sydd heb gael' (PI51 – diwedd y cynllun peilot).

Fodd bynnag, disgrifiodd y cyfranogwyr eraill bwysau i wario eu hincwm sylfaenol ar eraill, neu gael eu gorfodi, ac roedd hyn wedi effeithio'n andwyol ar eu llesiant a'u perthnasoedd:

> 'Roedd pobl jyst yn meddwl fy mod i'n graig o arian mewn ffordd, ac roeddwn i mewn ffordd, felly roeddwn i'n teimlo pwysau i'w roi, ond roedd pawb fel hyn.' (PI51 – diwedd y cynllun peilot).

> '… roedden nhw'n ceisio erfyn arian gen i drwy'r amser, a byddent yn benthyg arian oddi wrthyf drwy'r amser. Oherwydd eich bod chi'n 18 ac yn naïf, nid ydych chi'n sylweddoli beth y mae pobl yn ei wneud a'i ddweud. Dydych chi ddim wir yn meddwl bod yna gymhellion cudd neu unrhyw beth tebyg, mewn gwirionedd. Felly mae'n tueddu i effeithio ar iechyd meddwl ychydig, ac mae'n effeithio ar eich perthynas â phobl. ' (PI56 – diwedd y cynllun peilot).

Mae gweithwyr proffesiynol wedi mynegi pryderon o'r blaen y gallai 'ffrindiau' newydd ac aelodau o'r teulu geisio manteisio ar dderbynyddion (Holland ac eraill, 2024). Cynghorwyd un person ifanc, er enghraifft, gan eu cynghorydd personol i beidio â dweud wrth ei chwaer am yr incwm sylfaenol oherwydd pryderon ynghylch ecsbloetio. Disgrifiwyd sut yr oedd y chwaer wedi cymryd mantais pan ddarganfu:

> 'Cefais wybod gan fy nghynghorydd personol a'i bòs hi, sef pennaeth gwasanaeth y cynghorwyr personol, a hyd yn oed y gofalwyr yr oeddwn yn aros gyda nhw ... Dywedwyd wrthyf i beidio â dweud wrth fy chwaer fy mod i'n cael yr arian er mwyn i mi allu ei arbed ac ati, ond pan ddeallodd hi fy mod i'n cael yr arian hwnnw, dyma hi'n dweud pethau fel, 'Felly, dyma ti'n cael yr

> arian hwn.  Gallaf i nawr gymryd mwy o fantais ohonot i gymryd yr holl arian', a dyna'n union beth y gwnaeth hi dros y flwyddyn a hanner nesaf.' (PI61 – diwedd y cynllun peilot).

Ailystyrir y pryderon ynghylch ecsbloetio yn Adran 5.3.5 wrth i weithwyr proffesiynol drafod rhesymau pam fod rhai derbynyddion mewn mwy o berygl o gael eu hecsbloetio ar y cynllun peilot nag eraill.

## 3.7 Rheoli arian y prosiect

Yn debyg iawn i bryderon ymarferwyr a amlygwyd yn y cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau blaenorol (Roberts ac eraill, 2025), lleisiodd y cyfranogwyr hefyd bryderon am ddoethineb ariannol derbynyddion, o ystyried eu hoedran a'u profiad bywyd. Dywedodd un fod pobl ifanc 18 oed sy'n gadael gofal ar y cynlluln peilot, sydd 'wedi tyfu i fyny heb fawr o ddim', yn fwy tebygol o fod ychydig yn fwy afradlon gyda'u gwariant gan ei fod fel ennill y loteri i'r rhai sydd erioed wedi cael llawer.' (PI63 – diwedd y cynllun peilot).

Roedd y cyfranogwyr yn rhannu eu safbwyntiau eu hunain, ac  wedi cael profiadau cymysg o reoli eu hincwm sylfaenol. Yn y cyfweliadau hanner ffordd drwy'r cynllun peilot, soniodd pobl ifanc am ystod o strategaethau i sicrhau eu bod yn cynllunio eu treuliau, yn cynilo'n strategol ac yn gwneud yn siŵr nad oedden nhw 'byth yn gwario mwy nag oedden nhw'n ei gael' (PI20 – hanner ffordd drwy'r cynllun peilot). Fel yr amlygwyd yn adroddiad blynyddol 2024–2025 (Mathur ac eraill, 2025), daeth rhai yn fwy hyderus wrth reoli eu harian yn ystod y cynllun peilot a theimlo'n gyfforddus yn cyllidebu erbyn y diwedd:

> 'Roeddwn i'n meddwl 'Iawn, faint sy'n mynd allan bob mis? Faint fydd ar ôl? Faint y galla i ei gynilo, a faint ydw i eisiau ei wario bob mis?' ac mae'n rhywbeth rydw i'n parhau i'w wneud, oherwydd mae'n un o'r pethau hynny sy'n fy helpu i wneud yn siŵr fy mod i'n gwybod na fydd pethau'n mynd yn sgrech bob mis, oherwydd wedyn rwy'n gwybod faint sydd gen i, ac mae'n rhoi syniad bras i mi ar gyfer pan fyddaf yn byw ar fy mhen fy hun, faint sydd gen i ar gyfer biliau ac ati.' (PI39 – diwedd y cynllun peilot).

Nid yw eraill erioed wedi cyrraedd y pwynt lle'r oedd rheoli arian yn rhywbeth yr oeddent yn teimlo eu bod yn gallu ei wneud. Myfyriodd un ar ba mor anodd oedd hyn, gan nodi 'Edrychais ar lawer o fideos ar sut i reoli arian, ac fe wnes i geisio gwneud y dull 20/20/20. Ond rwy'n cael fy nhemtio i wario arian.' (PI46 – diwedd y cynllun peilot). Yn yr un modd, dywedodd un arall:

'Rwy'n dweud wrthyf fy hun bob tro pan fyddaf yn cael yr arian, dwi ddim yn mynd i'w wario'n hurt y tro hwn:  Ac o fewn cwpl o oriau, byddwn i'n meddwl 'O, dyna fi wedi ei gwneud hi eto'.  Mae bob amser yr un peth' (PI72 – diwedd y cynllun peilot).

Fodd bynnag, gwnaeth nifer o'r cyfranogwyr briodoli'r anawsterau hyn i'w hoedran ar ddechrau'r cynllun peilot gan ychwanegu sylwadau eu bod yn 'llawer mwy aeddfed' ar y diwedd (PI61 – diwedd y cynllun peilot). Cyfeiriodd eraill hefyd at eu hiechyd meddwl ansicr a'u hanesion trawmatig yn rhwystro cynilion sefydlog:

> 'Roeddwn i'n gwneud yn dda iawn.  Ar un adeg roedd gen i £5,000 yn fy nghynilion, a'r eiliad y cyrhaeddais y pydew hwnnw [gyda phroblemau iechyd meddwl] aeth yr arian hwnnw i gyd ymhen pythefnos, a dydw i ddim wedi gallu gwella o hynny yn llawn eto, ond rydw i eisiau gwneud yn siŵr fy mod i'n cael hynny yn ôl i fyny.' (PI39 – hanner ffordd drwy'r cynllun peilot).

Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod eu profiadau ôl-beilot yn eu hysgogi mwy i ddysgu am sgiliau cyllidebu oherwydd bod yn rhaid iddynt wneud llai o arian i fynd ymhellach. Dywedodd un nad oedd yn rhaid iddo gyllidebu yn ystod y cynllun peilot 'oherwydd bod gen i gymaint o arian, nid oedd yn ystyriaeth mewn gwirionedd' (PI63 – diwedd y cynllun peilot), a dywedodd un arall 'mae cael llai o arian wedi gwneud i mi ei reoli'n well' (PI70 – diwedd y cynllun peilot). Roedd y bobl ifanc hyn yn ymwybodol bod cyngor ariannol ar gael, ond nid oeddent wedi cael mynediad arbennig at y gwasanaethau hynny. Ymestynnwyd yr un pwynt gan gyfranogwr a ddefnyddiodd swm cymharol fawr o incwm y cynllun peilot fel byffer ariannol:

> 'Doedd dim rhaid i mi feddwl cymaint am hyn pan oeddwn i'n cael y BIP, oherwydd roedd gen i lawer iawn o hyblygrwydd oherwydd y swm. Ond nawr, wrth gwrs, mae'r hyblygrwydd yn llawer llai. Mae'n rhaid i mi fod yn ofalus iawn gyda threuliau, oherwydd mae'r arian yn rhedeg allan yn eithaf cyflym' (PI47 – diwedd y cynllun peilot).

Dywedodd llawer o'r rhai a ddaeth o hyd i ffordd o reoli eu harian yn ddoeth eu bod wedi arbed rhywfaint o arian, naill ai ar gyfer prynu rhywbeth penodol (er enghraifft gwersi gyrru neu gar) neu i gynnal eu hunain naill ai yn ystod y cyfnod pontio oddi ar y peilot neu ymhellach i'r dyfodol:

> 'Fe wnes i [gynilo yn ystod y cynllun peilot], ond erbyn hyn rwyf wedi mynd drwyddo yn ceisio dod i arfer â byw ar incwm is. Fyddai dim arian gen i, felly byddwn yn gwario fy nghynilion am weddill y mis.' (PI53 – diwedd y cynllun peilot).

Pan ofynnwyd iddynt a oedd unrhyw beth yr oeddent yn dymuno eu bod wedi ei wneud yn wahanol ar y cynllun peilot, cynilo mwy oedd yr ymateb mwyaf cyffredin gan y cyfranogwyr. Dywedodd y cyfranogwyr y byddent wedi dymuno  'arbed llawer mwy, yn bendant' (PI66 – diwedd y cynllun peilot), 'gwario llai, a bod yn ofalus' (PI31 – diwedd y cynllun peilot), a 'bod â chynllun ... bod yn fwy trefnus' (PI52 – diwedd y cynllun peilot). Roedd yn edifar gan rai nad oeddent wedi bod 'yn llai hael' â'u harian (PI50 – diwedd y cynllun peilot). Roedd y cyfranogwyr yn aml yn myfyrio ar yr hyn a allai fod yn bosibl gyda'r wybodaeth a'r profiad a gawsant dros y cyfnod o ddwy flynedd. Pan ofynnwyd iddynt a fyddent wedi gweithredu'n wahanol, cyfeiriodd un at

y dewisiadau gwario yr oedd wedi'u gwneud, gan ddweud, 'Pe bawn i'n gwybod yr hyn rwy'n ei wybod nawr, byddai wedi bod yn wahanol' (PI56 – diwedd y cynllun peilot). Dim ond un o'r bobl ifanc a ddyfynnwyd yma a grybwyllodd fod mewn cysylltiad â Chyngor ar Bopeth am gyngor ariannol, tra bod cwpl wedi sôn am gael rhywfaint o gymorth gan eu cynghorwyr personol, gan adlewyrchu tueddiadau a drafodir yn fanylach isod.

## 3.8 Ymgysylltu â chymorth

Roedd y cynllun peilot yn cynnwys ffynonellau cymorth i dderbynyddion a gynlluniwyd i'w helpu i wneud penderfyniadau doeth yn ystod y cyfnod o ddwy flynedd. Yn ogystal â'r cyngor ariannol a gyflwynwyd fel rhan o'r cynllun peilot, roedd hyn hefyd yn cynnwys cymorth arferol gan gynghorwyr personol, a rhwydwaith o oedolion eraill, fel gofalwyr, rhieni, neiniau a theidiau, brodyr a chwiorydd, partneriaid, a hyd yn oed gweithwyr cymorth prifysgol a gweithwyr cymorth eraill. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar eu profiadau o'r cymorth hwn yn ystod y cynllun peilot.

### 3.8.1 Cynghorwyr personol

Fel y bwriadwyd, cynghorwyr personol oedd yn parhau i fod y brif ffynhonnell gyswllt a chymorth i fwyafrif y cyfranogwyr. Disgrifiodd rhai berthynas agos â chynghorwyr personol, lle gallent 'ddweud  popeth wrth y cynghorydd personol' a lle byddent yn 'deall' y person ifanc yn dda (PI57 – diwedd y cynllun peilot). Aeth un hyd yn oed ymhellach, gan bwysleisio'r rôl arwyddocaol yn ei fywyd y cafodd y cynghorydd personol mewn cyfweliadau hanner ffordd drwy'r cynllun peilot ac ar ddiwedd y cynllun – 'Rydyn ni'n cyd-dynnu'n wych, ac mae fel petai hi'n fy nabod i'n dda. Mae hi'n union fel ail fam' (PI40 – hanner ffordd drwy'r cynllun peilot a PI40 – diwedd y cynllun peilot). Disgrifiodd hyd yn oed rhai a oedd â llai o gyswllt—er enghraifft, oherwydd eu bod i ffwrdd yn y brifysgol—deimlad o gael eu cefnogi'n dda:

> 'Dydw i ddim yn gweld fy nghynghorydd personol yn aml iawn, am fy mod i'n eithaf prysur yn y brifysgol. Os oes angen unrhyw beth arnaf, gallaf bob amser anfon neges destun neu e-bost ati. Mae hi'n gofyn i mi a oes angen unrhyw beth arnaf, felly fe helpodd hi gyda phethau fel aelodaeth campfa a chael pen newydd ar gyfer brwsh dannedd trydan. Felly mae'n braf ei bod hi'n cadw golwg arna'i (PI60 – diwedd y cynllun peilot).

Roedd rhai cyfranogwyr yn llai agos at eu cynghorwyr personol. Roedd y rhesymau am hyn yn amrywio o ddiffyg awydd am fwy o gymorth, bod yn ddaearyddol bell i'w hawdurdod lleol, ac anawsterau wrth gael rhai cynghorwyr personol i ymateb i alwadau am gefnogaeth. Roedd y pwynt olaf yn ymddangos i fod yn broblem i sawl cyfranogwr:

> 'Dydw i ddim yn ei weld cymaint â hynny, gan ei fod bob amser yn brysur yn gwneud pethau eraill; felly mae wedi bod fel hyn [yn y ddwy flynedd

> ddiwethaf]. Rwy'n ei weld bob hyn a hyn. Mae wedi bod yn iawn. Rydw i wedi bod yn ymdopi'n iawn.' (PI58 – diwedd y cynllun peilot).

> 'Roeddwn i mewn cysylltiad â hi [cynghorydd personol] tra'r oeddwn i'n aros gyda fy modryb, a thra'r oeddwn i mewn llety, ond ar ôl i mi ymadael, fe wnes i stopio estyn allan a chysylltu. Doedd dim llawer o ymdrech i estyn allan ataf i, a hyd yn oed ar yr adegau prin y byddai'n gwneud hynny, rhyw unwaith neu ddwywaith y flwyddyn y byddai hynny'n digwydd.' (PI65 – diwedd y cynllun peilot).

> 'Ceisiais ffonio fy nghyngorydd personol [enw'r cynghorydd personol] ond dim ond ar ôl dau/dri diwrnod y mae'n anfon neges destun yn ôl. Doeddwn i ddim yn gallu cael gafael arno. Pan ofynnais iddo pam na wnaeth fy ateb, dywedodd 'Mae gen i sawl [enw'r person ifanc] i ymateb iddynt' (PI42 – hanner ffordd drwy'r cynllun peilot).

Ffactor pwysig arall oedd trosiant personél dro ar ôl tro, a arweiniodd at anallu cyfranogwyr i feithrin cysylltiadau dyfnach â'u cynghorydd personol. Dywedodd un ei fod wedi cael 'pedwar cynghorydd personol gwahanol yn ystod dechrau'r cynllun peilot. Maen nhw i gyd yn ymadael â'u swydd' (PI53 – diwedd y cynllun peilot). Dywedodd un arall, 'Rwy'n credu fy mod i wedi cael un am wythnos ar un adeg, pan oeddwn i'n meddwl ei bod hi gyda mi am ychydig fisoedd, ond ddywedodd neb wrthyf ei bod wedi ymadael.' (PI51 – diwedd y cynllun peilot). Roedd hyn i gyd, yn ogystal â theimlo ei bod 'yn ymddangos eu bod ar wyliau bob yn ail ddiwrnod' (PI63 – diwedd y cynllun peilot) yn ei gwneud hi'n anodd meithrin perthnasoedd a allai greu cefnogaeth. Fel y dywedodd un cyfranogwr, 'Rydych chi'n lwcus os cewch chi gynghorydd personol da, neu un sy'n mynd i weithio gyda chi am amser hir' (PI51 – diwedd y cynllun peilot).

Roedd natur ac amlder y rhyngweithio â chynghorwyr personol yn amrywio'n sylweddol. Roedd rhai o'r cyfranogwyr wedi cael galwadau rheolaidd i drafod pob agwedd ar eu bywydau gan gynnwys rheoli'r taliadau peilot. Roedd gan eraill fwy o berthynas yn seiliedig ar anghenion, gan geisio cymorth ar agweddau penodol fel cael mynediad at gymorth ariannol neu dai gan y cyngor, gweinyddiaeth yn gysylltiedig â'r cynllun peilot, neu mewn argyfwng. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr nad oedd yr incwm sylfaenol yn effeithio ar eu perthynas â'u cynghorydd personol. Soniodd nifer fach iawn am lai o angen cael mynediad at y cynghorwyr personol pan oeddent yn rhan o'r cynllun peilot.

Soniodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr fod eu cynghorwyr personol wedi cysylltu â nhw tua diwedd y cynllun peilot ac wedi cynnig cyngor gwerthfawr ar y camau nesaf, gan gynnwys dechrau cynilo, gwneud cais am Gredyd Cynhwysol ac opsiynau eraill. Pan ofynnwyd iddynt am hyn, roedd y mwyafrif yn gweld y cymorth hwn yn ddefnyddiol ac yn ddigonol:

> ‘Rwy’n meddwl ei bod hi wedi dweud bod y cynllun peilot yn mynd i ddod i ben. Yna, fe wnaeth hi roi gwybod i mi beth fyddai’n digwydd wedi hynny, a sut i wneud cais am Gredyd Cynhwysol ac ati. Does gen i ddim syniad i fod yn onest, ond buodd hi’n fy helpu gyda hynny i gyd. ’ (PI70 – diwedd y cynllun peilot).

> ‘ Rwy’n credu ei fod yn gymysgedd rhwng fy nghynghorydd personol a’m [gofalwr] ‘Pan fydda i’n barod’, oherwydd byddai’r ddau ar wahân ar adegau fel, ‘O, bydd angen i ti drefnu Credyd Cynhwysol nawr’, a phe bawn i angen help llaw, byddai’n rhoi ychydig o help i mi yma ac acw yn unig.’ (PI39 – diwedd y cynllun peilot).

### 3.8.2 Cyngor ar Bopeth

Cynlluniwyd elfen cyngor ariannol arbenigol y peilot hwn, wedi’i ddarparu yn bennaf trwy Gyngor ar Bopeth, i gael ei ‘arwain gan y galw’ gan gyfranogwyr, yn hytrach na gosod unrhyw rwymedigaethau ar swm neu natur y cyngor a fyddai’n cael ei geisio. Adlewyrchwyd canfyddiadau’r cyfranogwyr yn y rhyngweithio cyfyngedig â Chyngor ar Bopeth o’n hadroddiad blaenorol yn y rownd hon o ddadansoddi. Heblaw am gyfnodau pwysig ar ddechrau a diwedd y cynllun peilot, dim ond ychydig o gyfranogwyr mewn cyfweliadau a geisiodd neu a ymatebodd i’r cymorth a gynigiwyd gan Gyngor ar Bopeth. Nid oedd mwyafrif y cyfranogwyr yn cofio Cyngor ar Bopeth yn cysylltu â nhw o gwbl, tra bod rhai wedi cael cyswllt, ond nid oeddent yn teimlo bod angen y cymorth. Pan ofynnwyd iddynt a oeddent erioed wedi siarad â Chyngor ar Bopeth, dywedodd un cyfranogwr ei fod wedi ceisio eu ffonio, ond canfu giwiau hir o ryw awr, a oedd yn gwneud i rywun golli’r awydd (PI56 – diwedd y cynllun peilot).

Nid oedd y rhai a siaradodd â Chyngor ar Bopeth am gymorth ynghylch cyllidebu bob amser yn gweld hyn yn ddefnyddiol, a thynnwyd sylw at yr anawsterau yn y bwlch rhwng cael cyngor ar gynilo a gallu cynilo mewn gwirionedd, ac awgrymu nad oedd y cyngor wedi’i deilwra nac yn ddigon soffistigedig:

> ‘Ond, roedd y ddau yn parhau i ddweud yr un pethau wrthyf, felly doeddwn i ddim yn poeni rhyw lawer ... rwyt ti wedi dweud hyn wrthyf, rwyt ti wedi gofyn hyn i mi, dyma oedd fy ateb; dyma oedd fy ateb bob tro. Felly, doeddwn i ddim yn gweld hyn yn ddefnyddiol gan fy mod yn cael yr un peth drosodd a throsodd. Yn y bôn, gellid rhoi’r cyngor sylfaenol, fel sut i gynilo’ (PI69 – diwedd y cynllun peilot).

Eithriadau i’r norm hwn oedd y rhai mewn awdurdodau lleol a oedd â pherthnasoedd wedi’u hymgorffori neu’n hir sefydlog â Chyngor ar Bopeth, neu fathau eraill o gyngor, o ran arian neu fudd-daliadau. Tynnwyd sylw gan gyfranogwyr o’r awdurdodau lleol hyn at lawer mwy o ryngweithio ac ymgyfarwyddo â Chyngor ar Bopeth, ac adroddwyd eu bod wedi cael sawl sgwrs ynghylch cyngor ariannol:

> ‘Gwnaeth [gweithiwr Cyngor ar Bopeth] fy helpu gyda fy nyledion ac ati hefyd. Byddai’n llythrennol yn fy helpu i geisio gwneud cynllun, fel faint y cefais i, faint oedd popeth, a gweithio allan ar y diwedd faint a oedd ar ôl. Yna byddai’n mynd at bobl eraill ac yn ceisio cael rhywfaint o help i fi gyda fy miliau ac ati.’ (PI55 – diwedd y cynllun peilot).

> ‘Do, fe wnaeth hi fy helpu cryn dipyn, oherwydd fe wnes i CVs gyda hi, ac ati. Byddai’n trefnu amser i gael galwad ffôn neu apwyntiad, ac yna byddwn yn cael galwad cyflym.’ (PI72 – diwedd y cynllun peilot).

Yn fwy cyffredinol, mae’n ymddangos bod y rhan fwyaf o’r cyngor wedi canolbwyntio mwy ar lywio’r her dechnegol o wneud cais am ad-daliadau treth a chymorth ar hawlio Budd-dal Tai, yn hytrach na chanllawiau ar gyllidebu neu reoli ariannol. Roedd y cymorth hwn wrth lywio biwrocratiaeth yn ddefnyddiol i’r mwyafrif o’r cyfranogwyr, ond mae’n ymddangos yn annhebygol o fod wedi cyfrannu at gynnydd mewn llythrennedd ariannol ymhlith y garfan:

> ‘Cefais fy nghynghori gan fy nghynghorydd personol i gwrdd ag ef, felly fe wnes i hynny unwaith, ac rwy’n cofio bod gennyf gwestiynau am gyllidebu, ac fe wnaethon nhw ddweud wrthyf, ‘O, dydyn ni ddim yn cynnig help ar hynny.’ Ac felly, dywedais i, ‘Iawn. Grêt. Cŵl.’ Wnes i ddim cysylltu ag e wedyn ar ôl hynny. Do, dywedodd e wrthyf nad oedd hynny’n rhan o’i waith e, ac y dylwn fynd ato pe bai gen i broblemau fel talu biliau’ (PI6 – hanner ffordd drwy’r cynllun peilot).

Roedd un cyfranogwr yn ganmoliaethus iawn am weithiwr Cyngor ar Bopeth yn ei gynorthwyo trwy rwystredigaethau gyda CThEM a’r broses ad-dalu treth:

> ‘Mae’n anhygoel, mae’n help mawr. Fe wnaeth fy helpu i gael ad-daliad treth, a gymerodd bron blwyddyn gyfan i’w drefnu. Bu’n drafferth mawr ei gael, oherwydd dwi ddim yn meddwl bod CThEM yn gwybod gormod amdano, a sut i... Bob tro y gwnes i gais am yr ad-daliad treth, rwy’n credu eu bod nhw’n meddwl mai PIP oedd dan sylw yn hytrach na BIP. Yn syml iawn, nid PIP oedd e. BIP oedd e. Ysgrifennais Peilot Incwm Sylfaenol, BIP, ac eto doedden nhw dal ddim ... Wn i ddim, doedd e’n ddim byd on un cur pen mawr iddynt’ (PI68 – diwedd y cynllun peilot).

Ar wahân i’r materion hyn, mae’n werth nodi hefyd bod nifer o’r cyfranogwyr wedi dweud nad oeddent o reidrwydd eisiau ymgysylltu llawer ag unrhyw fath o gymorth. Roedden nhw’n mynegi awydd am annibyniaeth, ac yn gwerthfawrogi hunangynhaliaeth:

> ‘Byddwn i’n dweud, fel arfer, dydw i ddim yn mynd at bobl am gymorth, oherwydd rwy’n hoffi cadw at fy hun, ond os yw’n bethau cyffredin, os nad yw’n bersonol-bersonol, gallaf fynd at fy mos neu ffrind, fel un o fy ffrindiau, ac

ati. Ond os yw'n bersonol iawn, byddaf yn ei gadw i mi fy hun.' (PI68 – diwedd y cynllun peilot).

## 3.9 Llywio diwedd y cynllun peilot

### 3.9.1 Cyfathrebu, emosiynau a pharatoi

Mae diwedd y cynllun peilot incwm sylfaenol, a sut y byddai cyfranogwyr yn ymdopi â bywyd hebddo wedi bod yn un o'r prif bryderon yn y cynllun peilot hwn (Holland ac eraill, 2024) ac mewn treialu trosglwyddo arian parod yn ehangach (Howard ac eraill, 2024). Ar ddechrau'r cynllun peilot hwn, bu'n rhaid i'r derbynyddion gydnabod bod hwn yn beilot cyfyngedig (am 24 mis). Yn y cyfweliadau hanner ffordd, soniodd y bobl ifanc eu bod yn ymwybodol o ddiwedd y cynllun peilot, 'mae'n drist y bydd yn dod i ben ac rwy'n poeni am hyn' (PI42 – hanner ffordd drwy'r cynllun peilot). Roedd yna deimlad ymhlith rhai bod angen iddynt baratoi ar gyfer y diwedd:

> 'Mae ychydig yn frawychus ei fod yn dod i ben. Ond rwy'n meddwl, cyn iddo ddod i ben, rydw i eisiau cynllunio ar gyfer y cyfnod ar ôl iddo ddod i ben, os yw hynny'n gwneud synnwyr. Felly, cyn iddo orffen, rydw i eisiau cynllunio ar gyfer y cyfnod ar ôl iddo orffen.' (PI4 – hanner ffordd drwy'r cynllun peilot).

Chwe mis cyn diwedd y taliadau ar gyfer pob person ifanc, cawsant negeseuon testun neu negeseuon e-bost gan Lywodraeth Cymru i'w hatgoffa am ddiwedd y taliadau. Ymddengys bod hyn wedi bod yn eithaf llwyddiannus, gan fod pob un o'r cyfranogwyr wedi sôn eu bod yn ymwybodol o'r cyfathrebu hwn mewn cyfweliadau ar ddiwedd y cynllun peilot, ac o'r taliadau a fyddai'n dod i ben ar fis eu pen-blwydd yn 20 oed. Cafodd llawer hefyd eu hatgoffa'n rheolaidd gan gynghorwyr personol a phobl eraill o'u cwmpas. Nododd un sut yr oedd yn gwerthfawrogi hyn, gan ddweud:

> 'Rwy'n hoff iawn o sut, y gwnaethon nhw ein paratoi ni ei fod yn mynd i ddod i ben. Wnaethon nhw ddim jyst ei ddiddymu a disgwyl i ni nofio yn y môr mawr agored.' (PI4 – diwedd y cynllun peilot).

Er gwaethaf yr ymwybyddiaeth hyn, roedd lefelau parodrwydd emosiynol ac ariannol yn amrywio ymhlith y cyfranogwyr. Disgrifiodd y mwyafrif eu bod yn ymwybodol ond heb fod yn gwbl barod ar gyfer diwedd y taliadau – 'Nid oedd yn sioc ei fod yn dod i ben, ond roedd y gostyngiad yn y swm o arian y byddwn i'n ei gael rhwng y cynllun peilot a Chredyd Cynhwysol yn sioc' (PI45 – diwedd y cynllun peilot). Gwnaeth cyfranogwr arall sylw a oedd yn berthnasol i ddadleuon ynghylch a ddylai cynlluniau peilot ddod i ben yn sydyn neu leihau, gan nodi'r 'naid enfawr' rhwng y taliad terfynol a'r mis nesaf – 'Rydw i wedi mynd o £1,200 i £300', a dweud 'Nid oedd unrhyw fath o ddiddyfnu o'r cyfnod' (PI53 – diwedd y cynllun peilot). Nid yw'n syndod, bod y rhai a oedd wedi, neu a oedd yn gallu cael swyddi yn gwneud yn well:

> 'Roeddwn i'n eithaf clyfar o fod wedi cael swydd yn syth a gwneud yn siŵr fy mod i'n gofalu am yr holl dreuliau. Rwy'n credu bod yna ychydig bryder, o

> wybod na fyddaf yn ei gael. Nid swm bach o arian ydyw, wrth gwrs. Roedd yna ychydig bryder, byddwn i'n ei ddweud, ond rwy'n credu ar ôl iddo ddigwydd, ar ôl iddo ddod i ben, ac roeddwn i'n gallu mynd yn ôl ar yr ysgol swyddi ac ati, roedd pethau'n iawn.' (PI50 – diwedd y cynllun peilot).

Er bod rhai yn 'ddiolchgar' am y ddwy flynedd o daliadau (PI68 – diwedd y cynllun peilot) ac yn meddwl peidio â bod yn 'rhy farus' (PI68 – diwedd y cynllun peilot), pwysleisiodd eraill yr hyn yr oeddent yn teimlo oedd natur byrhoedlog y cynllun peilot. Dywedodd un cyfranogwr, 'Mae'n ofnadwy, mae'n ddychrynllyd  nad yw'r arian yn barhaol, sy'n ofnadwy i ni wybod nad yw hynny'n barhaol, ac mai dim ond rhywbeth dwy flynedd yw e' (PI57 – diwedd y cynllun peilot). Aeth ymlaen i esbonio bod y £552.91 y mis yr oedd ef a'i ferch bellach yn ei gael yn annigonol ac wedi arwain at rai anawsterau iechyd meddwl. Roedd eraill yn cefnogi'r syniad hwn:

> 'Mae'n eich helpu chi i fyw ac yna maen nhw'n ei dynnu'n ôl, ac yna rydych chi wedi arfer byw'r ffordd o fyw moethus hwn gyda'r holl arian hwnnw, ac yna rydych chi'n disgyn i lawr. Roeddwn i'n gyniliwr a chyllidebwr da cyn y cynllun peilot, ac ar ôl hynny, na.' (PI51 – diwedd y cynllun peilot).

> 'Byddai pobl yn meddwl na fyddai angen iddyn nhw boeni am arian pe bai ganddyn nhw'r cynllun peilot, ond yna, unwaith y byddai'n dod i ben, byddai'r cyfan yn chwalu.   Mae'n debyg i gymryd cysur rhywun ymaith, fel blanced neu rywbeth.' (PI31 – diwedd y cynllun peilot).

## 3.10 Awgrymiadau i'r dyfodol

Roedd gan gyfranogwyr  amrywiaeth o awgrymiadau ar gyfer unrhyw beilot incwm sylfaenol yn y dyfodol, ac ar gyfer mathau amgen o gymorth ariannol i bobl yn gadael gofal. Roedd hyn yn cynnwys addasu prif nodweddion dylunio, yn ogystal ag ychwanegu canllawiau a gofynion ychwanegol i wella'r effaith gadarnhaol ar dderbynyddion. Roedd un set o awgrymiadau ar gyfer cynllun incwm sylfaenol yn y dyfodol yn ymwneud â newid rhai o'r penderfyniadau dylunio pwysig, megis hyd y cynllun peilot, pryd mae'r arian yn cael ei dalu neu sut y mae'r swm yn cael ei ddosbarthu. Er enghraifft, awgrymodd rhai er bod pobl sy'n gadael gofal yn garfan addas i gael yr arian hwn, ni ddylai'r pwynt cymhwysedd fod yn 18 oed. Roedd un cyfranogwr yn teimlo, yn hytrach na dechrau 'o'r funud y byddwch chi'n gadael gofal', dylai pobl ifanc cymwys 'fod yn gymwys ar ei gyfer pan fyddent yn gadael gofal' ond y dylai'r taliadau ddechrau yn ddiweddarach (PI51 – diwedd y cynllun peilot). Dywedodd person ifanc arall, a oedd yn cytuno â'r awgrym hwn ac yn teimlo y dylai ddechrau yn 19 oed, y byddai'n 'werth cael ychydig brofiad gydag arian cyn dechrau' (PI63 – diwedd y cynllun peilot).

Awgrymodd eraill y dylai'r cyfnod incwm sylfaenol fod yn hirach, er mwyn caniatáu i dderbynyddion setlo i gael yr arian a'r pontio cythryblus i fod yn oedolyn a chael mwy o amser i baratoi ar gyfer ymadael. Roedd un yn teimlo y byddai peilot tair blynedd yn well, rhwng 18 a 21 oed gan nad oedd y cyfnod dwy flynedd 'yn rhoi digon o

amser i chi sefyll ar eich traed, am ei bod yn cymryd ychydig amser i wneud pethau a dod yn gyfforddus', ac yn 21 oed y bydd 'cyfnod oedolyn yn dechrau mewn gwirionedd' (PI69 – diwedd y cynllun peilot).

Roedd awgrymiadau ar gyfer mathau amgen o gymorth arian parod i bobl sy'n gadael gofal (nid incwm sylfaenol, sydd yn ôl ei natur yn ddiamod), yn canolbwyntio ar drosglwyddiadau arian parod gydag amodau sy'n annog cynilo neu addysg. Roedd un cyfranogwr yn teimlo y dylid rhoi tua hanner yr arian 'mewn rhyw fath o ISA.' (PI63 – diwedd y cynllun peilot) ac awgrymodd un arall y gallai hyn fod yn debyg i'r ffordd y byddai taliadau landlordiaid yn cael eu gwneud yn uniongyrchol. Nodwyd y gallai'r llywodraeth 'ei gynyddu £20 eto ac yna ei gynilo ar gyfer derbynyddion. Os oeddent yn gallu ei dalu'n uniongyrchol i'r landlord, gallent ei dalu'n uniongyrchol i gynilion' (PI49 – diwedd y cynllun peilot). Yn yr un modd, gwelodd un arall werth mewn gwahanu'r trosglwyddiadau i gwmpasu gwahanol bethau:

> 'Gallai llywodraeth yn y dyfodol leihau prif swm y BIP ddigon i gwmpasu, dyweder, llety, bwyd a dillad. Ac yna, gwneud unrhyw ran ychwanegol o'r BIP ... gwneud hynny fel eich bod chi'n cael yr arian ychwanegol os ydych chi'n mynd i addysg neu rywbeth, ond rhywbeth y gall unrhyw un ei wneud. Felly, nid dweud bod yn rhaid i ni basio profion, ond rhywbeth lle, os ydych chi'n dewis mynd i addysg, byddwch chi'n cael yr arian ychwanegol. Felly, fel cymhelliant.' (PI20 – diwedd y cynllun peilot)

Er nad oedd cyfranogwyr o reidrwydd yn eirioli dros amodau llym, roedd rhai yn teimlo y gallai adeiladu arferion i'r mathau amgen hyn o gymorth ariannol ynghylch cynilo a chyfranogiad mewn gwaith a gwirfoddoli helpu i'w paratoi'n well ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft, mae'r awgrymiadau i 'roi rhywbeth yn ei le, mae'n rhaid i chi wneud rhywbeth bob wythnos i'w ddangos am yr arian hwnnw" (PI40 – diwedd y cynllun peilot):

> '… Dwi'n meddwl y dylai fod yn orfodol iddyn nhw wneud rhywfaint o chwilio am swydd fel y dywedais, nid 35 awr yr wythnos. Mae hynny'n chwerthinllyd ... gwneud y rhan cynilo'n orfodol ... hyd yn oed pe baen nhw'n rhoi £50 o'r neilltu yn hytrach na'n gorfodi ni i wneud hyn. Byddech chi'n dal wedyn yn cael tua £430 bob pythefnos, a byddai ganddyn nhw'r swm hwnnw o arian ar ôl y cynllun peilot i wneud beth bynnag.' (PI45 – diwedd y cynllun peilot).

O ran diwedd y cynllun peilot, awgrym poblogaidd oedd meinhau'r swm a ddarperir, lleihau'r taliadau 'bob yn dipyn' (PI55 – diwedd y cynllun peilot) er mwyn osgoi dibyn ar y diwedd. Awgrymodd un cyfranogwr y dylid ei leihau yn ystod y misoedd diwethaf 'i hanner, i chwarter, neu beth bynnag' er mwyn symud yn nes at y swm a ddarperir gan Gredyd Cynhwysol, fel y gall derbynyddion ddod i arfer â'r swm is a newid eu ffordd o fyw yn raddol, yn hytrach na cael eu gorfodi i wneud yr holl newidadau ar yr un pryd' (PI47– diwedd y cynllun peilot). Mae hyn yn cyd-fynd â'r syniad o gymorth

ariannol yn ‘rhwyd ddiogelwch’, a oedd yn destun trafodaeth yn ehangach. Ystyriwyd meinhau taliadau gan Lywodraeth Cymru ond nid oedd yn ymarferol ar gyfer y cynllun peilot hwn o ganlyniad i’r ffordd yr oedd y cynllun yn rhyngweithio â’r systemau treth a budd-daliadau. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod angen mwy o amser ar y systemau a gynlluniwyd i gynnal y cynllun peilot ar y dechrau i’w lansio, ac roedd angen rhyngweithio â systemau ategol fel tai a threth ymhellach, yn ogystal â chael ‘mwy o addysg a chyflogaeth gan nad yw rhwyd ddiogelwch yn gweithio os nad oes ffordd dda hefyd i bobl wneud rhywbeth â’u bywydau’ (PI20 – diwedd y cynllun peilot).

# Canfyddiadau 2: Canfyddiadau a phrofiadau gweithwyr proffesiynol

Amlinellodd yr adroddiad blynyddol cyntaf (Holland ac eraill, 2024) safbwyntiau ac arsylwadau proffesiynol yng nghamau cynnar y peilot. Mae'r adran hon yn adrodd ar gyfweliadau dilynol a grwpiau ffocws gyda gweithwyr proffesiynol tua diwedd y cynllun peilot. Ailymwelwyd â phynciau pwysig mewn perthynas ag effaith canfyddedig y cynllun peilot ar bobl ifanc, yn ogystal â myfyrdodau proffesiynol ar ddylunio a gweithredu'r cynllun.

Yn gyson â chanfyddiadau cynharach, safbwyntiau a chanfyddiadau gweithwyr proffesiynol yn gymysg. Mae'r adran isod yn rhoi trosolwg o'r safbwyntiau cyferbyniol trwy gyflwyno cwmwl geiriau sy'n crynhoi safbwyntiau o'r cynllun. Dilynir hyn gan arsylwadau gweithwyr proffesiynol o effaith y cynllun peilot ar dderbynyddion a'u myfyrdodau ar ddyluniad y cynllun.

## 4.1 Tri gair i grynhoi canfyddiadau a phrofiadau

Gan ailadrodd yr ymarfer yn y cam cynharach, cynhaliwyd ymarfer cynhesu a gofynnwyd i gyfranogwyr awgrymu 'tri gair' i ddisgrifio'r peilot incwm sylfaenol. Roedd hyn yn rhoi cipolwg ar y mewnwelediad i'r meddyliau am y cynllun ac yn cynnig man cychwyn defnyddiol ar gyfer y trafodaethau manylach. Cynhyrchwyd y cwmwl geiriau canlynol o ymatebion cyfranogwyr, gyda maint y testun yn cyfateb i amlder y gair sy'n cael ei ddewis gan wahanol weithiwr proffesiynol:

**Ffigur 1: Cwmwl geiriau yn seiliedig ar gyflwyniadau crynodeb tri gair gweithwyr proffesiynol**




Disgrifiad o'r ffigur: Cwmwl geiriau sy'n cyflwyno'r geiriau a ddefnyddiwyd gan weithwyr proffesiynol i ddisgrifio'r cynllun peilot tua diwedd y cynllun. Mae maint y gair yn adlewyrchu'r amlder y cafodd ei ddefnyddio, gyda geiriau mwy yn cael eu defnyddio'n amlach. Y geiriau 'cyfle' a 'heriol' a ddefnyddiwyd amlaf.

Ffynhonnell: Dadansoddiad gwerthuso, Prifysgol Caerdydd, 2025.

Yn gyson â'r cwmwl geiriau a gynhyrchwyd yn ystod y cam cyntaf o gasglu data (Roberts ac eraill, 2025; Atodiad C), cafwyd amrywiaeth tebyg o ddisgrifwyr sy'n gysylltiedig yn fras â dylunio, gweithredu a chyflwyno peilot, ac arsylwadau cyfranogwyr o'r derbynyddion yn ystod yr ymarfer dilynol. Er bod y ddau gwmwl geiriau yn datgelu safbwyntiau cymysg a chyferbyniol, awgrymodd ymatebion cynnar rywfaint o obaith ac optimistiaeth, tra bod yr ymarfer dilynol yn cynhyrchu mwy o

ddisgrifiadau gwerthuso. Er enghraifft, cyfeiriwyd at y peilot fel ‘arloesol’ ac ‘ysbrydoledig’, yn ogystal â ’delfrydol’ a ’heb ei gynllunio’n briodol’. Cyfeiriwyd at gyflwyno a gweithredu parhaus yn ‘gromlin ddysgu’ gan rai cyfranogwyr a arweiniodd at ‘weithio mewn partneriaeth’, ond i eraill roedd yn ‘gymhleth’ ac yn ‘ddryslyd’. Yn yr un modd, crynhowyd effaith y peilot fel ‘llwyddiannus’ ac ‘aflwyddiannus’, ac yn ‘fuddiol’ a gyda ‘chanlyniadau siomedig negyddol’.

Yn ogystal â safbwyntiau cyferbyniol gan wahanol gyfranogwyr, roedd dewis geiriau unigolion weithiau’n cynnwys cymysgedd o deimladau—‘dau begwn y raddfa’ fel y dywedodd un (P46, Cyngor ar Bopeth –diwedd y cynllun peilot). Er enghraifft, wrth esbonio’r defnydd o’r geiriau ‘heriol’ a ‘cyfle’ dywedodd un cyfranogwr: ‘Bu’n heriol (i fynd drwy’r prosiect) gyda rhai pobl, ac i eraill bu’n gyfle’ (P43, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot).

Yn ogystal â dangos ystod ymatebion cyfranogwyr, mae cymylau geiriau hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer tynnu sylw at y geiriau a ddefnyddir amlaf (maint y gair yn y ddelwedd sy’n cynrychioli amlder) (McNaught a Lam, 2010). Roedd y gair a gynigiwyd amlaf yr un peth yn y ddau ymarfer: ‘cyfle’.  Roedd safbwyntiau cryno yn cynnwys termau ffafriol a beirniadol, yn ogystal â geiriau mwy niwtral a oedd yn gofyn am eglurhad pellach. Mae’r amlygrwydd parhaus o ‘cyfle’ yn y camau cychwynnol a’r camau dilynol yn dangos y safbwyntiau cymysg ac annisgwyl a fynegwyd gan y grŵp hwn. Mae agwedd amserol y gair yn cael ei bwysleisio gan ddiffiniad Geiriadur Caergrawnt—‘achlysur neu sefyllfa sy’n ei gwneud hi’n bosibl gwneud rhywbeth rydych chi eisiau ei wneud, neu y mae’n rhaid i chi ei wneud, neu’r posibilrwydd o wneud rhywbeth’, ac mae hefyd yn rhywbeth a allai fod ar gael yn ystod ‘ffenestr’ yn unig, ac y gall pobl ‘atafaelu’ neu ‘golli’. Defnyddiodd ymarferwyr y gair mewn amrywiaeth o ffyrdd, a oedd yn cynnwys y cyfleoedd a roddwyd gan y peilot, yn ogystal â’r graddau y defnyddiwyd y rhain gan bobl ifanc.

Er eu bod yn werthfawr, gall cymylau geiriau guddio rhywfaint o’r naws sy’n bresennol mewn cyfrifon ansoddol manwl, fel yr un gair yn cael ei ddefnyddio mewn gwahanol gyd-destunau. Bydd yr adrannau canlynol yn darparu trafodaeth bellach o’r safbwyntiau cymysg a gwrthdaro a ddaeth i’r amlwg o’r trafodaethau manylach.

## 4.2 Canfyddiadau o effaith

Gwnaeth gweithwyr proffesiynol a gymerodd ran mewn cyfweliadau a grwpiau ffocws sawl sylw am effaith y cynllun peilot, yn seiliedig ar eu profiadau o weithio gyda nifer fach o dderbynyddion. Nodwyd dwy thema yn y dadansoddiad: y cyfle a oedd yn cael ei ddarparu gan yr incwm sylfaenol a’r ymreolaeth a’r cyfle i reoli’r incwm sylfaenol a roddid i bobl ifanc, ac a oedd gweithwyr proffesiynol yn meddwl bod hyn yn fuddiol.

Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, ‘cyfle’ oedd y gair a ddefnyddiwyd amlaf gan gyfranogwyr pan ofynnwyd iddynt am y crynodebau tri gair. Eto, roedd yn amlwg bod gan ‘cyfle’ ystyron gwahanol: y cyfle a oedd yn cael ei gynnig gan yr incwm

sylfaenol, y cyfleoedd yr oedd pobl ifanc yn eu cyrchu yn ystod y cynllun peilot, yn ogystal ag awgrymiadau o gyfleoedd a gollwyd ac a wastraffwyd. Fel y nodwyd gan un pennaeth gwasanaeth:

> ‘I’n holl bobl ifanc, rhoddwyd cyfleoedd iddynt, oherwydd roedd gan bawb, i raddau, ddewis sut roeddent eisiau defnyddio’r arian hwnnw. Ond i rai o’n pobl ifanc, maen nhw wedi defnyddio’r cyfleoedd hynny yn fwy nag eraill.’ (P62, rheolwr tîm – diwedd y cynllun peilot)

Bu gweithwyr proffesiynol yn arsylwi ar dderbynyddion yn defnyddio’r arian ar gyfer anghenion hanfodol, fel tai a bwyd, gwariant yn ôl disgresiwn ar anghenion fel cymdeithasu a gofal personol, a chynilion, gyda chanlyniadau amrywiol. Roedd rhai yn teimlo ei fod ‘yn codi i lefel lle maen nhw eisiau pethau gwell yn eu bywydau’ drwy alluogi profiadau ‘na fyddent byth wedi gallu eu cael heb y BIP’ (P25, rheolwr tîm – diwedd y cynllun peilot). Gwelodd eraill ganlyniadau cymysg: derbynyddion naill ai ‘yn cael rhywbeth cadarnhaol ohono, neu ddim byd o gwbl i’w ddangos amdano’ (P52, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot). Nodwyd sbectrwm gan un pennaeth gwasanaeth: ar un pen, roedd pobl ifanc yn cael eu hystyried yn ffyniannus ‘yn y brifysgol, mewn swyddi gwych’, ac ar ben arall y sbectrwm, mae ‘bregusrwydd’ pobl ifanc wedi’i waethygu ymhellach gan yr incwm ychwanegol ac yn parhau i gael trafferth (P61, pennaeth gwasanaeth – diwedd y cynllun peilot). Crynhowyd yr amrywioldeb hwn gan gynghorydd personol: ‘Mae gen i ychydig o straeon llwyddiant, ond wedyn mae rhai wedi bod yn wirioneddol dywyll hefyd’ (P68, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot).

Mae natur amrywiol pobl ifanc sy’n gadael gofal yn golygu y bydd trawsnewidiadau amrywiol bob amser yn cael eu gweld, ac yn cynnwys pobl ifanc sy’n ‘symud ymlaen’, ‘goroesi’ a ‘chael trafferth’, a hynny gyda’r incwm sylfaenol neu heb y ddarpariaeth hynny. (Stein, 2012). Serch hynny, mae’r sylwadau uchod yn tynnu sylw at ddiddordeb cyfranogwyr mewn effeithiau tymor byr, o fewn amserlen y peilot, yn ogystal â buddion neu niwed sylweddol tymor hwy. Mae’r adrannau canlynol yn archwilio arsylwadau cyfranogwyr ar sut y dylanwadodd mwy o gyfleoedd, ymreolaeth a rheolaeth ar feysydd pwysig o gyfnodau pontio pobl ifanc i fod yn oedolion, sef ymgysylltu â chymorth ffurfiol, mynediad at dai, iechyd a llesiant, ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

### 4.2.1 Ymgysylltu â chymorth

Mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu y gallai’r cynllun peilot fod wedi newid perthynas derbynyddion â gwasanaethau cymorth ffurfiol. Er bod ymarferwyr yn cytuno yn fras ei fod yn lleihau dibyniaeth wrth ymadael â’r gwasanaethau gofal, roedd yr effaith ar batrymau ymgysylltu yn fwy cymhleth ac amrywiol.

Cyfeiriodd y cyfranogwyr dro ar ôl tro at ymdrechion i gynnal cysylltiad â phobl ifanc neu sicrhau eu bod ar gael pe bai angen. Roedd ymdrechion o’r fath yn yr un modd yn ymestyn i annog cael mynediad at wybodaeth ariannol a chyngor. Er gwaethaf

hyn, roedd adroddiadau cymysg ynglŷn ag ymgysylltu pobl ifanc â chymorth proffesiynol. I rai, roedd ymgysylltu gan bobl ifanc yn ddigyfnewid i raddau helaeth, ac adroddwyd bod yr incwm ychwanegol wedi galluogi gwahanol fathau o sgyrsiau:

> ‘Mae wedi caniatáu rhyddid ac amser i gael sgyrsiau am y pethau eraill, a dyma’r pethau eraill y byddai plant eraill fel oedolion ifanc yn cael sgyrsiau amdanynt gyda’u ffrindiau, gyda’u rhieni, gyda’u gofalwyr. Nid oes gennym amser ar gyfer llawer o hynny, oherwydd mae’r pwyslais ar yr ymarferol. Mae’r holl bethau hynny yn cael blaenoriaeth dros sut yr ydych chi’n teimlo. Rydyn ni wedi gallu cael sgyrsiau gwahanol iawn gyda nhw nag y byddem wedi ei wneud pe na baent yn rhan o’r BIP.’ (P21, rheolwr tîm – diwedd y cynllun peilot).

Yn yr un modd, mewn rhai achosion, ystyriwyd bod ymgysylltu â chymorth ariannol (fel arfer gan Gyngor ar Bopeth) wedi gweithio’n dda. Mae hyn yn wahanol i’r disgrifiadau a ddarperir gan bobl ifanc yn yr adran olaf. Roedd hyn yn cynnwys meysydd o fewn awdurdodau lleol lle’r oedd perthnasoedd yn bodoli eisoes, yn ogystal â meysydd lle’r oedd partneriaethau newydd wedi’u sefydlu:

> ‘Mae Cyngor ar Bopeth wedi bod yn rhagorol, mewn gwirionedd. Nid ydym wedi cael unrhyw gwynion o gwbl. Roedd yr unigolyn a nodwyd o fewn Cyngor ar Bopeth i’n cefnogi gyda’r BIP yn wych, yn adnabod y system, a bob amser yn gyflym i ymateb i’n hymholiadau.’ (P66, rheolwr tîm – diwedd y cynllun peilot).

Mewn achosion eraill, dywedwyd fod pobl ifanc yn amharod i ymgysylltu â chyngor ariannol. Er enghraifft, dywedodd un pennaeth gwasanaeth fod ymgysylltu ‘ychydig yn gyfnewidiol’ (P62, rheolwr tîm – diwedd y cynllun peilot), tra bod un cynghorydd personol wedi dweud:

> ‘Pan oeddem yn ceisio dweud, ‘Edrychwch, gadewch i ni wneud apwyntiad arall gyda Chyngor ar Bopeth,’ neu gael rhywfaint o gymorth proffesiynol ynghylch gwario eu harian, ac ati, wel, na, doedd ganddyn nhw ddim cymaint o ddiddordeb, mewn gwirionedd.’ (P69, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot).

Yn yr un modd, adroddodd rhai ymarferwyr lai o ymgysylltu â gadael cymorth gofal. Fel y nodwyd yn sylwadau’r pennaeth gwasanaeth yn yr adran flaenorol, disgrifiwyd rhai pobl ifanc fel ‘ddim eisiau llawer i’w wneud â ni oherwydd bod eu bywydau’n mynd yn dda’ (P61, pennaeth gwasanaeth – diwedd y cynllun peilot). Mewn amgylchiadau o’r fath, roedd cyfranogwyr yn cefnogi penderfyniadau pobl ifanc ac yn cydnabod y manteision a oedd yn gysylltiedig â mwy o ymreolaeth a rheolaeth dros eu bywydau. Yn ogystal, weithiau roedd gweithwyr proffesiynol hefyd yn deall penderfyniadau pobl ifanc, hyd yn oed os oeddent yn teimlo y byddai ymgysylltu parhaus yn ddefnyddiol, gan eu bod yn cydnabod eu hanes cymhleth o ymwneud gorfodol â chymorth statudol a’u dymuniad i fod yn rhydd ohono.

Serch hynny, mynegodd cyfranogwyr bryderon dro ar ôl tro am ddiffyg ymwneud â rhai pobl ifanc oherwydd y bregusrwydd yr oeddynt yn ei deimlo. Gan gyfeirio at un person ifanc, dywedodd cynghorydd personol: 'Yr unig fath o gymhelliant oedd gennym iddi cyn iddi fod yn 18 oed oedd cymorth ariannol, ac nid ydym wedi ei gweld na chlywed ganddi ers hynny' (P12, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot). Yn yr un modd, dywedodd cynghorydd personol arall:

> 'Mae rhai pobl ifanc wedi cael yr arian, ac yna, nid ydym wedi eu gweld. Maen nhw wedi mynd. Mae yna rai nad ydym yn gwybod beth sydd wedi digwydd iddynt, er inni estyn allan yn rheolaidd. Mae yna rai pobl ifanc sydd â phroblemau difrifol o ran camddefnyddio sylweddau, sydd wedi mynd ar goll am fisoedd a misoedd ar y tro. Gallem hyd yn oed ddweud wrthyn nhw, er na ddylem wneud hynny, 'Os nad wyf yn clywed gennych chi yn ystod y pythefnos nesaf, rydw i'n mynd i orfod atal eich taliad BIP, gan nad wyf yn gwybod ble rydych chi, neu beth rydych chi'n ei wneud.' I fod yn deg, mae hynny wedi bod yn dipyn o symbyliad i rai ohonyn nhw ac maen nhw wedi dweud, 'Rwy'n fyw, gadewch lonydd i mi.' (P3, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot)

Mae sylwadau'r cynghorydd personol unwaith eto yn tynnu sylw at yr ymdeimlad o gyfrifoldeb y teimlodd cyfranogwyr dros y bobl ifanc y maent yn eu cynorthwyo. Er nad oedd gan weithwyr proffesiynol awdurdodau lleol yr awdurdod i atal y taliadau incwm sylfaenol, ac roedd yr incwm yn ddiamod, ymddengys bod y cynghorydd personol yn teimlo bod defnyddio hyn fel sancsiwn yn cael ei gyfiawnhau gan y pryder a oedd ganddynt am y person ifanc hwn.

Fel y mae hyn yn dangos, roedd llawer o weithwyr proffesiynol yn gweld bod angen cymorth ar bobl ifanc, hyd yn oed os nad oedd y bobl ifanc o reidrwydd yn dymuno ei gael neu ei angen. Heb yr incwm sylfaenol, teimlwyd bod pobl ifanc yn fwy dibynnol ar ymadael â'r gwasanaethau gofal i gefnogi eu hanghenion sylfaenol, a gallai hyn olygu eu bod yn fwy tebygol o fod mewn cysylltiad â gweithwyr proffesiynol. Ar y llaw arall, gellid dweud bod cael yr incwm sylfaenol yn gofyn am ymgysylltu â'r awdurdod lleol ar adegau penodol, felly gallai'r ymgysylltiad cyffredinol fod wedi bod yn fwy na heb yr incwm. I'r rhai a oedd yn rhan o'r cynllun peilot, efallai bod yr ymreolaeth a'r annibyniaeth a roddwyd gan yr incwm wedi eu helpu i symud ymlaen i fywyd oedolion, ond mae hefyd wedi newid y mecanweithiau presennol y gallai cynghorwyr personol dan sylw gynnal cyswllt a goruchwyliaeth.

### 4.2.2 Tai

Mae'r prinder cartrefi addas a fforddiadwy yng Nghymru wedi'i ddisgrifio fel 'argyfwng tai' (Llywodraeth Cymru, 2025b). Fel y gellid disgwyl, mae'n ymddangos bod y cynllun peilot wedi cynyddu dewisiadau pobl ifanc ynghylch tai. Roedd pobl ifanc ar y cynllun peilot yn byw mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys gyda theulu a phartneriaid, mewn gofal maeth estynedig (a elwir yn ddarpariaeth 'Pan

fydda i'n barod'), mathau o lety â chymorth, ac yn annibynnol. Agorwyd ystod o gyfleoedd gan y prosiect. Mewn rhai achosion dywedir bod derbynyddion wedi defnyddio'r arian tuag at brynu tai. Yn yr un modd, galluogodd y cynllun peilot fwy o fynediad at lety rhent preifat. Roedd prinder darpariaeth addas a fforddiadwy yn bryder rheolaidd ar draws y cyfweliadau â gweithwyr proffesiynol, ac mae'r incwm sylfaenol yn amlwg yn lleddfu'r heriau (er nad oedd yn eu dileu, fel y nodwyd yn y dadansoddiad o gyfweliadau pobl ifanc). Wrth ddisgrifio un person ifanc yn ymadael â chartref gofal preswyl, dywedodd un cynghorydd personol:

> 'Roedd rhestr aros hir ar gyfer llety, a dywedodd, 'Bydd yn rhaid i mi fynd i fyw i lety dros dro', rhywle mae'n debyg na fyddai'n addas i berson ifanc sy'n gweithio, a heb fod yn anghwrtais, oherwydd rhai o'r bobl eraill a all fod yn rhai o'r gwesteion yn yr hosteli hyn ac ati. [Gyda'r incwm sylfaenol, meddyliodd] 'Rydw i eisiau trefnu fy hun a chael rhywbeth sy'n eiddo i mi na all neb ei gymryd i ffwrdd, ac rydw i jyst yn mynd i fynd ar rent preifat', tra nad oes unrhyw un o'm pobl ifanc [eraill] yn gallu fforddio hynny.' (P69, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot).

Er bod llety rhent preifat yn cael ei ystyried yn broblem gan rai cyfranogwyr (trafodir ymhellach isod), mae'r enghraifft uchod yn awgrymu bod y person ifanc yn gallu cael mynediad at dai mwy addas a diogel o leiaf yn ystod cyfnod y peilot. Yn gysylltiedig â hyn, nododd y gweithwyr proffesiynol hefyd allu pobl ifanc i wneud 'cartref' o ganlyniad i'r incwm sylfaenol:

> 'Mae gen i bedwar neu bump sydd â fflatiau braf. Maen nhw'n ymfalchïo yn y pethau hyn ac mae hynny wedi bod o ganlyniad i'r BIP.' (P45, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot)

> 'Mae gen i bobl sydd wedi symud i fflatiau ac maen nhw wedi gwneud yn dda iawn. Maen nhw wedi prynu dodrefn newydd a charpedi newydd ac wedi gwneud i'w lle edrych yn hyfryd. Maen nhw wedi rhoi cynnig arni, wedi ei ddefnyddio i fynd i'r coleg a thalu am y fflat. Dydyn nhw ddim wedi gorfod dewis rhwng y ddau.' (P45, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot).

Mae'r sylwadau hyn yn awgrymu bod yr incwm sylfaenol wedi rhoi mwy o ddewis o ran tai i'r bobl ifanc ond hefyd wedi rhoi mwy o gyfle iddynt ddewis dodrefn ac addurno eu cartref, gan greu ymdeimlad o falchder ac urddas. Yr hyn sy'n nodedig yn y dyfyniad uchod yw'r awgrym bod yr incwm sylfaenol yn caniatáu i bobl ifanc reoli costau byw'n annibynnol, heb orfod aberthu'r awydd i astudio.

Roedd gan hyn oblygiadau o ran sefydlogrwydd o ran tai, ac roedd yr incwm sylfaenol yn helpu i atal argyfyngau tai pan fyddai perthnasoedd yn chwalu. Er enghraifft, dywedodd cynghorydd personol (P3 – diwedd y cynllun peilot):

> 'Mae wedi achub un neu ddau, oherwydd maen nhw wedi mynd i denantiaeth ar y cyd, ac yna mae'r person arall hwnnw wedi ymadael, felly maen nhw

> wedi parhau i allu talu'r rhent ar eu pen eu hunain. Roedd taliadau BIP hefyd yn sicrhau tenantiaeth breifat person ifanc arall gyda mam, oherwydd ei bod yn talu £200 allan o'r BIP. Felly, oni bai am y £200 hwnnw, mae'n debyg y byddai hi a'i mam yn ddigartref nawr.'

Mewn enghraifft arall, nododd cynghorydd personol y gallai derbynyddion sicrhau llety amgen yn ystod gwrthdaro, ond rhybuddiodd y byddai sefyllfaoedd tebyg ar ôl y peilot yn cael 'effaith llawer mwy' gyda 'digartrefedd posibl neu leoliad brys' (P69, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot).

Er gwaethaf y pethau positif hyn, mynegwyd pryderon hefyd am y peilot yn dylanwadu ar ddewisiadau tai. Er enghraifft, er bod byw gyda theulu, ffrindiau a phartneriaid yn cael ei ystyried yn gadarnhaol i rai, roedd pryderon am natur ecsbloetiol rhai perthnasoedd neu gynaliadwyedd trefniadau yn bryder i eraill:

> 'Pobl ifanc lle na fu erioed gynllun iddynt ddychwelyd adref i'w teulu yn 18 oed. Roedd eu bywydau yn eithaf ar wahân, ac rydyn ni wedi cael pobl, yn anffodus, lle'r rydyn ni'n ofni eu bod nhw wedi cael eu hecsbloetio am eu harian oherwydd bod ganddyn nhw'r incwm yma.' (P67, rheolwr tîm – diwedd y cynllun peilot).
>
> 'Mae gen i fachgen arall, a symudodd i'w denantiaeth ei hun. Roedd yn cael ei gogio, yn y bôn. Roedd e mor fregus, ac roedd pobl yn syml yn meddiannu ei fflat. Byddai ganddo'r holl ffrindiau hyn. Dau ddiwrnod yn ddiweddarach, dyma'r holl arian wedi mynd ac yntau ar ei ben ei hun, heb arian, a dim bwyd yn ei gypyrddau. Rydyn ni wedi gorfod ei symud allan o'r ardal oherwydd ei fod mewn perygl.' (P49, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot).

Mae'n bwysig nodi nad oedd ofnau cyfranogwyr ynghylch perthnasoedd ecsbloetio bob amser wedi'u cadarnhau. Er enghraifft, disgrifiodd y cynghorydd personol (P49 – diwedd y cynllun peilot), ymyriad proffesiynol i ddiogelu person ifanc, tra bod cynghorydd personol arall wedi nodi (P43 – diwedd y cynllun peilot) yr amheuaeth yn hytrach na chadarnhad o anawsterau tai i un arall. Serch hynny, roedd pob un o'r cyfranogwyr hyn yn credu bod darparu'r incwm sylfaenol yn cynyddu bregusrwydd pobl ifanc i ecsbloetio tai.

Mewn cyferbyniad ag awgrymiadau bod yr incwm sylfaenol yn cynyddu sefydlogrwydd ac yn atal argyfyngau tai, ystyriwyd bod natur gyfyngedig amser y cynllun peilot hefyd yn arwain at oedi anawsterau tai i rai bobl ifanc yn hytrach nag atal anawsterau tai. Er bod yr incwm sylfaenol wedi galluogi pobl ifanc i gael mynediad at lety amgen pan oedd perthnasoedd yn chwalu, ni fyddai hyn yn bosibl ar ôl y cynllun peilot. Yn yr un modd, roedd gweithwyr proffesiynol hefyd yn pryderu am fforddiadwyedd rhai mathau o lety ar ôl i'r cynllun peilot ddod i ben. Mewn un enghraifft, adroddodd Rheolwr Tîm:

> ‘Mae un [person ifanc] mewn dyled oherwydd ei fod wedi mynd i mewn i fflat wrth ddechrau’r BIP ac wedi cael trafferth talu ers hynny. Mae’r cynghorydd personol yn meddwl y gallai golli ei dŷ yn ystod y misoedd nesaf.’ (P21, rheolwr tîm – diwedd y cynllun peilot).

Yn adroddiad blynyddol 2023–2024 tynnwyd sylw at bryderon am annhegwch i bobl ifanc a oedd yn byw mewn llety â chymorth (Holland ac eraill, 2024). Roedd camddealltwriaeth ac anghysondebau mewn mynediad at y Budd-dal Tai yn golygu bod pobl ifanc yn y lleoliadau hyn weithiau’n talu cyfran uchel o’r incwm sylfaenol ar rent. Roedd pryderon tebyg yn amlwg eto yn y dadansoddiad dilynol. Eto, yn ogystal â phryderon am gydraddoldeb, adroddodd rhai gweithwyr proffesiynol fod pobl ifanc wedi dewis peidio ag aros mewn llety â chymorth er eu bod angen cymorth ychwanegol:

> ‘Mae llawer o bobl ifanc nad ydynt yn fodlon mynd i dai â chymorth oherwydd nad ydynt am dalu’r rhent, oherwydd maen nhw’n teimlo na ddylen nhw orfod talu.’. (P3, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot).

Mewn enghreifftiau eraill, adroddwyd bod pobl ifanc wedi cronni dyledion oherwydd peidio â thalu rhent a oedd â goblygiadau i gymorth tai yn y dyfodol:

> ‘Mae hi mewn llety brys, ond y broblem sydd gennym ni, mae hi wedi bod mewn llety dros dro yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn sicr cyn i’r BIP ddod i ben, gan fod ganddi gymaint o ôl-ddyledion, nid ydych chi’n gallu ... Mae hi wedi’i rhewi ar y rhestr dai.’ (P68, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot).

Mae’r canfyddiadau yn yr adran hon yn adleisio’r tensiynau a nodwyd uchod, lle’r oedd cyfranogwyr yn cydnabod bod mwy o gyfleoedd ac ymreolaeth i bobl ifanc, yn ogystal â’r potensial ar gyfer mwy o fregusrwydd ac effeithiau niweidiol. Yn ogystal â dylanwad perthnasoedd pobl ifanc, mae’r canfyddiadau hefyd yn tynnu sylw at arwyddocâd y cyd-destun ehangach, sef, opsiynau tai fforddiadwy a phriodol cyfyngedig, a rhyngweithiadau anghyson ac ansefydlog gyda chefnogaeth ehangach.

### 4.2.3 Iechyd a llesiant

Roedd gweithwyr proffesiynol yn gweld manteision a niwed i iechyd a llesiant yr oeddent yn teimlo eu bod yn gysylltiedig â’r incwm sylfaenol. Yn gadarnhaol, roedd canfyddiadau o wella iechyd meddwl a llesiant yn cael eu hailadrodd ar draws y data, gan gynnwys cyfeiriadau at dlodi a chaledi yn cael eu lleddfu yn ystod y pontio o gyfod mewn gofal. Er enghraifft, cyfeiriodd un cynghorydd personol at berson ifanc a oedd ag ‘iechyd meddwl difrifol cyn y BIP, [a chael yr arian] ac yna am ddwy flynedd heb y straen o fod heb arian, mae ei hiechyd meddwl wedi gwella’n sylweddol’ (P43, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot). Yn yr un modd, dywedodd pennaeth gwasanaeth:

‘Wrth gwrs, mae’n mynd i wella eich llesiant os ydych chi’n teimlo’n wirioneddol fregus ac rydych chi’n gwybod nad oes rhaid i chi boeni am arian cymaint ag yr oeddech chi’n arfer ei wneud.’ (P61, pennaeth gwasanaeth – diwedd y cynllun peilot).

Yn ogystal â gwelliannau sy’n deillio o lai o straen a gorbryder am adnoddau, cyfeiriodd cyfranogwyr hefyd at y manteision sy’n deillio o benderfyniadau gwariant penodol. Er enghraifft, dywedodd un pennaeth gwasanaeth (P63 – diwedd y cynllun peilot), ‘Roedd rhai hyd yn oed yn ei ddefnyddio i’w ychwanegu at therapi, cyllid therapi preifat, i symud hynny ymlaen.’ Wrth ddisgrifio person ifanc arall, dywedodd cynghorydd personol: ‘Roedd hi’n ei wario ar sesiynau therapi preifat wythnosol i weithio trwy drawma ei phlentyndod gan ei bod wedi’i hesgeuluso’n eithaf difrifol fel plentyn.’ (P21, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot). Roedd buddsoddiad o’r fath yn iechyd meddwl unigolion yn cael ei ystyried yn gadarnhaol, gyda’r potensial o fuddion parhaol.

Mewn enghreifftiau eraill, canfuwyd bod llesiant wedi’i wella trwy’r gweithgareddau yr oedd pobl ifanc yn gallu cymryd rhan ynddynt neu’r hyn yr oeddynt yn gallu ei brynu. Roedd hyn yn nodedig yn yr adran Tai uchod, lle tynnwyd sylw gan gyfranogwyr at falchder pobl ifanc mewn gallu addurno a phersonoli eu cartrefi. Yn yr un modd, dywedodd un rheolwr tîm:

> ‘Rwy’n credu ei fod yn bendant wedi bod o fudd i bobl ifanc sydd wedi cael y cyllid i allu mynd i gwrdd â ffrindiau yn amlach, felly lleihau’r ymdeimlad o fod yn ynysig. Felly, rwy’n bendant yn credu ei fod wedi helpu yn yr achosion hyn’ (P66, rheolwr tîm – diwedd y cynllun peilot).

Sylwodd gweithwyr proffesiynol fod gwariant ar ymddangosiad a gweithgareddau cymdeithasol yn gwella hunan-barch a llesiant derbynyddion. Nododd un rheolwr tîm arwyddocâd gallu fforddio torri gwallt, dillad newydd, a danteithion, sef ‘pethau y mae llawer o bobl yn eu cymryd yn ganiataol, ond maen nhw’n hollol estron i’n pobl ifanc ni.’ Eglurodd, ‘Ni allwch danbrisio beth y mae cael torri gwallt yn dda yn ei wneud i berson ifanc’ mewn byd ‘sy’n cael ei ddylanwadu gan gymhariaeth ar y cyfryngau cymdeithasol,’ gan ddod i’r casgliad ei fod ‘yn bendant wedi cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant’ (P21, rheolwr tîm – diwedd y cynllun peilot).

Roedd hyn yn arbennig o nodedig pan oedd gweithwyr proffesiynol wedi rhagweld canlyniadau negyddol. Disgrifiodd un cynghorydd personol berson ifanc gyda ‘phroblem cyffuriau eithaf sylweddol ar y dechrau’ a fu’n herio’r disgwyliadau: ‘Mae fel pe bai wedi aeddfedu gyda’r arian hwnnw. Wnaeth e ddim dilyn y trywydd yr oedden ni’n meddwl y byddai’n ei gymryd. Rwy’n cofio ei weld yn y siaced las hyfryd hon yn cerdded yn falch ohono’i hun. Roedd hynny’n hyfryd i’w weld; pan oeddem wedi poeni cymaint amdano’ (P43, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot).

Mae hyn yn dangos bod yr incwm sylfaenol yn caniatáu iddynt gymryd rhan a theimlo’n rhan o’r normau sy’n gyson â’u grŵp cyfoedion, yn hytrach na theimlo eu

bod wedi'u heithrio a theimlo'n ddifreintiedig. Fel y dangosir yn yr enghraifft uchod, roedd gan hyn y potensial i ddylanwadu ar lwybrau pobl ifanc mewn ffyrdd heb eu rhagweld gan weithwyr proffesiynol. Serch hynny, beirniadwyd gwariant o'r fath, weithiau, ar sail bodloni anghenion a dymuniadau uniongyrchol gan adael pobl ifanc heb 'ddim i'w ddangos' am yr arian ar ddiwedd y cynllun peilot. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad blaenorol, roedd gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol o natur gyfyngedig amser y peilot ac yn awyddus i bobl ifanc ddefnyddio'r arian er budd hirdymor. Fodd bynnag, mae'r enghreifftiau hyn yn awgrymu y gall rhai barnau wedi'u seilio ar werthoedd am oblygiadau tymor byr penderfyniadau gwariant leihau'r manteision sy'n gysylltiedig â chymryd rhan gymdeithasol, urddas a gallu pobl ifanc i ymdopi.

Mewn enghreifftiau eraill, ystyriwyd bod yr incwm sylfaenol yn ddigymorth neu'n niweidiol, gan waethygu anghenion presennol pobl ifanc neu greu problemau newydd. Er enghraifft, roedd darparu'r incwm sylfaenol weithiau yn cael ei ystyried fel rhwystr i fynd i'r afael ag anghenion iechyd meddwl a llesiant. Er enghraifft, wrth drafod un person ifanc, dywedodd cynghorydd personol:

> 'Doeddwn i ddim eisiau iddo fynd yn agos at y cynllun peilot incwm sylfaenol, oherwydd roedd yn dioddef o orbryder ac iselder difrifol ac nid oedd byth yn mynd allan. Y cyfan y gwnaeth hyn oedd hwyluso ei allu i aros yn ei ystafell, oherwydd roedd ganddo'r arian, gallai wneud popeth ar-lein, a thalu am unrhyw beth.' (P69, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot)

Mewn enghreifftiau eraill, adroddodd gweithwyr proffesiynol fod deiet pobl ifanc wedi dirywio o ganlyniad i'r arian ychwanegol. Fel y nodwyd gan un cynghorydd personol, 'iechyd gwael, gan fod llawer ohonyn nhw yn prynu Just Eat. Anghofiwch goginio nawr.' (P4, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot). Roedd y feirniadaeth o ddeiet pobl ifanc yn cynnwys pryderon am gost a chynaliadwyedd gorddibyniaeth ar fwydydd tecawê a bwyd cyflym, yn ogystal â'r goblygiadau iechyd, gyda rhai yn adrodd am gynnydd sylweddol ym mhwysau rhai pobl ifanc. Yn ogystal, roedd pryderon iechyd a llesiant hefyd yn amlwg mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau ac alcohol. Yn unol â phryderon a godwyd yng nghyfnodau cynnar y cynllun peilot, adroddodd gweithwyr proffesiynol fod gwendidau rhai pobl ifanc wedi gwaethygu:

> 'Ac rwy'n credu, roedd yn anochel, mewn gwirionedd, mae yna bobl ifanc a gafodd anawsterau gyda chamddefnyddio sylweddau, ac mae hynny'n cynyddu'n sylweddol camddefnyddio sylweddau am fod ganddyn nhw'r arian i allu ei gyllido.' (P66, rheolwr tîm – diwedd y cynllun peilot).
>
> 'Yr holl bwyntoedd rhoi cyfleoedd bywyd gorau iddyn nhw, ac mae problemau camddefnyddio sylweddau carfan o bobl, oherwydd y BIP, yn waeth na chyn y cyfnod hwn.' (P64, pennaeth gwasanaeth – diwedd y cynllun peilot).

Fel y nodwyd yn ein hadroddiad blaenorol, mae tystiolaeth yn gyfyngedig am gamddefnyddio sylweddau i blant mewn gofal (Holland ac eraill 2024). Canfu

adolygiad systematig diweddar mai camddefnyddio sylweddau yw'r ymddygiad risg uchel mwyaf cyffredin ymhlith pobl ifanc sy'n gadael gofal (Petäjä ac eraill 2023), er ei bod yn bwysig nodi nad oedd hyn yn cynnwys unrhyw astudiaethau yn y DU. Yn fwy cyffredinol, adroddwyd bod lleiafrif sylweddol (15.1%) o'r holl bobl ifanc (16–24 oed) yn y boblogaeth gyffredinol wedi defnyddio 'unrhyw gyffur' yn y 12 mis hyd at fis Mawrth 2025 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2025a). Felly, er bod rhai cyfranogwyr proffesiynol yn credu bod yr adnoddau ychwanegol yn hwyluso mynediad haws neu uwch at sylweddau, nid oes tystiolaeth bendant ar hyn o bryd y cafodd y cynllun peilot effaith gadarnhaol neu negyddol ar gamddefnyddio sylweddau o'i gymharu ag ymddygiadau arferol yn y garfan hon.

Yn gyffredinol, roedd yr effeithiau iechyd a llesiant a ddisgrifiwyd gan gyfranogwyr yn amrywiol. I rai pobl ifanc adroddwyd bod yr arian wedi gwarchod a gwella iechyd meddwl a llesiant. Eto, yn unol â phryderon a nodwyd uchod, ar gyfer pobl ifanc fwy agored i niwed, adroddwyd bod yr arian ychwanegol wedi gwaethygu bregusrwydd ac wedi effeithio'n negyddol ar iechyd a llesiant. Yn gyson hefyd â thrafodaethau am dai, trafodwyd effeithiau tymor byr a hirdymor disgwyliedig gan gyfranogwyr. Roedd hyn yn cynnwys buddion a oedd yn ddibynnol ar fynediad pobl ifanc at yr incwm (er enghraifft, llai o straen a chyfranogiad cymdeithasol), yn ogystal â gobeithion a phryderon am effeithiau hirdymor (er enghraifft, effaith gadarnhaol bosibl cymorth therapiwtig ac effaith niweidiol o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau sylweddol). Er nad yw amserlen y gwerthusiad cyfredol yn caniatáu gweld effeithiau hirdymor ar iechyd neu ganlyniadau eraill, gellid asesu'r rhain mewn astudiaethau yn y dyfodol trwy gysylltu data gweinyddol oherwydd, lle bo hynny'n bosibl, bydd data gwerthuso yn cael eu hadneuo mewn amgylcheddau ymchwil diogel, gan gynnwys Banc Data SAIL, ar ôl i'r gwerthusiad ddod i ben.

### 4.2.4 Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth

Cynigiodd gweithwyr proffesiynol fyfyrdodau amrywiol am sut yr oedd yr incwm sylfaenol wedi dylanwadu ar ymgysylltiad pobl ifanc ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. I rai, ystyriwyd bod yr incwm sylfaenol yn dylanwadu ar benderfyniadau a chanlyniadau pobl ifanc. Er enghraifft, roedd cyfeiriadau at bobl ifanc sy'n dysgu gyrru yn ailadroddus ar draws y data ac roedd gweithwyr proffesiynol yn credu bod hyn yn rhoi hwb i'w cyfleoedd am gyflogaeth:

> 'Rwy'n credu mai'r peth mwyaf cadarnhaol i ni yw bod llawer ohonyn nhw wedi dysgu gyrru, ac maen nhw wedi gallu cael car ac maen nhw'n gallu cael swyddi. I mi, y peth mawr i ddod allan o'r holl gynllun peilot hwn, yw gallu person ifanc i yrru neu beidio.  Rwy'n gwybod ein bod ni'n gwybod hynny, ond wrth ei weld mewn bywyd go iawn, ac fel y gwyddoch chi, roedd ganddyn nhw'r arian hwnnw, roedden nhw'n gallu fforddio mynd am wersi gyrru, roedden nhw'n gallu fforddio prynu eu ceir eu hunain, yn gallu fforddio talu am yswiriant car, yna maen nhw'n gallu cael swydd well; felly, nid oes rhaid iddyn nhw ... Gan ein bod ni'n byw mewn ardal fach, ac mae'r trafnidiaeth

gyhoeddus yn ofnadwy, mae'n fwy buddiol iddyn nhw; maen nhw'n gallu cael y swyddi hyn, maen nhw'n gallu mynd ychydig ymhellach i ffwrdd i gael swyddi.' (P25, rheolwr tîm – diwedd y cynllun peilot).

Mewn enghreifftiau eraill, soniodd cyfranogwr fod un person ifanc 'yn ystyried agor ei fusnes ei hun gan ddefnyddio'r arian' (P27, rheolwr tîm – diwedd y cynllun peilot), a dywedodd un cynghorydd personol fod person ifanc wedi 'talu am sawl sesiwn hyfforddiant, fel hyfforddiant ar y safle, gyrru tipiwr a cherbyd dympio, sy'n gyrsiau eithaf drud.' (P3, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot). Yn yr un modd, roedd yr incwm yn galluogi cyfleoedd i wirfoddoli ac ennill profiad, cyfle sy'n aml ar gael i bobl ifanc o gefndiroedd mwy cyfoethog ond sy'n gallu gweithredu fel porth pwysig i waith â thâl. Wrth ddisgrifio un person ifanc, dywedodd un cynghorydd personol:

> '… gwnaeth rywfaint o waith gwirfoddol oherwydd ei fod yn gallu, oherwydd nad oedd angen yr arian arno, ac arweiniodd hyn wedyn at swydd yn ymgeleddu ceir. Dydw i ddim yn gwybod beth yw'r gair cywir, ond gweithio ar geir da iawn. Ac roedd yn gallu gwirfoddoli i gael hynny iddo'i hun.' (P12, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot).

Er bod yr enghreifftiau uchod yn tynnu sylw at botensial yr incwm sylfaenol i ehangu cyfleoedd pobl ifanc mewn perthynas ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, mewn achosion eraill, ni ystyriwyd bod penderfyniadau pobl ifanc wedi'u newid gan y peilot, ond roedd eu profiadau a'u dyfodol wedi'u gwella o ganlyniad i'r incwm ychwanegol:

> 'Mae rhai pobl ifanc wedi cynilo'n dda iawn ochr yn ochr â gweithio ... Mae un unigolyn, rwy'n credu, wedi cynilo am flaendal ar gyfer tŷ.' (P46, Cyngor ar Bopeth – diwedd y cynllun peilot).

> 'Yn synhwyrol iawn, yn wyliadwrus iawn, yn gweithio'n llawn amser. Wedi gwario rhywfaint ohono, arbed y rhan fwyaf ohono, wedi prynu ei char cyntaf gyda'r arian. Yn dal i fod â swm sylweddol mewn cynilion.' (P68, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot).

Yn yr un modd, i bobl ifanc a oedd yn astudio yn y brifysgol, roedd yr incwm sylfaenol yn cael ei ystyried fel modd o wella eu profiadau a lleddfu pwysau ariannol i weithio ochr yn ochr ag astudio:

> 'I'r bobl ifanc hynny sy'n gadael gofal a oedd yn y brifysgol, tra'u bod yn cael cymorth, mae ganddyn nhw bryderon ychwanegol a gofidiau ychwanegol, ac rwy'n credu bod y cynllun peilot incwm sylfaenol, yr arian hwnnw wedi lleddfu rhywfaint ar y pryder hwnnw.' (P62, rheolwr tîm – diwedd y cynllun peilot).

Mewn cyferbyniad â'r enghreifftiau hyn, disgrifiodd gweithwyr proffesiynol hefyd yr incwm sylfaenol fel datgymhelliad i ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Roedd hyn yn golygu bod pobl ifanc yn teimlo'n ariannol sefydlog ac felly ddim yn cael eu gorfodi i astudio neu weithio. Er bod hyn weithiau'n cael ei ystyried fel rhoi

amser i bobl ifanc ystyried eu dewisiadau a'u diddordebau, yn fwy cyffredin, roedd gweithwyr proffesiynol yn mynegi rhwystredigaeth at bobl ifanc 'nad oedd eisiau gwneud unrhyw beth heblaw am aros i'r arian rolio i mewn' (P56, rheolwr tîm – diwedd y cynllun peilot) ac a adawyd gyda 'bwlch mawr ar eu CV' (P53, Cyngor ar Bopeth – diwedd y cynllun peilot).

> 'Roedden ni'n cael trafferth gyda'r bobl hynny oedd wedi cael eu cymell i wneud yn dda, weithiau hyd yn oed yn gweithio, yna'n stopio gweithio oherwydd bod ganddyn nhw incwm, ac felly nad oedd yn rhaid iddyn nhw weithio.' (P63, pennaeth gwasanaeth – diwedd y cynllun peilot).

Roedd gweithwyr proffesiynol yn arbennig o bryderus am dderbynyddion a oedd wedi ymddieithrio o addysg neu gyflogaeth yn ystod y cynllun peilot. Disgrifiodd un cynghorydd personol berson ifanc a dynnodd yn ôl o gwrs Network Rail ychydig fisoedd cyn ei gwblhau, a swydd warantedig, gan resymu, 'Nid oes angen swydd arnaf nawr; nid oes angen i mi wneud hyn, oherwydd mae gen i hyn.' Er gwaethaf rhybuddion mai 'dim ond dwy flynedd yw hyn. Bydd Network Rail am byth, ac mae'n gyflogwr cyflog uchel,' fe adawodd y person ifanc y swydd, a nawr mae'n gwneud dim, ac mae wedi ymadael â'r cynllun peilot' (P4, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot). Yn yr un modd, adroddodd un arall fod derbynnydd bellach 'heb gymhelliant i wneud unrhyw beth nawr. Ni fydd hi'n mynd i'r coleg, ni fydd hi'n gwneud unrhyw beth' ar ôl i'r cynllun peilot ddod i ben (P51, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot).

Nodwyd pryderon am yr incwm sylfaenol sy'n gweithredu fel ataliad i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn adroddiad blynyddol 2023–2024 (Holland ac eraill, 2024), ac mae data o'r cam dilynol yn awgrymu bod rhai pobl ifanc wedi gwireddu ofnau o'r fath. Fodd bynnag, mae hefyd angen ystyried gweithredoedd pobl ifanc yn unol â chyfnod datblygiadol 'oedolion sy'n dod i'r amlwg' (Arnett, 2000). Mae'r cyfnod hwn rhwng y glasoed a bywyd fel oedolyn, yn honni ei fod yn cynnig dewis a phosibiliadau, ond hefyd yn cael ei nodweddu gan ansicrwydd, wrth i bobl ifanc arbrofi gyda'u hunaniaeth, eu perthnasoedd a'u proffesiynau (Arnett, 2000). Fel y nodwyd yn adroddiad blynyddol 2024–2025 (Mathur ac eraill, 2025), mae'r ddamcaniaeth yn cydnabod efallai na fydd cyfleoedd ar gyfer archwilio ar gael i bawb, a bod dewisiadau yn fwy cyfyngedig i rai pobl ifanc ymylol, fel y rhai sy'n gadael gofal.Arnett, 2007). Er ei bod yn hawdd deall bod gweithwyr proffesiynol yn awyddus i bobl ifanc fynd i mewn i ryw fath o addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, ac yn gweld hyn yn bwysig i ddyfodol mwy ffyniannus a chadarnhaol, efallai na fydd diffyg ymgysylltu uniongyrchol pobl ifanc o reidrwydd yn cynrychioli gwneud penderfyniadau anghyfrifol neu heb wybodaeth, ond gall adlewyrchu'n syml normau sy'n gyffredin ymhlith eu cymheiriaid nad ydynt â phrofiad o fod mewn gofal. Mae hefyd yn amhosibl gwybod a allai'r unigolion hyn fod wedi ymddieithrio o addysg neu gyflogaeth heb yr incwm sylfaenol.

Roedd un person ifanc o 'gefndir teuluol eithaf anodd lle nad yw'r rhieni wedi gweithio ers amser maith' yn mwynhau'r incwm i ddechrau heb weithio, ond daeth yn 'ymrwymedig iawn, iawn i ddod o hyd i waith cyn iddo ddod i ben.' Esboniodd y cynghorydd personol, 'po fwyaf y gwnaethom drafod y byddai'n dod i ben, ac nad oedd ef eisiau hynny, roedd yn hoffi'r ffordd o fyw,' roedd 'rhan ysbrydoledig y cynllun peilot o ddangos iddo'r bywyd y gallai ei gael wedi gweithio'n dda iawn gydag ef, ac mae mewn cyflogaeth nawr. Roedd yn wirioneddol ymrwymedig i beidio â cholli'r incwm hwnnw, ac roedd yn hapus i weithio ar gyfer hynny; ond cyn hyn, nid wyf yn credu y byddai wedi bod felly' (P59, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot).

Mae canfyddiadau'r adran hon yn dangos bod cyfranogwyr wedi gweld yr incwm sylfaenol fel ffordd o gefnogi a chryfhau cyfleoedd a phrofiadau pobl ifanc mewn perthynas ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, ond hefyd i oedi ymgysylltu a/neu alluogi anweithgarwch. Er eu bod yn cydnabod y gallai oedi o'r fath fod yn gyffredin i bobl ifanc nad ydynt â phrofiad o ofal, roedd cyfranogwyr serch hynny yn pryderu am oblygiadau tymor hwy oedi a thynnu'n ôl, yn ogystal â goblygiadau pobl ifanc yn cael 'arian am ddim' (P4, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot). Bydd yr adran nesaf yn canolbwyntio ar arsylwadau cyfranogwyr o fywydau pobl ifanc ar ôl diwedd y cynllun peilot.

## 4.3 Arsylwadau ar ôl peilot

Tynnwyd sylw at bryderon ynghylch sut y byddai pobl ifanc yn rheoli ar ôl i'r cynllun peilot ddod i ben yn adroddiad blynyddol 2023–2024 (Holland ac eraill, 2024) ac ailadroddwyd hyn gan gyfranogwyr yn y cyfweliadau dilynol a'r grwpiau ffocws. Roedd y pryderon hyn yn canolbwyntio ar addasiad pobl ifanc i incwm llai a'r effeithiau posibl ar feysydd fel tai, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, ac iechyd a llesiant.

Datgelodd myfyrdodau cyfranogwyr ddarlun cymysg, wedi'u llunio yn bennaf gan anghenion ac amgylchiadau unigol. Er enghraifft, ystyriwyd bod y pontio yn llai problematig i fyfyrwyr prifysgol a oedd fel arfer yn cael mynediad at fenthyciadau myfyrwyr a chymorth ariannol gan yr awdurdod lleol. Yn yr un modd, adroddodd cyfranogwyr lai o bryderon am bobl ifanc a oedd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Yr eithriad i hyn oedd pryderon ynghylch gallu unigolion i gynnal rhai ymrwymiadau ariannol:

> 'Felly, roedd gennym un bachgen ar brentisiaeth ac yn cael taliadau BIP, roedd ganddo daliad yswiriant enfawr ar gyfer car, felly roedd yn rhaid iddo weithio allan sut roedd e'n mynd i wneud y taliad hwnnw heb yr arian peilot incwm sylfaenol, dim ond ar ei gyflog prentis.' (P57, rheolwr tîm – diwedd y cynllun peilot).

Er bod yr incwm sylfaenol wedi cryfhau cyfleoedd trwy ganiatáu i bobl ifanc gael mynediad at wersi gyrru, prynu neu yswirio car, roedd y gostyngiad dilynol mewn incwm ar ddiwedd y cynllun peilot weithiau'n bygwth cynaliadwyedd yr enillion.

Wrth drafod heriau pobl ifanc ar ôl y peilot, cyfeiriodd cyfranogwyr yn aml at y rhai sy'n trosglwyddo i fudd-daliadau lles. I'r rhai sydd â chyflyrau iechyd hirdymor neu amhariad, nodwyd bod y trawsnewidiad fel arfer yn anodd, ond gwelwyd bod y lefel uwch o gymorth lles yn lleihau'r effaith. Eto, i'r rhai nad oeddent yn gymwys i gael cymorth ychwanegol, roedd y gostyngiad mewn incwm, ynghyd â'r disgwyliadau a'r amodau a oedd yn gysylltiedig â budd-daliadau a fyddai'n gysylltiedig â gwaith, yn arbennig o heriol.

Mewn rhai achosion, roedd pryderon proffesiynol wedi'u gwireddu, ac adroddwyd bod pobl ifanc yn cael trafferth gyda'r pontio i Gredyd Cynhwysol. Dywedodd un rheolwr tîm, er bod y Budd-dal Tai bellach yn cwmpasu rhent, 'maen nhw'n dal i'w chael hi'n anodd iawn, sy'n gwbl ddealladwy, oherwydd mae'n ostyngiad yn yr incwm cyffredinol (P62, rheolwr tîm – diwedd y cynllun peilot). Roedd y canlyniadau yn cynnwys dirywiad mewn iechyd meddwl, dyledion cynyddol, ac anawsterau cynnal tenantiaethau, gan arwain un cynghorydd personol i arsylwi bod derbynyddion 'wir yn cael trafferth nawr. Fe wnaethon nhw ddod i arfer â'r ffordd o fyw hwnnw o gael yr arian hwnnw ac mae'n amlwg nawr nad ydynt yn ymdopi' (P52, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot). Roedd hyd yn oed y rhai a oedd wedi cyllidebu'n ofalus yn ystod y cynllun peilot yn cael trafferth gyda'r gostyngiad sydyn, gan eu bod 'yn byw o fewn eu modd, ac maen nhw wir wedi cael trafferth cymryd y cam hwnnw i lawr yn eithaf sylweddol' (P64, pennaeth gwasanaeth – diwedd y cynllun peilot).

Fodd bynnag, nid oedd pob profiad yn negyddol, ac roedd rhai gweithwyr proffesiynol wedi'u synnu ar yr ochr orau gan wydnwch y derbynyddion. Nododd un ei fod wedi 'creu argraff dawel' wrth i bobl ifanc 'ei reoli yn dda iawn, mewn gwirionedd' (P69, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot), tra bod un arall wedi bod 'ofn' y cyfnod pontio, ond canfu 'nad yw wedi bod mor ddrwg ag yr oeddwn i'n ei ddychmygu. Nid ydynt wedi gofyn am fwy o gymorth nag arfer' (P43, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot). Yn gyffredinol, disgrifiwyd ganlyniadau amrywiol gan weithwyr proffesiynol, gan adlewyrchu gwendidau a gwydnwch pobl ifanc ar ôl cynllun peilot.

## 4.4 Safbwyntiau ar ddyluniad y cynllun peilot

Yng ngoleuni eu profiadau a'u harsylwadau, gofynnwyd i weithwyr proffesiynol fyfyrio ar ddyluniad y cynllun peilot. Roedd trafodaethau yn canolbwyntio ar elfennau penodol o'r cynllun peilot ond hefyd yn cynhyrchu awgrymiadau amgen ar sut y gellid defnyddio'r arian a ddyrannwyd.

### 4.4.1 Carfan

Wrth fyfyrio ar y penderfyniad i dreialu'r incwm sylfaenol ar bobl sy'n gadael gofal, dywedodd sawl cyfranogwr eu bod yn deall pam fod y grŵp wedi'i ddewis. Mewn achosion o'r fath, roedd yr anfantais a wynebwyd gan bobl ifanc sy'n gadael gofal wedi'i gydnabod ac roedd yr incwm sylfaenol yn cael ei ystyried fel 'lefelu'r cae chwarae', gan roi'r 'hwb ychwanegol hwnnw a'r help ychwanegol hwnnw' (P21, rheolwr tîm – diwedd y cynllun peilot) a 'rhoi hwb i'w dechreuad nhw a'u dyfodol' (P44, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot).

Ond er gwaethaf cydnabod anfantais pobl sy'n gadael gofal, cwestiynodd rhai a oedd incwm sylfaenol yn briodol ar gyfer y garfan hon. Dadleuodd un cynghorydd personol gydag 11 mlynedd o brofiad:

> 'Does dim gwahaniaeth faint o arian rydych chi'n ei roi iddyn nhw, nid ydych chi'n datrys eu sefyllfa trwy roi arian iddyn nhw. Byddan nhw'n ei wario mor gyflym ag y maen nhw'n ei gael ... maen nhw wedi ... does dim cysyniad ohono. Maen nhw'n meddwl, 'Mae gen i'r arian, mae'n llosgi twll yn fy mhoced. Beth alla i ei wario arno?' (P4, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot).

Mae'r sylwadau yn cyseinio ag awgrymiadau gan rai cyfranogwyr bod y cynllun peilot wedi cael effaith niwtral ar fywydau pobl ifanc, gan gynyddu eu hincwm dros dro ond gan ysgogi ond ychydig o fudd parhaol. Fel y nodwyd uchod, roedd gweithwyr proffesiynol yn aml yn blaenoriaethu penderfyniadau ac effeithiau hirdymor dros ddewisiadau a buddion tymor byr.

Yn ogystal â phryderon ynghylch a fyddai budd-daliadau'n para, mynegodd cyfranogwyr bryderon hefyd am fregusrwydd rhai yn gadael gofal, gan awgrymu:

> 'Roedd ychydig anghyfrifoldeb ynglŷn â rhoi symiau mawr o arian i rai pobl ifanc a allai fod mewn sefyllfaoedd anodd iawn.' (P59, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot).

Ar ben hynny, roedd rhai gweithwyr proffesiynol yn teimlo y dylen nhw eu hunain fod wedi cael mwy o reolaeth dros bwy oedd yn gallu cael mynediad at yr arian oherwydd eu bod 'yn gallu gwneud dewis cadarn ynghylch pa bobl ifanc fyddai'n llwyddo' (P68, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot). Mae'r sylwadau yn cyseinio â'r rhai a gynigiwyd yng nghyfnodau cynnar y peilot (Holland ac eraill, 2024) ac yn dangos bod gweithwyr proffesiynol yn gefnogol i nod y peilot i leihau'r anfantais sy'n wynebu pobl ifanc sy'n gadael gofal, ond hefyd yn amheus ynghylch y potensial i gael effaith gadarnhaol ar y tafl-lwybr i bawb. Er ei bod yn bwysig nodi bod gan weithwyr proffesiynol ganfyddiadau gwahanol o fuddion a llwyddiant, ac maent hefyd wedi cydnabod achosion lle nad oedd eu disgwyliadau o sut y byddai rhai pobl ifanc yn ymateb i'r incwm yn cael eu cadarnhau, mae pryderon yn parhau

ynghylch cynnwys pob person ifanc yn y cynllun peilot, waeth beth fo'u hanghenion a'u gwendidau.

Roedd rhai gweithwyr proffesiynol yn teimlo bod 18 oed yn rhy ifanc i gael yr incwm sylfaenol. Cwestiynodd un a ddylai ddechrau yn nes ymlaen, ar ôl 'cychwyn gwaith paratoi i'w helpu i feddwl am yr hyn y maen nhw'n ei ddymuno ar gyfer eu dyfodol' (P65, pennaeth gwasanaeth – diwedd y cynllun peilot). Dadl eraill oedd ei fod 'dim ond yn ymestyn y cyfnod hwnnw yn eu bywydau lle'r oedden nhw'n cael arian heb orfod gwneud unrhyw beth. Nid oedd yn eu gorfodi mewn gwirionedd i fod yn oedolion' (P21, rheolwr tîm – diwedd y cynllun peilot), a bod derbynyddion heb brofiad o reoli 'symiau sylweddol o arian' yn y cyfnod pontio tyngedfennol hwn (P69, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot). Yn hytrach na 'gorfodi' pobl ifanc tuag at annibyniaeth, nod datganedig y polisi oedd darparu 'lle i bobl ifanc ffynnu wrth sicrhau eu hanghenion sylfaenol' (Llywodraeth Cymru, 2022). Yn adroddiad blynyddol 2023–2024, tynnwyd sylw gan rai gweithwyr proffesiynol at arwyddocâd troi'n 18 oed i lawer o bobl sy'n gadael gofal a'r llu o newidiadau a heriau y mae'r garreg filltir yn eu cwmpasu (Holland ac eraill, 2024).

Yn gyffredinol, arweiniodd yr amheuon hyn ymhlith gweithwyr proffesiynol ynglŷn â'r dewis o garfan iddynt gwestiynu gallu a phrofiad pobl ifanc i wneud penderfyniadau gwybodus am yr arian. Mae pryderon o'r fath yn ymwneud â syniadau o resymeg cyfyngedig lle mae penderfyniadau unigolion yn cael eu dylanwadu gan eu cyd-destun a'u hanes, eu gallu gwybyddol, yr wybodaeth sydd ar gael, a'u cyfyngiadau o ran amser (Evans, 2002). Roedd gweithwyr proffesiynol yn teimlo ei bod yn afrealistig disgwyl i bobl ifanc wneud dewisiadau gwybodus am yr arian, ac ailadroddwyd cyfeiriadau at 'fudd-daliadau' a pheidio â 'gorfod gwneud unrhyw beth' wrth i gyfranogwyr dynnu cymariaethau rhwng yr incwm sylfaenol (a ystyrir yn hael ac yn ddiamod) a budd-daliadau lles (a ystyrir yn incwm isel ac amodol). Bydd cymariaethau o'r fath yn cael eu harchwilio ymhellach isod.

### 4.4.2 Swm a hyd y prosiect

Cynigiwyd barn gyferbyniol ar swm y taliad gan gyfranogwyr. Yn unol â chanfyddiadau adroddiad blynyddol 2023–2024 (Holland ac eraill, 2024) roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod y swm yn briodol ac yn uchelgeisiol, gan frasamcanu cyflogau realistig: 'Ddim yn ormod, ddim yn rhy fach. Tebyg i'r hyn y byddech chi'n ei gael pe baech chi'n gweithio" (P21, rheolwr tîm – diwedd y cynllun peilot) yn 'y math o swydd sydd gan y rhan fwyaf o bobl ifanc yr oedran hwnnw' (P12, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot). Roedd eraill, fodd bynnag, yn ei ystyried yn ormodol. Galwodd un y swm 'yn anhygoel i ferch 18 oed.' (P48, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot). Roedd pryderon yn canolbwyntio ar gymariaethau â chyflogaeth isafswm cyflog a budd-daliadau lles, gydag un yn nodi'r 'effaith enfawr, enfawr' pe byddai nifer y derbynyddion 'yn gostwng' i daliadau llawer is o Gredyd Cynhwysol (P54, Cyngor ar Bopeth – diwedd y cynllun peilot).

Er ei bod yn bwysig nodi nad oedd pob person ifanc yn dibynnu ar fudd-daliadau lles ar ôl y cynllun peilot, roedd llawer ohonynt yn gwneud hynny, ac yn y cyd-destun hwn ystyriwyd bod swm y taliad yn afrealistig. Wrth drafod pryderon am baratoi pobl ifanc ar gyfer realiti'r dyfodol, mynegodd rhai cyfranogwyr bryderon am hyd y peilot a'r potensial y byddai pobl ifanc yn dod yn gyfarwydd â'r incwm:

> 'Mae dwy flynedd yn amser hir i rywun ei gael. Dydw i ddim yn siŵr a ddylai fod wedi bod am 12 mis yn unig fel na fyddent yn dod mor gyfarwydd ag ef?' (P47, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot).

Ond mewn achosion eraill, awgrymodd y cyfranogwyr estyniadau i hyd y cynllun peilot. Yn gysylltiedig â'r trafodaethau am swm yr arian, awgrymodd rhai cyfranogwyr 'byddai llai o arian am gyfnod o amser hirach wedi bod yn ddymunol' (P43, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot). Yn yr un modd, awgrymodd rhai cyfranogwyr fod dwy flynedd yn gyfnod cymharol fyr o amser, a byddai ymestyn y peilot wedi galluogi cynnydd pellach mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, ac wedi cynyddu'r tebygolrwydd y byddai pobl ifanc yn gallu cynnal lefel yr incwm ar ôl y cynllun peilot. Yn nodedig, roedd un pennaeth gwasanaeth yn feirniadol o amser cyfyngedig llawer o'r cymorth i bobl yn gadael gofal, gan gynnwys y cynllun peilot incwm sylfaenol, ac yn eiriol dros gymorth mwy 'cynaliadwy'. Wrth wneud hynny, cyfeiriwyd at berson ifanc yr oeddent wedi cwrdd ag ef yn ddiweddar mewn digwyddiad, a ddywedodd wrthynt 'fy mywyd go iawn i yw hwn, nid arbrawf agweddau.' (P61, pennaeth gwasanaeth – diwedd y cynllun peilot).

### 4.4.3 Amodoldeb

Yn unol â chanfyddiadau adroddiad blynyddol 2023–2024 (Holland ac eraill, 2024) natur ddiamod yr incwm sylfaenol oedd y nodwedd a feirniadwyd fwyaf gan gyfranogwyr. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod llawer o gefnogwyr cynlluniau incwm sylfaenol yn dadlau bod diamodrwydd yn elfen hanfodol (Basic Income Earth Network). Nid oedd y cyfranogwyr o'r farn bod y nodwedd hon o'r cynllun peilot yn gyson â'r cymorth presennol, ac yn teimlo y dylai adlewyrchu'r rhain yn agosach, gydag 'o leiaf rhai sancsiynau neu reolau ar waith, yr un peth â'r hyn y mae Credyd Cynhwysol yn ei wneud, oherwydd eu bod yn gorfodi pobl i ymgysylltu â nhw" (P54, Cyngor ar Bopeth – diwedd y cynllun peilot).

Roedd cymariaethau fel hyn â Chredyd Cynhwysol, lle mae disgwyl i unigolion fel arfer fynd i apwyntiadau a / neu geisio cyflogaeth, yn gyffredin. Fodd bynnag, nododd rhai cyfranogwyr hefyd ddisgwyliadau i bobl ifanc mewn lleoliadau gofal estynedig 'sy'n chwilio am hyfforddiant neu mewn hyfforddiant, addysg neu gyflogaeth" (P57, rheolwr tîm – diwedd y cynllun peilot) a gofynion presenoldeb ar gyfer cael y Lwfans Cynhaliaeth Addysg. Felly, ystyrir bod y cynllun peilot incwm sylfaenol yn rhoi neges ffug i bobl ifanc, gan greu ymdeimlad o hawl, yn hytrach na chyfnewid. Dywedodd un cynghorydd personol wrthym na ddylai fod yn ddiamod 'oherwydd nid wyf yn credu y dylech chi gael arian am ddim gan nad wyf o'r farn bod

hynny'n cyfleu'r neges gywir yn yr hirdymor', oherwydd y tu allan i'r peilot 'rydych chi'n cael arian yn gyfnewid am rywbeth' (P4, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot).

Yn ogystal â bod eisiau paratoi pobl ifanc ar gyfer normau cymdeithasol yn y byd go iawn, tynnwyd sylw gan rai cyfranogwyr at anghyfartaledd gyda phobl ifanc heb brofiad o fod mewn gofal, gan wneud cymariaethau â'u plant eu hunain:

> 'Fel rhiant i blant tua'r oedran hwnnw, mae'n anhygoel credu y byddwn i'n dweud, 'Hei, dyma arian ychwanegol' heb unrhyw ganlyniad o gwbl. Nid yw'n rhywbeth y byddwn byth yn ei wneud i fy mhlentyn fy hun.' (P55, Cyngor ar Bopeth – diwedd y cynllun peilot).

Siaradodd gweithwyr proffesiynol hefyd am amodau fel ysgogiad i sicrhau bod y derbynyddion yn cael eu tywys i'r hyn yr oeddent yn ei ystyried yn ddewisiadau buddiol. Yn fwyaf cyffredin roedd hyn mewn perthynas ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, ond hefyd mewn meysydd eraill fel iechyd meddwl neu lythrennedd ariannol. Roedd yr awgrymiadau yn cynnwys gofyn am dystiolaeth o 'edrych ar hyfforddiant neu wneud rhywbeth; gwella eich iechyd meddwl ac ati' (P56, rheolwr tîm – diwedd y cynllun peilot), neu ychwanegu 'elfen o ymrwymo' megis cwrdd â chynghorydd, cwblhau cwrs cyllidebu, neu fynd i apwyntiadau i barhau i gael y taliadau (P42, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot).

Mae'n bwysig nodi nad oes angen i bobl ifanc sy'n gadael gofal ymgysylltu â chymorth ar ôl iddynt droi'n 18 oed. Felly, arhosodd yr opsiynau sydd ar gael i weithwyr proffesiynol yr un fath o dan y peilot, gyda phobl ifanc yn gallu dewis a ddylid cael cymorth a chyngor y timau gadael gofal. Serch hynny, roedd pryderon am niwed posibl y cynllun peilot yn golygu bod llawer o gyfranogwyr yn credu bod monitro gorfodol a / neu fwy o bwerau yn angenrheidiol. Yn unol â'r cysyniad o 'fiwrocratiaeth ar lefel stryd' (Lipsky, 1980), sy'n pwysleisio'r disgresiwn a arferir gan weithwyr gwasanaeth cyhoeddus rheng flaen yn eu rolau o ddydd i ddydd, awgrymodd ymarferwyr y byddai argaeledd ysgogiad ychwanegol wedi eu galluogi yn well i ddylanwadu ar ganlyniadau cadarnhaol, yn ogystal â lliniaru'r risgiau o niwed.

### 4.4.4 Opsiynau eraill

Yn ogystal â darparu adborth ar ddyluniad y peilot, awgrymodd cyfranogwyr syniadau amgen ar gyfer buddsoddi mewn pobl ifanc sy'n gadael gofal. Yn hytrach nag awgrymu mentrau newydd, cyfeiriodd sylwadau cyfranogwyr at wasanaethau a chymorth presennol, ac amlinellwyd ffyrdd y gallai buddsoddi ychwanegol gryfhau'r ddarpariaeth o fewn y system.

Yn unol ag argymhellion ar gyfer mwy o reolaeth a goruchwyliaeth broffesiynol, roedd yr awgrymiadau yn cynnwys cryfhau Cronfa Dydd Gŵyl Dewi, adnodd a gyflwynwyd yn 2017 ac a gynlluniwyd i'w ddefnyddio'n hyblyg ac yn greadigol i helpu

pobl ifanc i 'symud ymlaen tuag at annibyniaeth' (Llywodraeth Cymru, 2017). Mae'r awgrym hwn yn gyson â'r trafodaethau uchod sy'n awgrymu bod rhai gweithwyr proffesiynol eisiau mwy o reolaeth a goruchwyliaeth dros y defnydd o gymorth ariannol pobl ifanc. Yn ogystal, dywedodd rhai cyfranogwyr fod potensial i'r weithred o gynyddu'r gronfa fod o fudd i ystod eang o bobl yn gadael gofal, yn hytrach na'r lleiafrif a oedd yn gymwys ar gyfer y cynllun peilot incwm sylfaenol.

Yn gysylltiedig â hyn, awgrymodd cyfranogwyr eraill y gellid rhoi'r arian i dimau gadael gofal, gan ganiatáu i gymorth gael ei ddatblygu a'i ehangu. Er enghraifft, awgrymodd un cynghorydd personol:

> 'Pe bai'r arian hwnnw wedi cael ei rannu i'r 22 awdurdod, wedi'i roi i'n tîm gadael gofal, ein rheolwr, ac yna, ein bod wedi gallu gwneud gwaith gwahanol gyda phob un ohonynt o amgylch camddefnyddio sylweddau, o amgylch hyfforddiant ychwanegol, gallem fod wedi gwneud cymaint ag ef.' (P48, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot).

Yn gysylltiedig â'r sylw uchod, dywedodd cyfranogwyr eraill y byddai buddsoddi ychwanegol yn y gwasanaeth yn caniatáu cyflogi staff ychwanegol, lleihau llwythi achosion, a chynyddu argaeledd proffesiynol i bobl ifanc. Cynigiwyd awgrym cysylltiedig gan reolwr tîm (P27 – diwedd y cynllun peilot) a oedd am gyflogi pobl a oedd eisoes wedi gadael gofal i wella'r ddarpariaeth cymorth:

> 'Ein hwb delfrydol ar gyfer pobl yn gadael gofal, yw eu bod yn rhedeg y gwasanaeth hwn eu hunain. Maen nhw'n mynd i roi'r gwasanaeth gorau erioed oherwydd eu profiad byw, a phan fyddwn yn cynnal grwpiau mentora cyfoedion, maen nhw'n ymgysylltu mor dda, am eu bod yn deall ei gilydd. Byddan nhw'n dweud hynny wrthych chi; maen nhw'n deall eu profiadau ei gilydd. Allwn ni ddim gwneud hynny. Dydyn ni ddim yn gwybod sut beth ydyw. Dydyn ni ddim wedi byw drwy hynny a chael phrofiad ohono. Felly, rwy'n credu y dylid buddsoddi mewn gwasanaethau a fydd yn cael eu harwain gan bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal sy'n gallu dweud wrthym sut beth yw bod yn gadael gofal, dod allan fel rhiant ifanc, neu'n gadael gofal ac yn dod allan o'r ddalfa, ac yna datblygu'r gwasanaethau hynny rydyn ni'n debygol o'u colli, gan nad oes gennym yr adnoddau a'r cyllid ar hyn o bryd, mewn gwirionedd.' (P27, rheolwr tîm – diwedd y cynllun peilot).

Mewn enghreifftiau eraill, awgrymodd cyfranogwyr y dylid defnyddio'r arian i annog rhagolygon gyrfa pobl ifanc trwy greu lleoliadau gwaith a phrentisiaethau. Er enghraifft, awgrymodd un cynghorydd personol:

> 'Pe bai'r arian yn cael ei ddefnyddio rywsut i'w roi i gyflogwyr, boed hynny'n grefftwyr neu debyg, dylen nhw gael £1,600 y mis, a'r person ifanc wedyn yn cael rhywbeth fel £600 y mis o hynny; felly, maen nhw'n dysgu crefft. Mae'r cyflogwr yn cael ei dalu i gael rhywun y gallant ei hyfforddi. Rwy'n credu bod gennych ganlyniadau gwell ar gyfer cyflogadwyedd ac ati os ydych chi'n ei

> ddefnyddio fel cymhorthdal, boed hynny'n lleoliad gwaith neu swydd gyflogaeth.' (P4, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot).

Mewn perthynas ag awgrymiadau ar gyfer mwy o argaeledd cyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, nododd un pennaeth gwasanaeth y potensial i ddatblygu cyfleoedd 'ystyriol o drawma' er mwyn cynyddu cynhwysiant a hygyrchedd i bobl sy'n gadael gofal.

Ond i eraill, buddsoddi mewn tai oedd yr angen mwyaf dybryd:

> 'Tai, heb amheuaeth.  Rhywfath o dai, rhai fflatiausymud ymlaen efallai ar gyfer pobl 18–21 oed, neu rywbeth y gallwn weithio gyda nhw i geisio cael arian tai yn annibynnol nad oedd ar gyfer pawb arall, dim ond ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal.' (P43, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot).

> 'Tai, dim ond tai, cymaint mwy o dai. Does dim byd o gwbl. Fodd bynnag, ynghyd â'r tai, rwy'n credu y dylid cael cymorth ychydig mwy manwl ynghylch sut yr ydych chi'n rhedeg eich tŷ.' (P45, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot).

Mae'n bwysig nodi bod yr awgrymiadau hyn wedi'u gwneud ar y pryd, ac efallai eu bod wedi esblygu gyda mwy o amser i fyfyrio. Serch hynny, maent yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar feysydd trafod a phryder rheolaidd. Mae'r sylwadau yn adlewyrchu dymuniad cyfranogwyr am fwy o oruchwyliaeth o sut y defnyddiwyd arian, ac am lwybrau cryfach i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Maent hefyd yn tynnu sylw at bryderon am degwch ac awydd i leihau anfantais i'r mwyafrif yn hytrach na chanolbwyntio adnoddau ar leiafrif bach o bobl sy'n gadael gofal. Yn olaf, mae'r awgrymiadau yn cyfeirio at heriau systemig ehangach ac annigonolrwydd canfyddedig gwasanaethau presennol.

# Canfyddiadau 3: Damcaniaeth y rhaglen a'r model rhesymeg wedi'u diweddaru

## 5.1 Adolygu damcaniaeth y rhaglen a model rhesymeg

Mae'r adran hon yn archwilio sut a pham y disgwylir i'r cynllun peilot gynhyrchu canlyniadau cadarnhaol i dderbynyddion ac ym mha amgylchiadau. Yn adroddiad blynyddol cyntaf 2023–2024, cyflwynwyd damcaniaeth gychwynnol y rhaglen yn disgrifio sut y gellir disgwyl i'r cynllun peilot weithio (Holland ac eraill, 2024). Roedd damcaniaeth gychwynnol y rhaglen yn ystyried sut y gallai darparu adnoddau i dderbynyddion (taliadau incwm sylfaenol a chyngor ariannol) newid y ffordd y maent yn meddwl ac yn teimlo (er enghraifft, mwy o ymdeimlad o ymreolaeth, galluogedd a sicrwydd) ac arwain at ystod o ganlyniadau o ddiddordeb (er enghraifft, gwell llesiant). Datblygwyd y ddamcaniaeth gychwynnol o ddogfennau polisi gan gynnwys model rhesymeg drafft a ddatblygwyd trwy weithdy damcaniaeth rhaglenni a gynhaliwyd gydag aelodau o'r grwpiau gweithredol a llywio. Fe'i llywiwyd hefyd gan fodel rhesymeg presennol yr oedd cydweithwyr wedi'i ddatblygu o amgylch canlyniadau iechyd (Johnson ac eraill, 2022) a chanfyddiadau adolygiadau systematig diweddar a edrychodd ar effaith incwm sylfaenol (de Paz-Banez ac eraill, 2020; Gibson ac eraill, 2018; Hasdell 2020; Jones 2021; Yang ac eraill, 2021). Mae'r ffynonellau hyn yn darparu man cychwyn defnyddiol ar gyfer datblygu ein dealltwriaeth o sut y gall y peilot weithredu: mae dogfennau polisi yn amlinellu rhesymeg llunwyr polisi dros y peilot, tra bod yr adolygiadau systematig a'r model rhesymeg presennol yn cynnig cipolwg pwysig ar gynlluniau peilot incwm sylfaenol ledled y byd.

Mae gan y cynllun peilot sawl nodwedd sy'n ei gwneud yn unigryw (er enghraifft, roedd taliadau ar gael i garfan genedlaethol o bobl yn gadael gofal, darparwyd swm uchel o incwm sylfaenol, a darparwyd y cynllun peilot mewn cyd-destun datganoledig) ac nid oedd canfyddiadau'r adolygiadau systematig yn uniongyrchol berthnasol. Ar ben hynny, nid oedd damcaniaeth gychwynnol y rhaglen yn cynnwys data empirig o'r cynllun peilot. O ganlyniad, cyflwynodd y ddamcaniaeth ddealltwriaeth rannol ac anghyflawn o sut, pam ac ar gyfer pwy y mae'r peilot yn gweithio. Rydym bellach wedi adolygu damcaniaeth gychwynnol y rhaglen gan ddefnyddio'r data ansoddol a gasglwyd yn y cynllun peilot. Mae hyn wedi creu dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o sut y credir bod y peilot yn cynhyrchu canlyniadau cadarnhaol i dderbynyddion, a pham y gall weithio'n wahanol i wahanol bobl ac mewn gwahanol sefyllfaoedd. Er enghraifft, mae damcaniaeth y rhaglen, sydd wedi'i mireinio, yn ystyried sut y mae gwendidau a rhwydwaith cymorth derbynyddion yn dylanwadu ar eu profiadau a'u canlyniadau ar y peilot.

## 5.2 Crynodeb o ddamcaniaeth gychwynnol y rhaglen

Amlinellodd damcaniaeth gychwynnol y rhaglen brif elfennau'r ymyriad (swm yr arian a ddarparwyd, a hyd ac amlder y taliadau) a cheisiwyd esbonio'r mecanweithiau y disgwylid fel y gellid cynhyrchu'r canlyniadau o ddiddordeb. Crëwyd model rhesymeg i ddangos y llwybrau achosol disgwyliedig (gweler Ffigur 2). Roedd hyn yn awgrymu bod y taliadau yn galluogi derbynyddion i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol yn haws a chynyddu eu hincwm gwario. O ganlyniad, disgwylid i dderbynyddion gael mwy o ymdeimlad o ymreolaeth, galluogedd a sicrwydd, mwy o reolaeth dros sut y maen nhw'n treulio eu hamser a mwy o allu i feddwl ymlaen at eu dyfodol. Awgrymwyd y byddai'r cyfleoedd hyn yn arwain at ystod o ganlyniadau (er enghraifft, gwell llesiant a gwell mynediad i'r farchnad lafur ac addysg; Johnson ac eraill, 2022; Reed ac eraill, 2024).

Wrth ddatblygu'r model rhesymeg roedd nifer o fylchau yn ein dealltwriaeth o sut y mae'r peilot yn gweithio. Er enghraifft, cynigiwyd cyngor ariannol arbenigol i dderbynyddion ochr yn ochr â'r taliadau incwm sylfaenol, ac roedd tystiolaeth gyfyngedig ar sut y mae cynlluniau tebyg yn gweithredu. Rydym yn rhagdybio y byddai'r cyngor ariannol, a ddarparwyd gan Gyngor ar Bopeth ym mwyafrif yr awdurdodau lleol, yn cynyddu gwybodaeth derbynyddion ynghylch sut i reoli eu cyllid ac yn eu harwain i deimlo'n fwy hyderus yn eu penderfyniadau ariannol (Johnson ac eraill, 2025). Fodd bynnag, roedd angen archwilio'r llwybr achosol hwn gyda data empirig o'r cynllun peilot. Wrth ddatblygu'r ddamcaniaeth gychwynnol, nid oedd yn glir ar adegau pa mor berthnasol oedd agweddau ar y llenyddiaeth ryngwladol i'r peilot. Er enghraifft, awgrymodd y llenyddiaeth y gall cynlluniau peilot incwm sylfaenol gynyddu mynediad derbynyddion at wasanaethau iechyd, gan gynnwys y rhai sydd â thâl, fel optometreg (Johnson ac eraill, 2019). Fodd bynnag, mae'n debygol bod y cysylltiad hwn yn gryfach mewn gwledydd sydd â gofal iechyd a ariennir yn breifat, felly roedd angen archwilio hyn yng nghyd-destun Cymru lle mae mwyafrif y gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu hariannu'n gyhoeddus, ac yn rhad ac am ddim lle y'u defnyddir.

Mae'r llwybrau achosol a gyflwynir yn namcaniaeth gychwynnol y rhaglen bellach wedi'u mireinio gan ddefnyddio data empirig a gasglwyd yn y cynllun peilot (gweler Adran 2 am fanylion y fethodoleg) ac mae model rhesymeg wedi'i ddiweddaru ar gael (gweler Ffigur 3). Mae'r data wedi ymestyn ein dealltwriaeth o sut y mae'r cynllun peilot yn gweithredu, wedi cynnig cymorth neu her i'r llwybrau achosol yn namcaniaeth gychwynnol y rhaglen, a chyflwyno syniadau newydd i'w hystyried.

## 5.3 Damcaniaeth ddiwygiedig y rhaglenni

Yn yr adran hon, trafodir y 12 llwybr achosol yn namcaniaeth ddiwygiedig y rhaglen, ac rydym yn tynnu sylw at y cipolygon ar y mewnwelediadau o'r data empirig. Mae dyfyniadau wedi'u cynnwys o gyfweliadau a grwpiau ffocws gyda derbynyddion a gweithwyr proffesiynol sy'n rhan o'r cynllun peilot. Ar ddiwedd yr adran, crynhoir y

llwybrau achosol diwygiedig Atodiad D yn amlinellu'r diwygiadau sydd wedi'u gwneud i ddamcaniaeth gychwynnol y rhaglen.

### 5.3.1 Llwybr 1: Bydd y cynllun peilot yn cynyddu cyfranogiad derbynyddion mewn gweithgareddau sy'n bwysig iddynt.

Awgrymodd damcaniaeth gychwynnol y rhaglen y byddai'r incwm sylfaenol yn cynyddu incwm gwario derbynyddion a'u hymdeimlad o ymreolaeth, galluogedd a sicrwydd, ac yn arwain at fwy o gyfranogiad mewn 'gweithgareddau ystyrlon' (Common Sense Policy Group, 2025). Gweithgareddau ystyrlon yw'r rhai y mae gan unigolyn y rhyddid i gymryd rhan ynddynt ac yn eu galluogi i fyw'r math o fywyd y mae ganddynt reswm i'w werthfawrogi (Sen 1999; Van Parijs, 1997). Roedd y data empirig yn cefnogi'r llwybr hwn gan fod y cyfranogwyr a oedd yn bobl ifanc yn teimlo bod ganddynt fwy o ddewis a rheolaeth dros sut y gwnaethant dreulio eu hamser tra'u bod yn rhan o'r cynllun peilot. Disgrifiodd un y teimlad o fod yn rhydd o'r cyfyngiadau yr oeddent yn eu teimlo cyn y cynllun peilot, a 'gallu gwneud yr hyn yr oeddwn i'n ei ddymuno, a byw fy mywyd fel yr oeddwn i eisiau, a wnaeth i mi deimlo'n dda' (PI46 – diwedd y cynllun peilot). Dywedodd un arall wrthym sut yr oedd mynd allan 'llawer mwy' yn golygu ei fod 'mewn gwirionedd yn byw bywyd, nid dim ond yn goroesi' (PI63 – diwedd y cynllun peilot). Aeth y cyfranogwr ymlaen i ychwanegu bod ymweld â theulu yn rhan o hyn, a disgrifiwyd treulio mwy o amser gyda theulu a ffrindiau, a defnyddio'r incwm sylfaenol i gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'i gilydd gan lawer o bobl eraill:

> 'Roeddwn i'n llawer mwy cymdeithasol [pan oeddwn yn rhan o'r cynllun peilot], fel y byddwn i'n mynd allan a threulio amser gyda ffrindiau gan fod gen i'r arian i wneud hynny. Byddwn i'n mynd allan i fwyta yn eithaf aml, er mwyn rhoi rhywbeth neis i mi fy hun.' (PI53 – diwedd y cynllun peilot).

Roedd hyn yn bosibl gan ei fod yn gallu talu am weithgareddau heb ddibynnu ar eraill am gymorth ariannol:

> 'Roeddwn i'n gallu bod yn annibynnol, oherwydd roedd gen i ddigon o arian i dalu fy miliau fy hun, prynu fy mwyd fy hun, prynu fy niod fy hun, mynd i wneud gweithgareddau gyda fy ffrindiau, heb angen arian gan y llywodraeth neu'r cyngor, y teulu, neu ffrindiau ac ati. Gallwn ei wneud ar fy mhen fy hun. Ond yn anffodus nid oes gennyf y math hwnnw o ryddid mwyach nawr fy mod i ddim yn cael y BIP.' (PI47 – diwedd y cynllun peilot).

Trafododd pobl ifanc hefyd sut y defnyddiwyd yr incwm sylfaenol i gymryd rhan mewn gweithgareddau eraill megis dysgu sut i yrru (trafodwyd ymhellach yn llwybr achosol 6) a dilyn diddordebau a gwirfoddoli. Yn y model rhesymeg cychwynnol, roedd treulio amser gyda theulu a ffrindiau, a chymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon yn fecanweithiau ar wahân, ond treulio amser gydag eraill oedd y gweithgaredd ystyrlon a ddyfynnwyd amlaf. Oganlyniad, cyfunwyd y mecanweithiau yn y model rhesymeg diwygiedig.

Fel yr awgrymwyd yn y model rhesymeg cychwynnol, dywedodd pobl ifanc fod gallu 'mynd allan mwy' (PI17 – dechrau'r cynllun peilot) a 'gwneud pethau' (PI18 – dechrau'r cynllun peilot) gydag eraill wedi gwella eu llesiant a'u perthnasoedd:

> 'O ran fy llesiant, mae'n wych nad oes rhaid i mi feddwl, 'O, galla' i ddim gwneud hyn; sori, bawb Galla' i ddim gwneud hyn gan nad oes gen i ddigon o arian ar hyn o bryd', ond rwy'n gwybod bod gen i ddigon nawr ac mae fy llesiant yn gwella yn yr ystyr y galla' i weld fy ffrindiau.' (PI22 – dechrau'r cynllun peilot).

Mae'n amlwg bod y bobl ifanc yn mwynhau bod yn fwy cymdeithasol ar y cynllun peilot, a myfyrioedd un cyfranogwr proffesiynol gan ddweud ei fod wedi lleihau'r ymdeimlad o fod yn ynysig ac unigrwydd derbynyddion:

> 'Rwy'n credu ei fod yn bendant wedi bod o fudd i bobl ifanc sydd wedi cael y cyllid i allu mynd i gwrdd â ffrindiau yn amlach, ac felly lleihau'r ymdeimlad o fod yn ynysig.' (P66, rheolwr tîm – diwedd y cynllun peilot).

Roedd y canfyddiadau hyn yn cefnogi'r llwybr arfaethedig yn namcaniaeth gychwynnol y rhaglen, ac ni wnaed unrhyw newidiadau pellach.

### 5.3.2 Llwybr 2: Bydd y cynllun peilot yn cynyddu gwariant derbynyddion yn y gymuned

Roedd damcaniaeth gychwynnol y rhaglen yn rhagdybio y byddai derbynyddion yn teimlo mwy o ymdeimlad o ymreolaeth, galluogedd a sicrwydd, ac yn cynyddu eu gwariant yn y gymuned leol (Howard ac eraill, 2025). Cefnogwyd y llwybr hwn gan y data wrth i'rcyfranogwyr a oedd yn bobl ifanc adrodd bod eu gwariant wedi cynyddu wrth iddynt wneud mwy o weithgareddau (llwybr achosol 1) a gwario mwy ar eitemau nad oedd yn hanfodol. Fel y nodwyd uchod, rhoddodd y cynllun peilot y modd ariannol i dderbynyddion gymryd rhan mewn gweithgareddau yn eu hardal leol, ac roedd llawer yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i wneud hynny, gan arwain at fwy o ymgysylltiad cymunedol. Ar ôl i'r peilot ddod i ben, disgrifiodd y cyfranogwyr a oedd yn bobl ifanc eu bod yn mynd allan yn llai aml, ac yn cymryd rhan mewn llai o weithgareddau: 'Nawr, os yw pobl yn mynd allan, ni allaf ymuno â nhw gan nad wyf yn gallu fforddio'r costau teithio. Mae'n cyfyngu ar fy ngallu i fod yn gymdeithasol nawr bellach' (PI47 – diwedd y cynllun peilot). Nododd un arall yr effaith ar iechyd meddwl, gan ddweud, 'Wrth eistedd i lawr heb arian, ni allwch hyd yn oed fynd allan am dro i'r siop; bydd hynny'n cael effaith ar eich iechyd meddwl, yn enwedig pan fyddwch yn byw ar eich pen eich hun' (PI40 – diwedd y cynllun peilot).

Dywedodd llawer o bobl ifanc eu bod yn teimlo eu bod yn gallu rhoi rhywbeth neis i'w hunain o bryd i'w gilydd tra'u bod yn rhan o'r cynllun peilot, gan brynu ffonau newydd, consolau gemau neu ddillad. Disgrifiodd un brynu 'rhywbeth neis unwaith y mis', a dywedodd, tra'i fod yn rhan o'r cynllun peilot, 'nid oes rhaid iddynt bob amser fod yn ddrud iawn. Does dim rhaid iddynt bob amser fod yn rhad iawn' (PI13 –

dechrau'r cynllun peilot). Disgrifiodd un arall siopa, trin ei hewinedd, a gwario 'rhywfaint o arian ar aelodau o'r teulu' (PI40 – diwedd y cynllun peilot).

Rhoddodd cyfranogwyr proffesiynol asesiadau cyferbyniol o wariant o'r fath. Roedd rhai yn ei ystyried yn anghyfrifol, gan ddweud, 'Maen nhw'n gwario eu harian ym mhob cyfeiriad. Maen nhw'n mynd ar wyliau, maen nhw'n yfed mwy. Maen nhw'n prynu esgidiau.' (P6, cynghorydd personol – dechrau'r cynllun peilot). Roedd eraill yn ei weld yn fwy cadarnhaol, gan hwyluso profiadau, 'na fyddent byth wedi gallu eu cael heb y BIP' (P25, rheolwr tîm – diwedd y cynllun peilot), a lleihau'r gwahaniaeth rhwng cyfoedion nad ydynt wedi cael profiad o fod mewn gofal:

> 'Pobl ifanc ag arian yn eu poced i allu mynd i'r dref â cherdyn banc, fel gweddill y byd, i siop a phrynu pâr o esgidiau Nike iddyn nhw eu hunain, oherwydd gallant eu fforddio, yn yr un modd â'u ffrindiau.' (P21, pennaeth gwasanaeth – dechrau'r cynllun peilot).

Awgrymwyd bod yr incwm sylfaenol yn galluogi derbynyddion i gael mynediad at 'bethau arferol, nodweddiadol' (P20, pennaeth gwasanaeth – dechrau'r cynllun peilot), a lleihau eu hymdeimlad o fod yn wahanol i'w cyfoedion. Mae hyn wedi'i ychwanegu fel mecanwaith (ymateb) i ddamcaniaeth ddiwygiedig y rhaglen.

Fel yr adroddwyd yn Adran 3.2, dywedodd y cyfranogwyr a oedd yn bobl ifanc fod gallu prynu pethau braf iddyn nhw eu hunain yn cynyddu eu hyder a'u hunan-barch, ac o fudd i'w llesiant:

> 'Dyna un peth y gallaf ei wneud nawr, sef prynu dillad sy'n gwneud i mi deimlo'n dda. Ac, o ... lliwio fy ngwallt. Cael fy holl ewinedd wedi'u gwneud. Nid oeddwn yn gallu gwneud pethau fel hynny gymaint o'r blaen. Oherwydd, pan fyddwn yn eu gwneud,byddwn i'n poeni ynglŷn â faint fyddai gen i ar ôl. Nawr, gallaf wneud i mi deimlo'n well, drwy wneud y pethau hyn. Mae'n gwella eich hyder ac yn gwneud i chi deimlo'n dda, yn gwneud i chi deimlo'n well.' (PI14 – dechrau'r cynllun peilot).

Mae'r llwybr achosol wedi'i ddiweddaru yn y model rhesymeg diwygiedig i ychwanegu cysylltiad rhwng mwy o wariant yn y gymuned a gwell llesiant.

Roedd damcaniaeth gychwynnol y rhaglen yn cydnabod y byddai gwariant derbynyddion yn y gymuned yn cynyddu mewn cyd-destunau lle'r oedd ganddynt gostau y gellid eu rheoli. Roedd hyn yn amlwg yn y data gan fod gan rai cyfranogwyr a oedd yn bobl ifanc lawer llai o incwm gwario oherwydd eu hamgylchiadau; er enghraifft, costau uchel o ran tai. Fel yr amlygwyd yn adroddiad blynyddol 2023–2024 (Holland ac eraill, 2024), roedd cyfranogwyr proffesiynol yn arbennig o bryderus am y costau uchel yr oedd derbynyddion yn eu talu am lety â chymorth, ac roedd hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd a oedd ar gael iddynt a'u penderfyniadau gwario.

### 5.3.3 Llwybr 3: Bydd y cynllun peilot yn lleihau cyfranogiad derbynyddion mewn troseddu

Yn namcaniaeth gychwynnol y rhaglen, roedd disgwyl i gyfranogiad derbynyddion mewn troseddu fel dioddefwyr a throseddwyr leihau gan fod yr incwm sylfaenol yn helpu i leihau caledi ariannol, a all fod yn sbardun i rai mathau o droseddu. Roedd yn amlwg yn y cyfweliadau bod nifer o'r cyfranogwyr a oedd yn bobl ifanc wedi profi perthnasoedd ecsbloetio wrth i eraill fanteisio arnynt a cheisio cael mynediad at eu hincwm sylfaenol (gweler Adran 3.6). Roedd y cyfranogwyr proffesiynol yn pryderu bod incwm sylfaenol wedi cynyddu'r risg o ecsbloetio i rai derbynyddion a oedd â gwendidau a oedd yn bodoli eisoes, neu rwydwaith cymorth cyfyngedig:

> 'Pan fyddaf yn meddwl am yr enghreifftiau o bobl ifanc lle'r ydyn ni wedi bod yn poeni am ecsbloetio, efallai nad ydyn nhw wedi cael y rhwydwaith cymorth hwnnw yn 18 oed, ac efallai eu bod mewn llety dros dro, yn cymysgu â gwahanol fathau o bobl.' (P67, rheolwr tîm – diwedd y cynllun peilot).

> 'Mae'n debyg bod eu hiechyd meddwl yn wael; roedd yn wael yn y lle cyntaf, felly mae pobl wedi manteisio'n llwyr arno ac y mae wedi bod yn anodd iawn gwylio rhai, ac nid yn unig gwylio, ond bod yn rhan ohono.' (P45, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot).

Mae gwendidau sydd yn bodoli eisoes a rhwydwaith cymorth derbynyddion wedi'u hychwanegu at ddamcaniaeth ddiwygiedig y rhaglen fel ffactorau cyd-destunol a all ddylanwadu ar y tebygolrwydd o dderbynyddion fod yn ddioddefwyr troseddu.

Ni thrafodwyd ymwneud â throseddu gan y cyfranogwyr a oedd yn bobl ifanc a gymerodd ran yn y cyfweliadau. Yn y grwpiau ffocws, bu'r cyfranogwyr proffesiynol yn trafod derbynyddion a oedd wedi cyflawni troseddau tra'u bod yn rhan o'r cynllun peilot. Mewn sawl achos, canfyddwyd bod yr incwm sylfaenol wedi cynyddu gallu derbynnydd i brynu cyffuriau ac, o bosibl, wedi gwaethygu eu cyfranogiad mewn gweithgareddau troseddol:

> 'Mae gen i berson ifanc arall sydd yn y carchar ar hyn o bryd. Nid wyf yn meddwl bod hynny'n ganlyniad uniongyrchol i'r cynllun peilot incwm sylfaenol, ond roedd yn sicr yn defnyddio'r arian yr oedd yn ei gael i dalu am fwy a mwy o gyffuriau, ac yna'n gwerthu. Roedd fel petai wedicreu'r ymerodraeth hon, ac yn y pen draw fe'i daliwyd. Felly, mae e bellach yn y carchar.' (P45, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot).

Mae'r enghraifft hon yn dangos pa mor anodd oedd hi i weithwyr proffesiynol farnu pa rôl a chwaraeodd y cynllun peilot, a mynegodd rheolwr tîm deimlad tebyg:

> 'Cafodd ei ddal yn eithaf cyflym. Ond a fyddai wedi troi at hynny beth bynnag? Pwy a ŵyr, ond roedd ganddo'r modd i barhau i oroesi, parhau i fyw fel yr oedd yn ei ddymuno, ac yna dod yn ddeliwr cyffuriau.' (P57, rheolwr tîm – diwedd y cynllun peilot).

Mae gwybodaeth rheoli incwm sylfaenol (Llywodraeth Cymru, 2024) yn dangos bod taliadau lleiafrif o dderbynyddion (n=25; 4%) wedi'u hatal neu nad oeddent yn gallu cymryd rhan yn y cynllun peilot gan eu bod wedi cael eu dedfrydu i'r carchar. Yn absenoldeb grŵp cymharu addas, nid yw'n bosibl penderfynu a oedd nifer y derbynyddion a gafodd eu dedfrydu'r i'r carchar yn uwch neu'n is nag a fyddai wedi bod heb yr incwm sylfaenol. Yn ogystal, nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael am y mathau o droseddau a gyflawnwyd gan dderbynyddion, na hyd y dedfrydau carchar, ac ni chasglwyd unrhyw ddata ar ganlyniadau cyfiawnder troseddol eraill (fel dirwyon neu ddedfrydau cymunedol). Mae angen ymchwil bellach i benderfynu a ydyw, ac ym mha ffyrdd, y gall darpariaeth incwm sylfaenol ffurfio rhyngweithiadau derbynyddion yn unol â'r system cyfiawnder troseddol.

### 5.3.4 Llwybr 4: Bydd y cynllun peilot yn lleihau profiad derbynyddion o dlodi

Er bod Llywodraeth Cymru wedi parhau i fod yn agnostig ynghylch effeithiau tebygol neu fwriadol y cynllun peilot, cynigiodd damcaniaeth gychwynnol y rhaglen a ddatblygwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn y byddai'r incwm sylfaenol yn lleihau'r profiad o dlodi i dderbynyddion. Dywedodd y cyfranogwyr a oedd yn bobl ifanc fod yr incwm sylfaenol yn ei gwneud hi'n haws diwallu eu hanghenion sylfaenol (gan gynnwys rhent, biliau a bwyd). Dywedodd un, 'Mae hyn wedi fy helpu i gael fy mywyd at ei gilydd, gan wybod bod gen i'r cymorth ychwanegol hwnnw, ac arian ar gyfer bwyd, dŵr, pethau ar gyfer fy nhŷ, a darparu ar gyfer fy nheulu" (PI12 – dechrau'r cynllun peilot). Dywedodd un arall: 'Mae'n dda cael yr arian fel y gallaf fyw yn rhywle a chael bwyd a phethau. Os oes angen meddyginiaeth neu unrhyw beth, rwy'n talu am hynny; neu gallai fod angen i'm ci fynd at y milfeddyg. Gallaf dalu am hynny.' (PI41 – dechrau'r cynllun peilot). Roedd y profiadau ar ôl y cynllun peilot yn amrywio, gyda rhai o'r cyfranogwyr a oedd yn bobl ifanc yn cael Credyd Cynhwysol ac yn cael trafferth talu eu costau byw hanfodol. Dywedodd un person ifanc: 'Nid wyf wedi gallu talu fy miliau y mis hwn,' (PI65 – diwedd y cynllun peilot), ac esboniodd un arall:

> 'Ers peidio â chael y taliad incwm, rydw i wedi cael trafferth mawr gydag arian. Bu'n rhaid i mi anfon neges at [enw'r cynghorydd personol] ychydig wythnosau yn ôl, gan nad oedd gen i arian yn fy nghyfrif banc. Doeddwn i ddim yn gallu fforddio unrhyw beth. Felly, bu'n rhaid iddi ddod â thaleb Tesco a'i bostio trwy fy nrws dim ond er mwyn i mi allu prynu bwyd.' (PI71 – diwedd y cynllun peilot).

Dywedodd y gweithwyr proffesiynol hefyd fod rhai pobl ifanc yn cael trafferth yn ariannol i ddiwallu eu hanghenion ar ôl y cynllun peilot oherwydd y gostyngiad mewn incwm, er bod profiadau'n gymysg, yn dibynnu ar amgylchiadau, bregusrwydd a gwydnwch pobl ifanc (gweler Adran 4.3 am drafodaeth gynharach).

### 5.3.5 Llwybr 5 Bydd y cynllun peilot yn cael effaith anuniongyrchol ar dlodi eraill

Mae llwybr newydd wedi'i ychwanegu i gydnabod y gallai'r cynllun peilot gael effaith anuniongyrchol ar dlodi eraill. Fel y trafodwyd yn Adran 3.6, dywedodd y cyfranogwyr a oedd yn bobl ifanc yn aml eu bod yn cynnal y rhai a oedd yn agos atynt yn ariannol. Roedden nhw'n gwerthfawrogi'r rhyddid a bod ganddynt y modd i 'helpu' pan fyddai aelod o'r teulu, partner neu ffrind yn cael trafferthion (PI22 – dechrau'r cynllun peilot), ac roedd llawer hefyd yn mwynhau rhoi eitemau newydd i deulu a ffrindiau, fel dillad, neu dalu am bryd o fwyd allan:

> 'Byddwn i'n dadlau gyda fy mam dros bwy fyddai'n talu am ei siopa hi, neu byddwn i'n talu am frecwast neu ginio ac ati pe byddwn yn cynnig mynd â hi neu ffrindiau allan ac ati. Os ydwyf yn cynnig mynd â nhw allan, gallaf dalu.' (PI39 – diwedd y cynllun peilot).

Fodd bynnag, ar ddiwedd y cynllun peilot, roedd rhai yn feirniadol o'u penderfyniadau gwario ac yn edifarhau o ran faint yr oeddent wedi'i wario ar eraill. Dywedodd un y byddai'n 'gwneud popeth yn wahanol' pe bai'n cael ei amser eto, ac yn edifarhau rhoi arian i 'bobl dwp', a phrynu 'pethau twp': 'Ni fyddwn wedi bod mor esgeulus ag ef' (PI56 – diwedd y cynllun peilot). Defnyddiodd un arall hefyd y gair 'twp' i ddisgrifio sut yr oedd wedi ei ddefnyddio, gan fyfyrio ei bod 'yn gyson yn rhoi benthyg arian, a fwy na thebyg ddim yn ei gael yn ôl.' (PI70 – diwedd y cynllun peilot). Roedd gan hyn ganlyniadau negyddol eraill. Roedd rhai cyfranogwyr a oedd yn bobl ifanc wedi teimlo pwysau i roi benthyg neu wario ar eraill, ac roedd hyn wedi creu tensiynau ac anawsterau yn eu perthnasoedd, ac wedi effeithio'n negyddol ar eu hiechyd meddwl (gweler Adran 3.6). Fel y trafodwyd yn Adran 5.3.3, roedd y cyfranogwyr proffesiynol yn pryderu bod derbynyddion â gwendidau a oedd yn bodoli eisoes, a rhwydweithiau cymorth cyfyngedig mewn mwy o berygl o gael eu hecsbloetio. Mae'r ffactorau hyn wedi'u hychwanegu at ddamcaniaeth y rhaglen, sydd wedi'i mireinio.

### 5.3.6 Llwybr 6: Bydd y cynllun peilot yn gwella sgiliau rheoli arian derbynyddion

Fel yr adroddwyd yn Adran 3.7, roedd tystiolaeth bod gwybodaeth a hyder mewn gwneud penderfyniadau ariannol rhai cyfranogwyr wedi gwella wrth i'w llythrennedd ariannol ddatblygu dros amser, a gyda phrofiad o'r taliadau. Fodd bynnag, roedd sawl un yn teimlo nad oeddent wedi datblygu sgiliau cyllidebu cryf ar y cynllun peilot gan fod y taliadau yn diwallu eu hanghenion sylfaenol yn gyfforddus, gyda hyn yn golygu nad oedd angen iddynt fod yn arbennig o ymwybodol o'r gyllideb. I'r bobl hyn, datblygodd eu sgiliau rheoli arian ymhellach ar ôl i'r cynllun peilot ddod i ben, gan fod eu taliadau Credyd Cynhwysol yn llawer is ac yn gofyn iddynt fod 'yn ofalus iawn' â'u harian (PI47 – diwedd y cynllun peilot).

Cafodd pobl ifanc brofiadau cymysg o ymgysylltu â Chyngor ar Bopeth (gweler Adran 3.8.2 am drafodaeth bellach). Nid oedd llawer o'r cyfranogwyr yn gallu cofio cwrdd â Chyngor ar Bopeth, tra bod eraill wedi cael help, er enghraifft, i osod cyllideb, cwblhau ffurflenni ar gyfer ad-daliad treth, neu wneud cais am Gredyd Cynhwysol ar ddiwedd y cynllun peilot. Dywedodd nifer o weithwyr proffesiynol Cyngor ar Bopeth fod ymgysylltu wedi bod yn gyfyngedig, gyda lleiafrif bach o dderbynyddion yn defnyddio'r gwasanaeth sawl gwaith yn ystod y cynllun peilot:

> 'Rydw i wedi cael rhai achosion bach iawn lle rydw i wedi ymwneud â pherson ifanc, nid yn barhaus, ond maen nhw'n cysylltu o bryd i'w gilydd. Ond prin iawn yw hynny. Fel arfer, ni sy'n mynd ar eu hôl nhw, a gofyn a allwn ni eu helpu. Dyma beth rydyn ni'n ei wneud. Mae'n rhaid eich bod chi'n wynebu'r pethau hyn ar hyn o bryd. Os oes unrhyw un ohonynt yn berthnasol, rhowch wybod i ni. Ac ychydig iawn o ymgysylltu.' (P55, Cyngor ar Bopeth – diwedd y cynllun peilot).

> 'Yn y bôn, ar ôl iddyn nhw ymgofrestru, doeddwn i ddim wir yn clywed ganddyn nhw. Byddwn i'n anfon negeseuon e-bost atynt bob chwe mis, efallai, i wirio eu bod yn iawn, neu anfon neges destun atynt. Ti'n gwybod? Fe'u cynghorwyd i gysylltu â mi, neu eu cynghorydd personol, pe byddai ganddyn nhw broblemau, ond mae'n amlwg eu bod wedi colli cysylltiad â nhw drwy gydol y cynllun.' (P54, Cyngor ar Bopeth – diwedd y cynllun peilot).

Ymddengys bod y rhwydwaith cymorth o gyfranogwyr a oedd yn bobl ifanc wedi bod yn ffactor pwysig o ran datblygu sgiliau rheoli arian. Roedd hyn yn cynnwys yr arferion rheoli arian yr oedd pobl ifanc wedi gweld eu teulu a'u gofalwyr yn eu defnyddio wrth iddynt dyfu i fyny, a'r cyngor a gawsant tra'u bod yn rhan o'r cynllun peilot. Fel y dywedodd un person ifanc, 'Mae'n dibynnu, mewn gwirionedd, pwy sydd wedi eich magu chi. O'm rhan i, rydw i wedi dysgu sut i arbed arian. Sut i arbed arian yn ofalus ac ati.' (PI5 – dechrau'r cynllun peilot). Roedd rhai gweithwyr proffesiynol yn cytuno:

> 'Byddwn i'n dweud bod y bobl ifanc sydd wedi bod, dyweder, mewn lleoliad maeth sydd wedi mynd ymlaen i 'Pan fydda i'n barod', ac yn fwy sefydlog ei byd, ac wedi cael mwy o gefnogaeth o'u cwmpas. Mae'n debyg eu bod wedi gweld sut y mae bywyd oedolyn yn gweithio. Rwy'n teimlo eu bod wedi ymateb yn well iddo, oherwydd maen nhw wedi cael yr arweiniad gwirioneddol hwnnw gan oedolyn byw, mae'n debyg, y maen nhw'n ei adnabod ers blynyddoedd mawr, ac yn ei cynorthwyo yn hyn o beth.' (P3, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot).

Teimlwyd bod cyngor ariannol yn arbennig o werthfawr pan fyddai'n cael ei ddarparu gan oedolion a oedd yn gyson ac yn gefnogol ym mywyd y derbynnydd. Rhoddwyd enghreifftiau gan gyfranogwyr a oedd yn bobl ifanc o'r adegau pan oeddent wedi

gweithredu ar gyngor gan y teulu neu ofalwyr, megis datblygu cyllideb fisol, agor cyfrif cynilo neu fuddsoddi eu cynilion:

> ‘Rwy’n meddwl, pan oeddwn i tua 18 oed, o leiaf y cefais fy nysgu gan fy nhad-cu i roi arian wrth gefn ac esgus nad oedd yno. Gyda’r cynllun peilot, dyna’r math o beth y gwnes i.’ (PI62 – diwedd y cynllun peilot).

> ‘Felly, dyna beth yr awgrymodd fy rhieni maeth. Roedden nhw wedi rhoi cryn dipyn o arian i mewn iddo pan oedden nhw’n prynu eu tŷ, ac roedden nhw’n dangos i mi sut y mae’n gweithio. Bydden nhw’n dweud, ‘Chei di ddim llog,’ oherwydd yn wreiddiol, roedd gen i ISA, ond fe wnaethon ni dynnu fy arian allan o’r ISA a’i roi mewn bondiau premiwm.’ (PI64 – diwedd y cynllun peilot).

Roedd y gweithwyr proffesiynol yn teimlo nad oedd y derbynyddion a oedd wedi rheoli’r taliadau incwm sylfaenol yn llai llwyddiannus wedi cael ‘y canllawiau a’r terfynau’ a oedd gan eraill (P3, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot). Roedd profiadau o gynilo ar y cynllun peilot yn gymysg ac mae’n debyg eu bod hefyd wedi’u dylanwadu gan hyn (gweler Adran 3.7). Dywedodd y rhan fwyaf o’r cyfranogwyr a oedd yn bobl ifanc nad oedd ganddynt unrhyw ddyled tra’r oeddent ar y cynllun peilot. Fodd bynnag, fel y trafodwyd yn Adran 4.2.2, rhannodd y cyfranogwyr proffesiynol sawl enghraifft o dderbynyddion a oedd wedi cronni dyled ar y cynllun peilot gan nad oeddent yn fodlon talu eu costau tai neu fod y swm a oedd yn ddyledus yn aneglur iddynt.

Mae rhwydwaith cymorth derbynyddion wedi’i ychwanegu fel ffactor cyd-destunol i’r llwybr achosol diwygiedig.

### 5.3.7 Llwybr 7: Bydd y cynllun peilot yn gwella mynediad derbynyddion at drafnidiaeth, ac yn cynyddu’r cyfleoedd sydd ar gael iddynt

Cynigiodd damcaniaeth gychwynnol y rhaglen y byddai gan dderbynyddion fynediad at drafnidiaeth. Defnyddiodd rhai cyfranogwyr a oedd yn bobl ifanc y taliadau incwm sylfaenol i brynu beic neu deithio ar drên, bws neu dacsi, ac roedd llawer yn talu am wersi gyrru, yswiriant neu gar. Esboniodd cyfranogwyr proffesiynol fod mynediad at gar yn rhoi mwy o annibyniaeth a chyfleoedd i dderbynyddion gymryd rhan mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, yn enwedig tra’n byw mewn ardaloedd gwledig (gweler Adran 4.2.4). Roedd hefyd yn galluogi derbynyddion i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, treulio amser gyda ffrindiau a theulu, a mynediad ehangach at dai:

> ‘Pan basiais fy mhrawf gyrru, a fu’n bosib oherwydd y cynllun peilot, heb yr arian hwnnw, ni fyddwn wedi gallu cael gwersi gyrru, ac yna’r prawf a phopeth; a chael fy nghar cyntaf, wrth gwrs. Rhoddodd gymaint mwy o ryddid i mi fynd allan a chwrdd â phobl.’ (PI62 – diwedd y cynllun peilot).

> ‘Talodd hi am yr yswiriant car, a chynyddodd y cyfleoedd o ran rhenti preifat sydd ar gael yn yr hinsawdd ofnadwy rydyn ni’n byw ynddo ar hyn o bryd.’ (P20, pennaeth gwasanaeth – dechrau’r cynllun peilot).

Gwnaeth damcaniaeth gychwynnol y rhaglen ystyried y cysylltiad rhwng gwell mynediad at drafnidiaeth a mwy o gyfleoedd ar gyfer tai diogel a phriodol. Mae dolenni ychwanegol wedi’u hychwanegu at ddamcaniaeth ddiwygiedig y rhaglen i ddangos bod mynediad at drafnidiaeth hefyd yn cynyddu mynediad derbynyddion i’r farchnad lafur, ac addysg a gweithgareddau ystyrlon.

### 5.3.8 Llwybr 8: Bydd y cynllun peilot yn cynyddu gallu derbynyddion i fforddio tai mwy diogel a phriodol

Fel yr adroddwyd yn Adran 3.4, roedd barn gymysg gan y cyfranogwyr a oedd yn bobl ifanc ynghylch a oedd yr incwm sylfaenol wedi arwain at dai mwy diogel a phriodol. Dywedodd rhai o’r cyfranogwyr ifanc nad oedd yr incwm sylfaenol wedi dylanwadu ar eu penderfyniadau ar ble i fyw gan eu bod eisoes wedi bwriadu aros yn eu trefniant presennol neu symud i rywle arall. Fodd bynnag, roedd y cynllun peilot yn galluogi eraill i gael mynediad at dai rhent preifat, ac ychydig yn cynilo ar gyfer blaendal prynu tŷ.

Efallai y bydd natur gyfyngedig amser y cynllun peilot wedi cyfyngu, yn gyffredinol, ar ei effaith ar benderfyniadau tai y rhan fwyaf o’r cyfranogwyr a oedd yn bobl ifanc. Roedd nifer o’r cyfranogwyr wedi ystyried symud i dai rhent preifat, ond nid oeddent yn siŵr a fyddai’n fforddiadwy yn y tymor hwy, ‘pan fydd yr arian yn dod i ben.’ (PI70 – diwedd y cynllun peilot). Roedd hyn hefyd yn bryder i weithwyr proffesiynol, a oedd yn cydnabod y ffaith bod hyn yn golygu bod rhai yn cael llety’n gyflymach ‘gan eu bod wedi gallu cael rhent preifat, fforddiadwy’, ond nodwyd ‘ar ochr arall y geiniog’, pan mae’r cynllun peilot yn dod i ben, maent yn cael eu gadael mewn sefyllfa lle, yn sydyn iawn, nid oes ganddynt fynediad at yr arian hwnnw mwyach. (P67, rheolwr tîm – diwedd y cynllun peilot).

Ar ben hynny, roedd prinder tai yn gyfyngiad digyfnewid ar gyfleoedd pobl ifanc i ddod o hyd i lety addas. Gyda hyn mewn golwg, galwodd sawl gweithiwr proffesiynol am fuddsoddiad pellach gan y llywodraeth mewn tai, gan ddweud: ‘Mae angen tai—dim ond tai—a chymaint mwy o dai. Does dim byd o gwbl.’ (P45, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot). Mae argaeledd tai a hyd y peilot wedi’u hychwanegu fel ffactorau cyd-destunol i’r llwybr hwn yn namcaniaeth ddiwygiedig y rhaglen.

### 5.3.9 Llwybr 9: Bydd y cynllun peilot yn lleihau straen ariannol ac yn gwella iechyd a llesiant derbynyddion

Mae’r llenyddiaeth academaidd ar incwm sylfaenol yn awgrymu y dylai cynlluniau o’r fath leihau straen ariannol derbynyddion, a gwella eu hiechyd a’u llesiant (Johnson a Johnson, 2019). Cefnogwyd y llwybr achosol hwn yn gryf gan y data wrth i bobl ifanc

adrodd bod swm, pa mor rheolaidd oedd y taliadau, a'u sicrwydd wedi eu helpu i deimlo'n fwy diogel ac annibynnol yn ariannol:

> 'Yng nghefn eich pen, dydych chi ddim yn meddwl, o na, alla' i ddim â fforddio hyn y mis hwn, ni allaf fforddio rhoi bwyd ar y plât, ni allaf fforddio rhedeg fy nghar, ni allaf fforddio mynd i'r gwaith a thalu am barcio. Nid oes gennych chi'r mathau hynny o bryderon o gwbl; felly rwy'n credu bod hynny'n amlwg yn arwain at iechyd meddwl cadarnhaol i chi.' (PI71 – diwedd y cynllun peilot).

Roedd hyn yn ymestyn i'r gallu i ymdopi ag amgylchiadau annisgwyl a chwmpasu eu hanghenion hanfodol yn ystod cyfnodau anodd fel digartrefedd, 'oherwydd y mae'n amlwg, pe na bai gen i arian a phe byddwn i'n ddigartref ar yr un pryd, byddwn wedi bod yn ofnus.' (PI65 – diwedd y cynllun peilot). Disgrifiodd un arall sut yr oedd yn darparu sefydlogrwydd tra'n colli swydd:

'Tuag at ddiwedd colli fy swydd, roeddwn i'n gallu parhau i dalu am y lle lle'r oeddwn i'n byw, heb fod â'r syniadau negyddol, 'O, Iesgob, o ble ydw i'n mynd i gael fy arian rhent? O ble ydw i'n mynd i gael bwyd ?'' (PI67 – diwedd y cynllun peilot).

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr a oedd yn bobl ifanc fod y cynllun peilot wedi gwneud iddynt deimlo 'llai o straen' (PI12 – diwedd y cynllun peilot) am eu cyllid, a gwella eu hiechyd a'u llesiant. O ganlyniad, ni wnaed unrhyw newidiadau i'r llwybr achosol yn namcaniaeth ddiwygiedig y rhaglen.

### 5.3.10 Llwybr 10: Bydd y peilot yn cynyddu gallu derbynyddion i gael mynediad at wasanaethau iechyd taladwy

Roedd disgwyl i'r derbynyddion gael gwell mynediad at rai gwasanaethau iechyd taladwy ar y peilot, ond roedd y gefnogaeth yn brin i'r llwybr hwn. Roedd yna ychydig enghreifftiau o dderbynyddion yn defnyddio'r incwm sylfaenol i gael mynediad at bethau fel therapi preifat (gweler Adran 3.2), sythwyr dannedd neu gael tacsi i'r ysbyty. Fodd bynnag, mae'r llwybr hwn yn debygol o fod yn fwy perthnasol i gynlluniau peilot incwm sylfaenol a ddarperir mewn gwledydd sydd â gofal iechyd a ariennir yn breifat, gan fod mwyafrif y gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn cael eu hariannu'n gyhoeddus ac yn rhad ac am ddim lle y'u defnyddir. Gall hefyd fod fwy neu lai yn effeithiol, yn dibynnu ar gyflyrau iechyd sylfaenol neu anableddau unigolyn, a chymhlethdod eu hanghenion. O ganlyniad, mae ffactor cyd-destunol wedi'i ychwanegu at y model rhesymeg diwygiedig i nodi rôl gwasanaethau gofal iechyd a ariennir sydd yn bodoli eisoes.

### 5.3.11 Llwybr 11: Bydd y cynllun peilot yn cynyddu cyfranogiad derbynyddion mewn ymddygiadau sy'n hyrwyddo iechyd

Awgrymodd damcaniaeth gychwynnol y rhaglen y byddai'r incwm sylfaenol yn cynyddu ymdeimlad o ymreolaeth, galluogedd a sicrwydd derbynyddion ac yn arwain at ymddygiadau sy'n hyrwyddo iechyd a gwella iechyd corfforol a meddyliol.

Disgrifiodd y cyfranogwyr ifanc yn rheolaidd eu bod yn fwy egnïol yn gorfforol ar y peilot gan eu bod yn defnyddio arian i ariannu mynd i'r gampfa, nofio, neu ddosbarth dawns. Dywedodd un cyfranogwr a danysgrifiodd i gampfa, 'Pe na byddai gen i'r arian [o'r cynllun peilot], mae'n debyg na fyddwn yn mynd i'r gampfa oherwydd ei fod tua 30 punt y mis.' (PI29 – dechrau'r cynllun peilot). Cyfeiriodd un arall at y cynnydd mewn gweithgareddau fel mantais fawr i'w ffordd o fyw:

> 'Felly, mae'n effeithio ar fy ffordd o fyw, oherwydd mae'n amlwg fy mod i'n fenyw fawr. Mae hyn wedi gwneud i mi fynd allan llawer mwy ac nid wyf yn mynd allan llawer beth bynnag. Felly, roedd yn effeithio ar hynny, ac wedi fy ngwneud i'n hapus. Roedd llai o straen ar fy fywyd yn gyffredinol. Byddai'n gwneud i mi nofio neu fynd i'r gampfa.' (PI12 – diwedd y cynllun peilot).

Fel y disgrifir yn Adran 3.2.4, roedd y newidiadau o ran maeth a adroddwyd gan y cyfranogwyr yn gymysg. Dywedodd ychydig o'r bobl ifanc eu bod yn iachach ar y cynllun peilot gan eu bod yn gallu fforddio 'bwyta'n iawn' (PI56 – diwedd y cynllun peilot) a phrynu bwyd iachach a oedd yn aml yn ddrutach nag opsiynau llai iach. Mewn cyferbyniad, dywedodd eraill eu bod wedi prynu mwy o fwydydd cyfleus neu gludfwydydd. Fel y nodwyd yn Adran 4.2.3, roedd llawer o gyfranogwyr proffesiynol yn pryderu bod yr incwm sylfaenol wedi arwain at gynnydd mewn bwyta bwyd nad oedd yn iach, ac i rai derbynyddion, roedd hyn yn cael effaith niweidiol ar eu hiechyd corfforol. Wrth gwrs, mae'r pryderon a drafodwyd uchod, sef bod y taliadau wedi gwaethygu'r defnydd o sylweddau ac alcohol rhai derbynyddion, hefyd yn ymwneud â'r drafodaeth hon am iechyd. Mae'n bwysig cydnabod bod tystiolaeth i awgrymu bod ymyriadau i gynyddu ymddygiadau iach yn aml yn gofyn am ddull aml-bolisi, felly efallai na fyddai mwy o incwm yn unig yn ddigonol i newid ymddygiad.

Serch hynny, roedd mwyafrif y cyfranogwyr a oedd yn bobl ifanc a gyfwelwyd gennym yn teimlo bod eu hiechyd wedi gwella yn gyffredinol. Nodwyd bod eu hiechyd meddwl a chorfforol yn gysylltiedig â'i gilydd, ac 'os nad yw fy iechyd meddwl yn dda, mae fy iechyd corfforol yn dirywio' ac i'r gwrthwyneb.' (PI23 – dechrau'r cynllun peilot). Datgelodd un cyfranogwr fod ei iechyd meddwl yn wael ar y pryd, gyda'i 'orbryder dros y lle i gyd', a dywedodd fod y cynllun peilot wedi helpu 'yn yr ystyr ei fod wedi gwneud pethau i'w atal [rhag gwaethygu]'. Nodwyd y gallu i fynd 'am dro, ond yna dal trên yn ôl, neu rywbeth tebyg. Cerdded ymhellach.' (PI4 – dechrau'r cynllun peilot).

Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r llwybr achosol hwn yn namcaniaeth ddiwygiedig y rhaglen.

#### 5.3.12 Llwybr 12: Bydd y cynllun peilot yn ymestyn 'gorwelion amser' derbynyddion, a byddant yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn cyflogaeth, addysg a hyfforddiant

Cynigiodd y model rhesymeg cychwynnol y byddai'r incwm sylfaenol yn lleihau ansicrwydd ariannol derbynyddion ac yn cynyddu eu 'gorwelion amser' gan eu

galluogi i edrych y tu hwnt i'r presennol ac ystyried eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol (Fieulaine ac Apostolidis, 2015). Dywedodd rhai cyfranogwyr fod yr incwm sylfaenol wedi eu galluogi i gymryd yr amser i ystyried eu nodau gyrfa a'u dyheadau:

> 'Roeddwn i'n ansicr iawn a oeddwn i eisiau mynd i'r brifysgol ai peidio, ac yna pan wnes i benderfynu peidio, a chymryd ychydig amser i feddwl am y peth a gwneud y penderfyniad hwnnw drosof fy hun, roedd cael y cynllun peilot i'm cefnogi'n ariannol, lle na fyddai'n rhaid i mi boeni am unrhyw beth, yn y bôn, o ran fforddio pethau, yn wych, i fod yn onest.'(PI50 – diwedd y cynllun peilot).

> 'Rhoddodd gyfle i mi weithio pethau allan ychydig. Oherwydd mae'n anodd. Felly, rwy'n credu,  heb hynny, byddwn i'n unig, ac wedi bod ar goll am gymaint hirach yn fy mywyd.' (PI2 – dechrau'r cynllun peilot).

Fel y disgrifir yn Adran 3.3, adroddodd pobl ifanc fwy o ddewis o ran addysg a gweithio tra'u bod yn rhan o'rcynllun peilot wrth i'r taliadau ddiwallu eu hanghenion. O ganlyniad, gallent ymadael â swyddi ag amodau gwael, astudio yn hytrach na gweithio, neu sefydlu eu busnesau eu hunain. Disgrifiodd y bobl ifanc eu bod yn teimlo'n llawn cymhelliant a hyder i wneud y newidiadau hyn gan fod ganddynt y modd ariannol i gynnal eu hunain, boed hynny i dalu am gyrsiau hyfforddi, teithio i'r gwaith neu'r coleg, prynu offer, neu brynu stoc ar gyfer eu busnes newydd:

> 'Nid wyf yn meddwl y byddwn i erioed wedi ystyried gwario cryn dipyn o arian ar fy addysg. Fe wnes i adael addysg i ymuno â'r fyddin, oherwydd doedd gen i ddim diddordeb. Ond eto, gwnaeth hynny fy ngalluogi i feddwl am y dyfodol yn fwy, ac edrych ar gyfleoedd ehangach na'r fyddin yn unig.' (PI64 – diwedd y cynllun peilot).

Esboniodd un arall, na fyddai wedi meddwl am ddychwelyd i addysg cyn hynny, ond sylweddolodd gyda'r cynllun peilot, 'Gallaf fynd yn ôl i'r coleg a sortio'r cyfan fy hun heb gael pobl eraill i dalu amdano.' (PI18 – dechrau'r cynllun peilot).

Bu rhai o'r cyfranogwyr a oedd yn bobl ifanc yn myfyrio ar sut yr oedd ganddynt lai o ryddid ariannol, a llai o ddewis o ran eu cyflogaeth a'u haddysg nawr bod y peilot wedi dod i ben (gweler Adran 3.3):

> 'Mwy o straen nawr i ddod o hyd i swydd. Wedi gorfod cadw at beth bynnag sydd gennyf.' (PI31 – diwedd y cynllun peilot).

Mewn cyferbyniad, ymddengys bod y peilot yn lleihau cymhelliant eraill i gymryd rhan mewn addysg neu waith. Er enghraifft, dywedodd un, 'Doeddwn i ddim yn cael fy ysgogi i gael swydd pan oeddwn ar y BIP oherwydd roeddwn gennyf y meddylfryd, 'Mae gen i arian, felly pam fyddwn i'n mynd i wneud mwy o waith?'" (PI45 – diwedd y cynllun peilot). Dywedodd un arall, 'Gan fod gen i arian, doeddwn i ddim yn meddwl bod angen i mi fynd a chael swydd oherwydd y byddwn heb arian yr wythnos wedyn.' (PI40 – diwedd y cynllun peilot).

Mae hyn yn nodweddu'r safbwynt tymor byr y tybid bod gan rai derbynyddion, yn ôl gweithwyr proffesiynol, a oedd yn pryderu y byddai eu cyfranogiad cyfyngedig mewn cyflogaeth neu addysg yn eu rhoi dan anfantais pan fyddai'r cynllun peilot yn dod i ben (gweler Adran 4.2.4). Awgrymodd y gweithwyr proffesiynol y gellid esbonio'n rhannol ganlyniadau cyflogaeth, addysg a hyfforddiant gwahanol i dderbynyddion gan gymhelliant a oedd yn bodoli eisoes o ran y derbynyddion a'u 'personoliaethau' neu 'ragdueddiad.' (P21, rheolwr tîm – diwedd y cynllun peilot). Nodwyd bod yr incwm sylfaenol wedi gwneud pethau'n haws ac wedi agor cyfleoedd ychwanegol i dderbynyddion a oedd eisoes wedi'u cymell, ac a oedd â chynlluniau i ddilyn addysg neu gyflogaeth. Codwyd rôl cymhelliant cynhenid, gyda chynghorydd personol yn dweud, 'Mae'n dibynnu pa fath o berson ifanc sydd gennych chi.' (P44, cynghorydd personol – diwedd y cynllun peilot). Hefyd, yn cwestiynu 'meddylfryd' derbynyddion, dywedodd un rheolwr:

> 'Roedd y bobl ifanc a oedd â chynlluniau ar gyfer eu dyfodol, gyda'u prifysgol, cael swydd, roedden nhw'n fwy llwyddiannus na'r bobl ifanc a oedd yn eithaf hapus i aros ar fudd-daliadau, a heb ddiddordeb mewn chwilio am hyfforddiant neu gyflogaeth. Roedden nhw'n ymddangos yn llai llwyddiannus na'r rhai a oedd â chynllun ar gyfer eu dyfodol.' (P57, rheolwr tîm – diwedd y cynllun peilot).

Unwaith eto, nodwyd rôl rhwydweithiau cymorth a sefydlogrwydd lleoliad gan weithwyr proffesiynol hefyd fel ffactor hanfodol, gyda chymorth cyson a lleoliadau sefydlog yn eu galluogi i feddwl ymlaen a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Roedd hyn yn rhannol gysylltiedig â chymhelliant, ond hefyd oherwydd bod gan y rhai sydd â'r asedau hyn lai o bryderon:

> 'Does gen i ddim yr un pethau i boeni amdanynt â rhai o'n pobl ifanc. Does dim rhaid iddyn nhw boeni am ble maen nhw'n mynd i gysgu heno, neu o ble daw'r pryd nesaf, gan eu bod nhw mewn lleoliadau sefydlog.' (P67, rheolwr tîm – diwedd y cynllun peilot).

Mae rhwydweithiau cymhelliant, sefydlogrwydd lleoliad a chymorth sy'n bodoli eisoes wedi'u hychwanegu fel ffactorau cyd-destunol i'r llwybr hwn yn namcaniaeth ddiwygiedig y rhaglen.

## 5.4 Crynodeb

Mae'r data ansoddol a gasglwyd hyd yma yn cefnogi llwybrau lluosog yn namcaniaeth gychwynnol y rhaglen. Roedd cyfranogwyr o'r ddau grŵp yn gyffredinol yn cytuno bod y cynllun peilot yn rhoi mwy o ymdeimlad o sicrwydd a rheolaeth i'r derbynyddion, lleihau eu straen ariannol, cynyddu eu mynediad at ystod o weithgareddau a gwella eu llesiant. Cafodd llwybrau eraill lai o gefnogaeth. Er enghraifft, roedd tystiolaeth gyfyngedig bod y cyngor ariannol arbenigol a oedd ar gael fel rhan o'r cynllun peilot wedi cael ei ddefnyddio'n eang ar draws awdurdodau lleol, ac wedi cynyddu gwybodaeth a hyder derbynyddion mewn gwneud

penderfyniadau ariannol yn ôl y disgwyl. Nid yw hyn i ddweud nad oedd llythrennedd ariannol o reidrwydd wedi gwella, gan y gallai mecanweithiau eraill, fel dysgu o'r profiad o reoli mwy o arian, neu gynilo yn rheolaidd, gyflawni hyn.

Ar ben hynny, ychwanegwyd llwybr newydd i gydnabod yr effaith y gallai'r cynllun peilot ei chael ar y rhai a oedd yn agos at y derbynyddion. Roedd y cyfranogwyr a oedd yn bobl ifanc yn aml yn trafod defnyddio'r incwm sylfaenol i gynorthwyo a lleihau caledi ariannol pobl eraill. Fodd bynnag, agwedd negyddol ar hyn oedd bod rhai yn teimlo pwysau i wario neu 'roi benthyg' i bobl eraill, ac roedd y gweithwyr proffesiynol yn pryderu bod yr incwm sylfaenol wedi cynyddu'r risg o ecsbloetio i rai derbynyddion.

Mae'r llwybrau achosol diwygiedig wedi'u crynhoi isod a'u cyflwyno yn Ffigur 3. Y diwygiad mwyaf sylweddol oedd ychwanegu amryfal ffactorau cyd-destunol. Mae'r ffactorau cyd-destunol yn tynnu sylw at y gwahanol ffyrdd y gall incwm sylfaenol weithio i rai unigolion ac mewn rhai amgylchiadau. Yn amlwg, roedd profiadau derbynyddion ar y cynllun peilot yn amrywio'n fawr, gyda bywydau rhai a oedd yn gadael gofal yn cael hwb sylweddol gan yr incwm, tra bod eraill wedi cael profiadau mwy niwtral neu negyddol. Mae damcaniaeth ddiwygiedig y rhaglen yn pwysleisio pwysigrwydd ffactorau fel gwendidau presennol derbynyddion, eu hamgylchiadau byw, a'u rhwydwaith cymorth, yn ogystal â'r adnoddau a'r gwasanaethau a oedd ar gael yn eu hardal leol (er enghraifft, tai), a'r dylanwad a gafodd y rhain ar brofiadau derbynyddion o'r cynllun peilot.

### 35.4.1 Llwybrau achosol model rhesymeg diwygiedig ar gyfer y cynllun peilot incwm sylfaenol ar gyfer pobl yn gadael gofal yng Nghymru

**Llwybr 1: Bydd y cynllun peilot yn cynyddu cyfranogiad derbynyddion mewn gweithgareddau sy'n bwysig iddynt.**

Pan fydd gan dderbynyddion alldaliadau ariannol y gellir eu rheoli, bydd y taliadau incwm sylfaenol yn cynyddu eu hincwm gwario ac yn arwain at ymdeimlad cryfach o ymreolaeth, galluogedd a sicrwydd. Bydd hyn yn arwain derbynyddion i gymryd rhan mewn gweithgareddau 'ystyrlon' ac yn arwain at fwy o sgiliau gwirfoddoli a bywyd, gwell perthnasoedd a llesiant, a llai o unigrwydd.

**Llwybr 2: Bydd y cynllun peilot yn cynyddu gwariant derbynyddion yn y gymuned**

Pan fydd gan dderbynyddion all-daliadau y gellir eu rheoli, bydd y taliadau incwm sylfaenol yn cynyddu eu hincwm gwario a'u hymdeimlad o ymreolaeth, galluogedd a sicrwydd. Bydd hyn yn arwain derbynyddion i gynyddu gwariant yn y gymuned leol (er enghraifft, gwariant arnynt eu hunain a chymryd rhan mewn gweithgareddau). Bydd hyn yn arwain at well llesiant ac yn arwain derbynyddion i deimlo llai o ymdeimlad o wahaniaeth i'w cyfoedion nad ydynt wedi cael profiad o fod mewn gofal. Bydd hefyd yn arwain at fwy o ymgysylltiad a chydlyniant cymunedol.

**Llwybr 3: Bydd y cynllun peilot yn lleihau cyfranogiad derbynyddion mewn troseddu**

Bydd y taliadau incwm sylfaenol yn cynorthwyo pobl ifanc i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol, gan leihau'r tebygrwydd o gymryd rhan mewn troseddu a chynyddu cydlyniant cymunedol.

**Llwybr 4: Bydd y cynllun peilot yn lleihau profiad derbynyddion o dlodi**

Bydd y taliadau incwm sylfaenol yn cynorthwyo pobl ifanc i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol ac yn cael effaith uniongyrchol ar leihau tlodi.

**Llwybr 5**: **Bydd y cynllun peilot yn cael effaith anuniongyrchol ar dlodi eraill**

Pan fydd gan dderbynyddion all-daliadau y gellir eu rheoli, bydd y taliadau incwm sylfaenol yn cynyddu eu hincwm gwario a'u hymdeimlad o ymreolaeth, galluogedd a sicrwydd. Bydd hyn yn arwain derbynyddion i deimlo eu bod yn gallu cynorthwyo eraill sy'n agos atynt yn ariannol pan fo angen. Mae derbynyddion yn gwerthfawrogi'r cyfle i helpu eraill, a bydd gwneud hynny yn gwella eu llesiant ac yn lleihau effeithiau tlodi i eraill. Bydd gwendidau presennol derbynyddion a rhwydwaith cymorth cyfyngedig yn cynyddu'r risg y bydd unigolion yn cael eu hecsbloetio'n ariannol gan eraill.

**Llwybr 6: Bydd y cynllun peilot yn gwella sgiliau rheoli arian derbynyddion**

Pan fydd derbynyddion yn ymgysylltu â chyngor ariannol arbenigol, bydd eu gwybodaeth a'u hyder wrth wneud penderfyniadau ariannol yn gwella'n raddol dros amser a gyda phrofiad (cromlin ddysgu). O ganlyniad, bydd llythrennedd ariannol a diogelwch derbynyddion yn gwella. Mae'r canlyniad hwn yn fwy tebygol pan fydd derbynyddion hefyd yn cael y cyngor ariannol a'r arweiniad gan eu rhwydwaith cymorth.

**Llwybr 7: Bydd y cynllun peilot yn gwella mynediad derbynyddion at drafnidiaeth, ac yn cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt**

Pan fydd gan dderbynyddion all-daliadau y gellir eu rheoli, bydd y taliadau incwm sylfaenol yn cynyddu eu hincwm gwario a'u hymdeimlad o ymreolaeth, galluogedd a sicrwydd. O ganlyniad, bydd gan dderbynyddion fwy o fynediad at drafnidiaeth. Bydd hyn yn cynyddu annibyniaeth derbynyddion a mynediad at weithgareddau 'ystyrlon', tai mwy priodol a diogel, a'r farchnad lafur ac addysg. Bydd hefyd yn helpu i leddfu effeithiau tlodi.

**Llwybr 8: Bydd y cynllun peilot yn cynyddu gallu derbynyddion i fforddio tai mwy diogel a phriodol**

Pan fydd gan dderbynyddion all-daliadau y gellir eu rheoli, bydd y taliadau incwm sylfaenol yn cynyddu eu hincwm gwario a'u hymdeimlad o ymreolaeth, galluogedd a sicrwydd. O ganlyniad, mae gan dderbynyddion fwy o ddewis a mynediad at dai mwy

diogel a phriodol. Mae hyn yn fwy tebygol o ddigwydd pan fydd yr incwm sylfaenol ar gael yn yr hirdymor a bod tai ar gael yn lleol.

**Llwybr 9: Bydd y cynllun peilot yn lleihau straen ariannol ac yn gwella iechyd a llesiant derbynyddion**

Mae'r incwm sylfaenol yn diwallu anghenion sylfaenol derbynyddion yn haws ac mae hyn yn arwain at lai o straen a gwell llesiant ac iechyd corfforol a meddyliol.

**Llwybr 10: Bydd y cynllun peilot yn cynyddu gallu derbynyddion i gael mynediad at wasanaethau iechyd gyda thâl**

Bydd y taliadau incwm sylfaenol yn ei gwneud hi'n haws i dderbynyddion ddiwallu eu hanghenion sylfaenol a chynyddu eu hincwm gwario. O ganlyniad, bydd derbynyddion yn cael gwell mynediad at wasanaethau iechyd (gyda thâl) a gwell iechyd corfforol a meddyliol. Mae hyn yn llai perthnasol pan fydd gwasanaethau gofal iechyd a ariennir yn gyhoeddus ac ar gael am ddim lle y'u defnyddir.

**Llwybr 11: Bydd y cynllun peilot yn cynyddu cyfranogiad derbynyddion mewn ymddygiadau sy'n hyrwyddo iechyd**

Bydd y taliadau incwm sylfaenol yn cynyddu ymdeimlad o ymreolaeth, galluogedd a sicrwydd derbynyddion, a byddant yn cymryd rhan mewn ymddygiadau sy'n hyrwyddo iechyd. Bydd hyn yn helpu i wella iechyd corfforol a meddyliol derbynyddion a lleddfu effeithiau tlodi.

**Llwybr 12: Bydd y cynllun peilot yn ymestyn 'gorwelion amser' derbynyddion, a byddant yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn cyflogaeth, addysg a hyfforddiant**

Bydd y taliadau incwm sylfaenol yn lleihau ymdeimlad o ansicrwydd derbynyddion ac yn ymestyn eu 'gorwelion amser'. Bydd derbynyddion yn llai dibynnol ar waith o ansawdd isel a chyflog isel, a bydd eu cymhelliant a'u hyder yn gwella. O ganlyniad, byddant yn fwy tebyg i fynd ar drywydd cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant a chael gwell mynediad i'r farchnad lafur ac addysg. Mae'r canlyniad hwn yn fwy tebygol o ddigwydd pan fydd gan unigolion gymhelliant i gymryd rhan mewn gwaith neu addysg a rhwydwaith cymorth cryf, sefydlog.

**Ffigur 2: Diagram model rhesymeg cychwynnol ar gyfer y cynllun peilot incwm sylfaenol ar gyfer pobl sy'n gadael gofal yng Nghymru**



Disgrifiad o Ffigur 2: Diagram sy'n cyflwyno'r model rhesymeg cychwynnol ar gyfer y cynllun peilot, gan gynnwys y canlyniadau o ddiddordeb, y mecanweithiau achosol sylfaenol y maent yn cael eu cynhyrchu drwyddynt a'r ffactorau cyd-destunol sy'n galluogi neu'n atal y llwybrau hyn.

Ffynhonnell: Holland ac eraill, 2024.

**Ffigur 3: Diagram model rhesymeg diwygiedig ar gyfer y cynllun peilot incwm sylfaenol ar gyfer pobl sy'n gadael gofal yng Nghymru**



Disgrifiad o Ffigur 3: Diagram sy'n cyflwyno'r model rhesymeg diwygiedig ar gyfer y peilot, gan gynnwys y canlyniadau o ddiddordeb, y mecanweithiau achosol sylfaenol y maent yn cael eu cynhyrchu drwyddynt, a'r ffactorau cyd-destunol sy'n galluogi neu'n atal y llwybrau hyn.

Ffynhonnell: Dadansoddiad gwerthuso, Prifysgol Caerdydd, 2025.

## 6. Trafodaeth

Mae’r dadansoddiad hwn yn cwblhau rhai o’r llinellau ymchwilio a agorwyd yn gynharach yn y gwerthusiad, gan adeiladu ar yr adroddiadau blaenorol mewn dwy brif ffordd. Yn gyntaf, mae’n ychwanegu persbectif empirig at y sylfaen ddamcaniaethol ar gyfer y cynllun peilot a gyflwynwyd gennym yn adroddiad blynyddol cyntaf 2023–2024 (Holland ac eraill, 2024). Roedd damcaniaeth gychwynnol y rhaglen yn seiliedig ar lenyddiaeth a dogfennau polisi, ac yn disgrifio sut y disgwyliwyd i’r cynllun peilot greu newid. Rydym wedi ei diweddaru a’i mireinio gyda data empirig o’r cynllun peilot ei hun, sy’n dangos pa lwybrau achosol sy’n cael eu cefnogi, a pha rai y mae angen eu haddasu, yn seiliedig ar yr hyn yr ydym wedi’i ddysgu o’r gwerthusiad hyd yn hyn. Mae’r dadansoddiad wedi’i ddiweddaru yn mynd i’r afael â’r cwestiwn ymchwil: A ydyw’r cynllun peilot yn cael ei roi ar waith fel y bwriadwyd? Mae’n awgrymu bod cefnogaeth gref i lwybrau o amgylch ymreolaeth, galluogedd, a chyfranogiad mewn gweithgareddau ystyrlon. Mae tystiolaeth o amgylch y llwybr cyngor ariannol arbenigol yn fwy cymysg. Roedd manteision ar y cyngor ariannol a ddarparwyd fel rhan o’r cynllun peilot yn gyfyngedig, er bod hyn yn anodd ei ddehongli. Gall ymgysylltu isel â gwasanaethau cynghori ffurfiol awgrymu bod pobl ifanc yn rheoli’n ddigonol yn hytrach na chael trafferth heb gymorth, neu gall adlewyrchu diffyg gwelededd; hynny yw, bydd rhai wedi anghofio ei fod ar gael. Gall hefyd adlewyrchu oedi ymhlith rhai pobl ifanc i estyn allan am gyngor gan wasanaeth ffurfiol. Mae tystiolaeth hefyd trwy gydol y cyfweliadau o ddysgu profiadol am reoli arian. Mae hyn yn cynnwys pobl ifanc yn myfyrio ar eu gwariant, addasu eu gwariant ac ymddygiad cynilo dros amser, a datblygu strategaethau trwy gael arian i’w rheoli. Lle’r oedd cymorth ffurfiol ac anffurfiol ar gael ac yn cael ei ddefnyddio, roedd yn chwarae rhan ganolog wrth arwain pobl ifanc drwy’r cynllun peilot, a dywedodd rhai pobl ifanc y byddent wedi croesawu canllawiau ariannol mwy strwythuredig. Efallai y bydd fformat a gwelededd y cyngor ariannol felly yn haeddu ystyriaeth bellach wrth ddylunio rhaglenni yn y dyfodol.

Yn wir, cymorth oedd un o’r prif ffactorau cyd-destunol (ynghyd â gwendidau presennol, sefydlogrwydd tai, adnoddau lleol, cyfleoedd cyflogaeth, cymhelliant) a oedd yn penderfynu a oedd y cynllun peilot yn gweithio i wahanol bobl. Arweiniodd cynnwys y dadansoddiad empirig hwn hefyd at ychwanegu llwybr newydd i ddarparu ar gyfer effaith derbynyddion ar eraill. Mae’r ddamcaniaeth ddiwygiedig yn pwysleisio bod canlyniadau yn ddibynnol iawn ar y cyd-destun, gan awgrymu y bydd yr effeithiau yn amrywio’n sylweddol ar draws y garfan o dderbynyddion. Mae hyn yn fantais o ychwanegu’r ddamcaniaeth gychwynnol gyda thystiolaeth o brofiad byw.

Yr ail ddull drwy’r hyn y mae’r adroddiad hwn yn cau agwedd ar yr astudiaeth yw trwy ddilyn dau grŵp pwysig o randdeiliaid i weld sut y mae eu profiadau a’u safbwyntiau wedi newid dros amser. Ynghyd â’r cyfweliadau a’r grwpiau ffocws yr adroddwyd arnynt yn yr adroddiad blynyddol cyntaf, a’r ail, mae hyn yn rhoi dealltwriaeth ddyfnach i ni o sut y gweithiodd y cynllun peilot ar gyfer gwahanol bobl a gymerodd ran, ac yn mynd i’r afael â’r cwestiynau ymchwil: ’Sut brofiad yw’r cynllun peilot?’, a ‘Sut y mae’r cynllun peilot yn cyd-fynd â’r cynnig cyffredinol ar gyfer pobl sy’n gadael gofal yng Nghymru?’ Yn nodedig, mae’n cynnwys profiadau o ymadael â’r cynllun peilot ac addasu i fywyd ar fathau eraill o incwm (ar gyfer derbynyddion) a chefnogi’r trawsnewidiad hwn (i weithwyr proffesiynol).

Mae'r set ddata ansoddol gyfoethog hon yn rhoi sawl cipolwg sy'n berthnasol i'r cynllun peilot cyfredol, ac i ymdrechion eraill i weithredu ac ymchwilio i gynlluniau trosglwyddo arian ledled y byd.

## 6.1 'Rhyddid go iawn'

Mae'r dadansoddiad yn dangos arsylwad Van Parijs' (1997) bod gwahaniaeth rhwng rhyddid ffurfiol (yr hawl neu'r gallu damcaniaethol i wneud rhywbeth) a rhyddid go iawn (y gallu ystyrlon i'w wneud mewn gwirionedd o ystyried digon o adnoddau). Efallai bod pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, sy'n tueddu i fod â llai o rwydwaith ariannol neu ddiogelwch cymdeithasol na'u cyfoedion nad oes ganddynt brofiad o fod mewn gofal, wedi cael rhyddid ffurfiol, ond nid go iawn gan nad oes ganddynt yr adnoddau i wneud y pethau yr hoffent eu gwneud. I lawer, roedd y cynllun peilot yn creu ymdeimlad gwirioneddol o ryddid, gan gael gwyliau, symudedd, a gweithgareddau hamdden hygyrch am y tro cyntaf, heb ddibynnu ar eraill. Mae'r cynllun peilot yn galluogi pobl sy'n gadael gofal i ymarfer rhyddid ystyrlon mewn ffyrdd y mae llawer o'u cyfoedion nad oes ganddynt brofiad o fod mewn gofal yn cymryd yn ganiataol trwy gymorth teuluol. Mae'n ymddangos mai'r ddau alluogwr pwysig yma yw swm y taliadau arian parod a'r diffyg amodau, gyda'i gilydd yn rhoi'r modd a'r ymreolaeth iddynt gael rhyddid go iawn.

## 6.2 Amodau a diamodrwydd

Mae'r mater o amodau yn ein helpu i ddeall y gwahaniaeth yn y ffordd y mae gweithwyr proffesiynol a phobl ifanc yn gweld y cynllun peilot. Roedd derbynyddion yn aml heb ddeall yn glir 'ar gyfer beth' oedd diben yr arian, neu pa amodau a oedd yn dod gyda'r arian, tra bod gweithwyr proffesiynol yn ffafrio amodau ac yn eu gweld fel cyfrwng ar gyfer addysgu gwersi bywyd pwysig ar gyfer y dyfodol i bobl yn gadael gofal (megis arbed arian, ymgysylltu a dangos cymhelliant ar gyfer addysg, hyfforddiant, neu gyflogaeth). Nododd y ddau grŵp fod angen mwy o warchod i sicrhau y gallai pobl ifanc fod yn barod ar gyfer eu dyfodol. Er bod pobl ifanc y buom yn siarad â nhw yn dymuno i hyn gael ei weithredu ar ffurf mwy o oruchwyliaeth, atebolrwydd ac arweiniad, dadleuodd gweithwyr proffesiynol y gallai'r llwybr fod trwy fwy o amodau a gofynion ymddygiadol, a allai fod wedi atal pobl ifanc rhag defnyddio'r arian mewn ffyrdd yr oedd y gweithwyr proffesiynol yn teimlo nad oeddent yn ddoeth. Mae hyn yn tynnu sylw at densiynau hirsefydlog rhwng hyrwyddo ymreolaeth pobl ifanc a phryderon proffesiynol am ddiogelu, a oedd i ryw raddau heb eu datrys erbyn diwedd y cynllun peilot. Mae rhywfaint o dystiolaeth hefyd bod cynghorwyr personol wedi cymhwyso lens 'contract cymdeithasol' (Van der Veen, 1998) i'r cynllun peilot. Mewn geiriau eraill, roedd rhai yn teimlo y dylai (a) pobl ifanc orfod bodloni amodau ymddygiadol penodol er mwyn cael y taliadau, ac y gallai (b) amodau helpu i'w hamddiffyn rhag rhai o'r canlyniadau negyddol a gododd o'r cynllun peilot.

Waeth beth fo'r safbwynt a gymerir ar y mater hwn, mae cwestiynau ynghylch a ydyw'r cyngor a'r cymorth proffesiynol wedi'u cynllunio'n optimaidd. Dywedodd rhai pobl ifanc y byddent wedi croesawu canllawiau ariannol mwy strwythuredig, er ei bod yn werth nodi nad yw'r defnydd isel o wasanaethau cynghori o reidrwydd yn dangos angen heb ei ddiwallu: gellir ei ddehongli fel tystiolaeth bod pobl ifanc yn rheoli'n dda hebddo. Mae yna hefyd bwynt ehangach bod pobl fel arfer yn ceisio cyngor ariannol ar adegau o argyfwng yn

hytrach nag yn rhagweithiol, ac y gall trafod arian gynnwys stigma, yn enwedig i'r rhai sy'n ymwybodol o gael cymorth nad yw eraill wedi bod yn gymwys amdano. Wedi dweud hynny, os yw rhaglenni yn y dyfodol yn anelu at gynyddu ymgysylltiad â chyngor ariannol, efallai y bydd dull mwy strwythuredig, fel sgwrs galw i mewn wedi'u trefnu ymlaen llaw mewn mannau allweddol, yn werth ei ystyried fel dewis arall i ddarparu manylion cyswllt a rhoi'r cyfrifoldeb ar dderbynyddion i geisio cyngor.'

## 6.3 Y presennol a'r dyfodol

Maes arall lle'r oedd gweithwyr proffesiynol a phobl ifanc yn ymwahanu oedd yn eu ffocws ar ffyniant y presennol yn erbyn y dyfodol. O ystyried bod y cynllun peilot wedi targedu grŵp cymharol ifanc o bobl yn gadael gofal, a dim ond newydd ddechrau ar y daith tuag at fod yn oedolyn, nid yw'n syndod bod y mater o fudd-daliadau uniongyrchol a pharhaol yn ffocws penodol. Yn hyn o beth, roedd dwy weledigaeth gyferbyniol o'r cynllun peilot a'r hyn y gallai ei gyflawni, sef un a oedd yn blaenoriaethu anghenion uniongyrchol, megis gwella amgylchiadau presennol, lleddfu pryder a chynyddu urddas, ac un arall a oedd yn gweld y taliadau yn fwy fel cyllideb er mwyn sbarduno llwyddiant yn y dyfodol. Gallwn fod yn hyderus, yn seiliedig ar y naratifau a gynigir gan bobl ifanc, bod y cynllun peilot wedi creu myrdd o fuddion i lawer o dderbynyddion yn y tymor uniongyrchol a'r tymor byr, o ran y nwyddau a'r profiadau y gallent fforddio eu prynu, a'r effeithiau a ddaeth gyda hynny; er enghraifft, llai o straen, mwy o ymreolaeth, ac urddas.

Mae'r ffocws tymor byr hwn yn cyferbynnu â ffocws gweithwyr proffesiynol a llunwyr polisi, a oedd yn aml yn pwysleisio canlyniadau hirdymor. Mae'r dirywiad amlwg mewn safonau byw i rai ar ôl i'r cynllun peilot ddod i ben, a ddangosir trwy straeon rhai cyfranogwyr, yn awgrymu bod hwyluso bywyd heddiw yn werthfawr, gan godi cwestiynau ynghylch a ydyw cymorth dros dro yn creu newid cynaliadwy neu ddim ond yn gohirio caledi. Gallai nifer o'r pethau y gwariwyd arian arnynt gael eu hystyried gan eraill fel eitemau cyffredin bob dydd, sy'n crynhoi'r amddifadedd materol ac absenoldeb cymorth amgen y mae pobl sy'n gadael gofal yn aml yn eu hwynebu. Mae'r rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol wedi cwestiynu dewis y garfan hon oherwydd eu diffyg profiad gydag arian, y bregusrwydd strwythurol y maent yn dod ar eu traws, a'r hyn a ystyriwyd yn llai o allu i 'wneud y mwyaf' o'r gefnogaeth hon.

Mae hyn yn gofyn y cwestiwn: a ydyw rhyddhad dros dro o anfantais yn gynhenid werthfawr, neu a oes rhaid i ymyriadau gael effaith barhaol er mwyn eu cyfiawnhau? Mae'r achos dros y cyntaf yn dibynnu ar y syniad bod gan y wladwriaeth gyfrifoldeb unigryw i bobl sy'n gadael gofal, ac os yw cynllun fel y cynllun peilot incwm sylfaenol yn llwyddo i leddfu eu hanfantais, hyd yn oed am ddwy flynedd ar bwynt critigol o bontio, mae wedi bod yn effeithiol, felly. Wedi'r cyfan, gallai cefnogwyr y ddadl hon ddadlau bod hyn yn cyflawni'r nod polisi o wneud cyfleoedd i bobl sy'n gadael gofal yn fwy tebyg i rai'r boblogaeth ehangach, sydd fel arfer â lefelau uwch o gymorth a modd ariannol. Yn wir, gellir rhesymoli rhai o'r enghreifftiau o wario ar weithgareddau hamdden a gwobrwyon yn y modd hwn. Fodd bynnag, gallai eraill wrthwynebu hyn trwy nodi y dylai arian cyhoeddus sylweddol gynhyrchu buddion hirdymor a allai fod o fudd i gymdeithas gyfan, yn ogystal â'r grŵp sy'n cael y taliadau; efallai trwy fwy o gyfraniadau treth yn y dyfodol, neu lai o ddibyniaeth ar les, llai o ddefnydd o garchardai, ysbytai, a'r system cyfiawnder troseddol. Serch hynny, heb leihau

pwysigrwydd yr effeithiau hirdymor, byddai’n gamgymeriad anwybyddu’r manteision tymor byr diriaethol yr adroddodd llawer o bobl ifanc.

Y naill ffordd neu’r llall, rhan goll o’r ddadl hon yw pa mor bell y mae gwerth tymor byr yn cael effaith barhaol, i’r grŵp yn ei gyfanrwydd (hynny yw, ar gyfartaledd) neu i unigolion neu is-grwpiau ynddo. Os yw’n arwain at effaith barhaol, gallai’r mater presennol / dyfodol fod yn rhaniad artiffisial. Ar y pwynt hwn ni allwn ateb y cwestiwn hwn ar gyfer y cynllun peilot cyfredol, ond bydd ein dadansoddiad o’r effaith sydd i fod i gael ei gyhoeddi yn 2027 yn canolbwyntio’n uniongyrchol ar hyn. Ar ôl i’r gwerthusiad ddod i ben, gyda chymorth Ymchwil Data Gweinyddol Cymru, bydd data dienw yn cael eu hadneuo mewn amgylcheddau ymchwil diogel lle bo hynny’n bosibl, gan gynnwys Banc Data SAIL, er mwyn galluogi cysylltu data ac ymchwil bellach ar effeithiau hirdymor y cynllun peilot.

## 6.4 Ehangu a chyfangu

Yn gysylltiedig â’r drafodaeth am fuddion presennol ac yn y dyfodol, disgrifiodd pobl ifanc cyfnod y cynllun peilot fel un o ehangu a gafodd ei nodweddu gan bosibiliadau newydd a llai o bryder, ac yna ‘cyfangu’ nodedig pan wnaethant ymadael â’r cynllun peilot ac y diflannodd y posibiliadau hyn (i’r mwyafrif o gyfranogwyr). Mae hyn yn tanlinellu’r cyferbyniad a drafodwyd uchod, ond mae hefyd yn tynnu sylw at bŵer diogelwch ariannol hyd yn oed yn y tymor byr. Mae’n awgrymu bod ganddo werth mwy cyffredin yn y presennol yn hytrach na bod yn offeryn allweddol ar gyfer ffyniant yn y dyfodol. O safbwynt dylunio polisi, mae’n ein hatgoffa o gwestiwn hanfodol o ba mor hir y dylai cynlluniau fel y cynllun peilot hwn redeg, a sut y dylid eu rhedeg gyda grwpiau difreintiedig (Baele 2013; Howard ac eraill, 2024). Man cychwyn defnyddiol fyddai ystyried arsylwad Stein (2019) bod cyfnod pontio pobl ifanc sy’n gadael gofal i fod yn oedolion yn cael ei ‘gywasgu’ a’i ‘gyflymu’, a gofynnir pa mor hir y byddai angen i ymyriad sy’n seiliedig ar arian parod fod i fynd i’r afael â hyn. Dyma bwynt y byddwn yn dychwelyd ato mewn adroddiadau blynyddol yn y dyfodol.

O ystyried pa mor amrywiol oedd derbynyddion y cynllun peilot, mae’n annhebygol y bydd yna ateb gorau posibl i’r cwestiwn hwnnw i bawb. Yn ystod y cyfnod o ddwy flynedd, mae’n amlwg bod rhai cyfranogwyr wedi ffynnu a defnyddio’r arian i osod sylfeini cadarn ar gyfer eu dyfodol, gan fynd ar drywydd addysg, cynilion neu gyflogaeth. Roedd eraill yn ymddangos yn llai cymhellol i gymryd rhan mewn gwaith neu addysg, neu (yn yr hyn sy’n ymddangos o’n sampl i fod yn lleiafrif bach o achosion) canfuwyd bod gwendidau fel dibyniaeth neu ecsbloetio yn cael eu gwaethygu gan fynediad at incwm ychwanegol.

## 6.5 Y cynllun peilot fel rhan o system amherffaith

Mae’r dadansoddiad a’n hadroddiadau blaenorol yn dangos, yn hytrach na bodoli mewn gwactod, bod cynlluniau trosglwyddo arian wedi’u hymgorffori mewn systemau cymhleth ac amherffaith. Ar gyfer pobl sy’n gadael gofal sy’n rhan o’r cynllun peilot, ac yn wir i bawb sy’n gadael gofal yng Nghymru, mae’r problemau systemig mwyaf perthnasol ym maes tai a chyflogaeth. Dywedodd pobl ifanc eu bod yn ceisio am gannoedd o swyddi heb lwyddiant, ac yn cwestiynu’r broses a ddefnyddiwyd ar gyfer adolygu ceisiadau fel un annheg ac anghyfiawn. Roedd prinder tai yn golygu, er bod y cynllun peilot yn agor drysau newydd i ystod ehangach ac o ansawdd uwch o opsiynau tai yn ystod y cynllun peilot, roedd rhai yn

wynebu ôl-ddyledion, dyledion eraill, a phroblemau tai eraill yn fuan ar ôl iddynt ymadael â'r cynllun peilot. Un ffordd o edrych ar y cynllun peilot felly yw fel darn dros dro ar system heriol ac, yn y cyd-destun hwnnw, gellid dadlau bod ei botensial trawsnewidiol yn gyfyngedig.

Er fod y cynllun yn un hael—ac mae'r cynllun peilot hwn yn parhau i fod y cynllun trosglwyddo arian parod mwyaf hael yn y byd hyd yma—effaith gyfyngedig yn unig sydd i'r cynllun peilot hwn, heb ymyriadau cyflenwol yn mynd i'r afael â chyfleoedd tai a chyflogaeth. Yn hyn o beth, mae'r cynllun peilot yn tynnu sylw at yr angen am newidiadau polisi dyfnach yn y ffordd y mae'r wladwriaeth yn cynorthwyo pobl sy'n gadael gofal, a grwpiau difreintiedig eraill.

Mae tai yn haeddu ffocws penodol, ac mae hwn yn fater yr ydym yn bwriadu dychwelyd ato yn fwy manwl yn yr adroddiad blynyddol nesaf pan fyddwn yn cau'r dadansoddiad ar weithredu. Yn y cyfamser, mae'n ymddangos yn amlwg bod natur amserol y cynllun peilot wedi oedi yn hytrach nag atal problemau tai i lawer o bobl ifanc, a allai fforddio llety yn ystod cyfnod y cynllun peilot ond yn wynebu ôl-ddyledion a dyled pan ddaeth i ben, gyda rhai bellach mewn llety brys neu dai dros dro. Mae hyn yn dangos bod newid go iawn yn gofyn am atebion strwythurol i 'broblemau dyrys' (Alford a Head, 2017) sy'n gallu teimlo'n anhygoel o anodd i'w gyflawni. Heb hyn, mae ymyriadau ar wahân fel y cynllun peilot yn ffyrdd dros dro o reoli anfantais yn hytrach na mynd i'r afael â'i achosion sylfaenol.

## Casgliadau

Mae'r naratifau ansoddol sy'n sail i'r adroddiad hwn yn dangos rhai o'r mecanweithiau y mae newid yn digwydd drwyddynt, a pham y mae disgwyl i ganlyniadau amrywio ar draws y garfan o bobl ifanc a gymerodd ran yn y cynllun peilot. Mae llawer o ymatebion y cyfranogwyr yn cynnwys deunydd gwrthffeithiol wedi'u hymgorffori; er enghraifft, wrth iddynt esbonio na fyddent wedi gallu fforddio'r pethau a brynwyd ganddynt yn ystod cyfnod y cynllun peilot. Ar lefel unigol, mae hyn yn darparu tystiolaeth achosol gredadwy, er ei fod yn ddyfaliadol yn ei hanfod, gan fod y gwrthffeithiol yn cael ei ddychmygu ac nid ei brofi. Mae'r mwyafrif helaeth o'r rhai sy'n gymwys ar gyfer y cynllun peilot (97%; Llywodraeth Cymru, 2024) wedi cofrestru, ac ymddengys bod y mwyafrif yn croesawu'r taliadau. Ar ôl hynny, roedd profiadau yn ystod ac ar ôl y cynllun peilot yn amrywio'n sylweddol, yn dibynnu ar amgylchiadau personol a chyd-destunau unigol.

Mae'r naratifau yn esbonio'r ffactorau cyd-destunol ac unigol hyn yn fyw, gan gynnwys pam y mae ymreolaeth yn bwysig, sut y mae urddas a llai o stigma yn fuddiol, a sut y mae llai o straen ariannol yn galluogi cynllunio yn y dyfodol. Yn yr un modd, mae'r naratifau hyn yn rhoi cipolwg ar sut y gallai'r trosglwyddiadau arian fod wedi cael effeithiau negyddol, neu sut y mae ffactorau systemig fel tai yn effeithio ar ddewisiadau pobl ifanc a chyfleoedd bywyd. Fodd bynnag, mae angen y data o ran canlyniadau meintiol (sydd ar ddod yn 2027) i ganfod a ydyw'r manteision a'r anfanteision canfyddedig hyn yn trosi i newidiadau mesuradwy. Bydd y data o ran canlyniadau yn cael eu casglu trwy arolygon a chofnodion gweinyddol, ac yn cwmpasu llesiant derbynyddion, llythrennedd ariannol / diogelwch, cydlyniant / ymgysylltu cymunedol, tlodi, cyflogaeth ac addysg, gwirfoddoli a sgiliau bywyd, ac iechyd corfforol a meddyliol (Sanders ac eraill, 2025). Bydd dadansoddiad economaidd hefyd yn darparu persbectif cost-effeithiol. Dylid nodi, fodd bynnag, na fydd y gwerthusiad erbyn 2027, hyd yn oed, ond yn gallu ystyried data ar ganlyniadau tymor byr ac effeithiau economaidd, a bydd angen mesur yr effaith tymor hwy mewn blynyddoedd i ddod wrth i'r derbynyddion fynd yn hŷn. Bydd y ddau adroddiad nesaf yn canolbwyntio mwy ar effaith, ond bydd angen asesu effaith tymor hwy y tu hwnt i amserlen y gwerthusiad presennol hwn.

Mae gan yr adroddiad hwn ddau brif oblygiad i bolisi ac ymarfer. Yn gyntaf, mae'n codi cwestiynau ynghylch sut orau i ddylunio cymorth ochr yn ochr â throsglwyddiadau arian. Roedd y defnydd o'r gwasanaeth cynghori ariannol yn isel, er na allwn ddweud yn sicr pam y bu felly. Gall adlewyrchu fformat y cynnig, neu gall awgrymu bod llawer o bobl ifanc yn rheoli'n annibynnol. Fel y nodwyd uchod, mae rhywfaint o dystiolaeth o ddysgu sy'n seiliedig ar brofiad mewn perthynas â llythrennedd ariannol. Lle'r oedd pobl ifanc eisiau arweiniad, roedden nhw'n tueddu i chwilio amdano yn eu rhwydweithiau presennol. Mae hyn yn awgrymu y gallai ffurfiau rhagweithiol neu rai sy'n seiliedig ar berthynas fod yn werth eu hystyried mewn mentrau polisi yn y dyfodol. Yn ail, mae'r cyferbyniad llwyr rhwng bywyd yn ystod ac ar ôl y cynllun peilot yn codi cwestiynau am hyd a chynaliadwyedd rhaglenni o'r fath. Er bod dwy flynedd o ddiogelwch ariannol yn darparu manteision clir i lawer o dderbynyddion, mae'r anawsterau a wynebodd rhai wrth ymadael â'r prosiect yn codi cwestiynau ynghylch a fyddai rhyddhau'r taliadau yn raddol wedi helpu i lyfnhau'r

trawsnewid, ac—yn fwy sylfaenol—a all cynlluniau peilot sydd wedi’u cyfyngu gan amser greu newid cynaliadwy heb fynd i’r afael â materion strwythurol sylfaenol.

Wrth i’r gwerthusiad barhau, byddwn yn adeiladu ar y data ansoddol hyn gan unigolion sydd â thystiolaeth feintiol i ddarparu asesiad o effaith y cynllun peilot ar lefel polisi. Mae’r profiadau a gyflwynir yma yn cynnig cyd-destun hanfodol ar gyfer deall nid yn unig a oedd y peilot yn gweithio, ond sut, pam, ac i bwy. Mae’r rhain yn gwestiynau sy’n parhau i fod yn ganolog i lywio polisi yn y dyfodol ar gyfer pobl sy’n gadael gofal yng Nghymru a thu hwnt.

## Cyfeiriadau


Alford J, Head B (2017), 'Wicked and less wicked problems: a typology and a contingency framework', Policy and Society, cyfrol 36, rhifyn 3, tudalennau 397 i 413, ar gael yn: https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/14494035.2017.1361634

Arnett JJ (2000), 'Emerging adulthood. A theory of development from the late teens through the twenties', American Psychologist, cyfrol 55, rhifyn 5, tudalennau 469 i 480, ar gael yn: https://psycnet.apa.org/record/2000-15413-004

Arnett JJ (2007), 'Emerging Adulthood: What Is It, and What Is It Good For?', Child Development Perspectives, cyfrol 1, rhifyn 2, tudalennau 68 i 73, ar gael yn: https://srcd.onlinelibrary.wiley.com/doi/abs/10.1111/j.1750-8606.2007.00016.x?casa_token=LAOwOi0k_W8AAAAA%3AgneVsbJ3EI8pPDKfW7XjS4ZQtRgUsPWl9Aixw9h4P_sFBJC5uLZ__ZdozUWZd_15lwpfuktURy3vHaU

Baele S (2013), 'The ethics of new development economics: is the experimental approach to development economics morally wrong?', Journal of Philosophy Economics, cyfrol 7, rhifyn 1, ar gael yn: https://jpe.episciences.org/10653

Basic Income Earth Network, 'About basic income', ar gael yn: https://basicincome.org/about-basic-income/

Bergen N, Labonté R (2019), '"Everything is perfect, and we have no problems": Detecting and limiting social desirability bias in qualitative research', Qualitative Health Research, cyfrol 30, rhifyn 5, ar gael yn: https://journals.sagepub.com/doi/10.1177/1049732319889354

Bonell C ac eraill (2015), 'Dark logic': theorising the harmful consequences of public health interventions', Epidemiology & Community Health, cyfrol 69, rhifyn 1, tudalennau 95 i 98, ar gael yn: https://jech.bmj.com/content/69/1/95

Calnitsky D, Latner JP (2017), 'Basic Income in a small town: understanding the elusive effects on work', Social Problems, cyfrol 64, rhifyn 3, tudalennau 373 i 397, ar gael yn: https://academic.oup.com/socpro/article-abstract/64/3/373/3089762

Chen HT (2014), 'Practical program evaluation: theory-driven evaluation and the integrated evaluation perspective', Llundain: SAGE Publications

Chen T ac eraill (2023), 'Quantifying the mental health and economic impacts of prospective universal basic income schemes among young people in the UK: a microsimulation modelling study', BMJ Open, cyfrol 13, rhifyn 10, ar gael yn: https://bmjopen.bmj.com/content/13/10/e075831

Common Sense Policy Group (2025), 'Basic income: the policy that changes everything', Bryste: Policy Press

Copestake J ac eraill (2019), 'Attributing development impact', Rugby: Practical Action Publishing

Cross S ac eraill (2022), 'Housing, homelessness and children's social care: towards an urgent research agenda', The British Journal of Social Work, cyfrol 52, rhifyn 4, tudalennau 1988 i 2007, ar gael yn: https://academic.oup.com/bjsw/article/52/4/1988/6350060

De Paz-Báñez M ac eraill (2020), 'Is there empirical evidence on how the implementation of a universal basic income (UBI) affects labour supply? A systematic review', Sustainability, cyfrol 12, rhifyn 22, ar gael yn: https://www.mdpi.com/2071-1050/12/22/9459

Evans K (2002), 'Taking control of their lives?  Agency in young adult transitions in England and the New Germany', Journal of Youth Studies, cyfrol 5, rhifyn 3, tudalennau 245 i 269, ar gael yn: https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1080/1367626022000005965

Fereday J, Muir-Cochrane E (2006), 'Demonstrating rigor using thematic analysis: a hybrid approach of inductive and deductive coding and theme development', International Journal of Qualitative Methods, cyfrol 5, rhifyn 1, tudalennau 80 i 92, ar gael yn: https://journals.sagepub.com/doi/10.1177/160940690600500107

Fieulaine N, Apostolidis T (2015), 'Precariousness as a time horizon:  How poverty and social insecurity shape individuals' time perspectives', yn:  Stolarski M ac eraill (gol), 'Time perspective theory: review, research and application', Springer:  Cham, tudalennau 213 i 228, ar gael yn: https://link.springer.com/chapter/10.1007/978-3-319-07368-2_14

Foley N ac eraill (2025), 'Support for Care Leavers', Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, ar gael yn: https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/cbp-8429/

Francisco C ac eraill (2024), 'Labour supply reactions to basic income: insights from 60 years of research', Socio-Economic Review, cyfrol 22, rhifyn 3, tudalennau 1559 i 1581, ar gael yn: https://academic.oup.com/ser/article-abstract/22/3/1559/7610775?redirectedFrom=fulltext

Gibson M ac eraill (2018), 'Potential effects of universal basic income: a scoping review of evidence on impacts and study characteristics', What Works Scotland, ar gael yn: https://whatworksscotland.ac.uk/publications/universal-basic-income-scoping-review-of-evidence-on-impacts/

Hasdell R (2020), 'What we know about the universal Basic Income: a cross-synthesis of reviews', ar gael yn: https://basicincome.stanford.edu/research/papers/what-we-know-about-universal-basic-income/

Holland S ac eraill (2024), 'Gwerthusiad peilot incwm sylfaenol i bobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghymru: adroddiad blynyddol, 2023 i 2024', Caerdydd:  Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 12/2024, ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-peilot-incwm-sylfaenol-i-pobl-ifanc-syn-gadael-gofal-yng-nghymru-adroddiad-blynyddol

Howard N a Mathur V (2025), 'Basic Income, Labour Power, and the Exit Option – An Empirical Examination', Basic Income Studies, ar gael yn: https://www.degruyterbrill.com/document/doi/10.1515/bis-2025-0007/html

Howard N ac eraill (2024), 'Doing radical things: ethical good practice for basic income experiments', Y Ganolfan Astudiaethau Datblygu, ar gael yn:

https://researchportal.bath.ac.uk/en/publications/doing-radical-things-right-ethical-good-practice-for-basic-income-2/

Howard N ac eraill (2025), ‘Designing basic income pilots for community development: What are the key community concerns? Evidence from citizen engagement in Northern England’, Local Development & Society, cyfrol 6, rhifyn 1, tudalennau 80 i 96, ar gael yn: https://www.tandfonline.com/doi/citedby/10.1080/26883597.2023.2269483?sc

Johnson EA ac eraill (2025), ‘What role do young people believe universal basic income can play in supporting their mental health?’ Journal of Youth Studies, cyfrol 28, rhifyn 1, tudalennau 175 i 194, ar gael yn: https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/13676261.2023.2256236

Johnson M ac eraill (2019), ‘Exploring the health case for universal basic income: evidence from GPs working with precarious groups’, Basic Income Studies, cyfrol 14, rhifyn 2, tudalen 20190008, ar gael yn: https://www.degruyterbrill.com/document/doi/10.1515/bis-2019-0008/html

Johnson M ac eraill (2022), ‘Designing trials of universal basic income for health impact: identifying interdisciplinary questions to address’, Journal of Public Health, cyfrol 44, rhifyn 2, tudalennau 408 i 416, ar gael yn: https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/33445181/

Johnson MT a Johnson E (2019), ‘Stress, domination and basic income: considering a citizens’ entitlement response to a public health crisis’, Social Theory & Health, cyfrol 17, tudalennau 253 i 271, ar gael yn: https://link.springer.com/article/10.1057/s41285-018-0076-3

Jones A (2021), ‘Incwm sylfaenol i wella iechyd a llesiant y boblogaeth yng Nghymru?’, Caerdydd: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, ar gael yn: https:///icc.gig.cymru/cyhoeddiadau/cyhoeddiadau/incwm-sylfaenol-i-wella-iechyd-a-llesiant-y-boblogaeth-yng-nghymru/

Jütten T (2017), ‘Dignity, esteem, and social contribution: a recognition-theoretical view’ Journal of Political Philosophy, cyfrol 25, tudalennau 259 i 280, ar gael yn: https://onlinelibrary.wiley.com/doi/10.1111/jopp.12115

Kopec A (2023) ‘Policy feedback & research methods: how qualitative research designs with marginalized groups inform theory’, International Journal of Qualitative Methods, cyfrol 22, ar gael yn: https://journals.sagepub.com/doi/10.1177/16094069231217915#bibr33-16094069231217915

Lipsky M (1980), ‘Street-level bureaucracy: the dilemmas of the individual in public service’, Russell Sage Foundation: Efrog Newydd

Cyflog Byw Cymru (2023), ‘Beth yw’r Cyflog Byw go iawn? – Cyflog Byw Cymru’. Ar gael yn: https://cyflogbyw.cymru/beth-ydy-e/

Mathur V (2024), ‘Ethical research in cash-transfer programs’, Development in Practice, tudalennau 1 i 17, ar gael yn: https://doi.org/10.1080/09614524.2024.2428298.

Mathur V ac eraill (2025), ‘Gwerthuso’r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy’n Gadael Gofal yng Nghymru: Ail Adroddiad Blynyddol, 2024 i 2025’, Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR: 20/2025, ar gael yn: https:// www.llyw.cymru/gwerthusiad-peilot-incwm-sylfaenol-i-pobl-ifanc-syn-gadael-gofal-yng-nghymru-adroddiad-blynyddol-2024-2025

Maxwell JA (2012), ‘The importance of qualitative research for causal explanation in education’, Qualitative Inquiry, cyfrol 18, rhifyn 8, tudalennau 655 i 661, ar gael yn: https://journals.sagepub.com/doi/10.1177/1077800412452856

McNaught C, Lam P (2010), ‘Using Wordle as a supplementary research tool’. Adroddiad Ansoddol, cyfrol 15, rhifyn 3, tudalennau 630 i 643

Meyer SB, Lunnay B (2013), ‘The application of abductive and retroductive inference for the design and analysis of theory-driven sociological research’, Sociological Research Online, cyfrol 18, rhifyn 1, tudalennau 86 i 96, ar gael yn: https://journals.sagepub.com/doi/10.5153/sro.2819

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025a), ‘Drug misuse in England and Wales: year ending March 2025’, ar gael yn: https://www.cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/drugmisuseinenglandandwales/yearendingmarch2025

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025b), ‘Young people not in Education, Training or Employment (NEET)’, ar gael yn: https://www.cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peoplenotinwork/unemployment/datasets/youngpeoplenotineducationemploymentortrainingneettable1

Palmer A ac eraill (2022), ‘Accelerated adulthood, extended adolescence and the care cliff: Supporting care leavers’ transition from care to independent living’, Children and Family Social Work, cyfrol 27, rhifyn 4, tudalennau 748 i 759, ar gael yn: https://onlinelibrary.wiley.com/doi/10.1111/cfs.12922

Pawson R (2013), ‘The science of evaluation’, Llundain: Sage Publications

Pawson R, Tilley N (1997), ‘Realistic evaluation’, Llundain: Sage Publications

Petäjä UK ac eraill (2023), ‘The prevalence of high-risk behaviour among adolescents in after-care services and transitioning from out-of-home care: a systematic review’, Adolescent Research Review, cyfrol 8, rhifyn 3, tudalennau 323 i 337, ar gael yn: https://link.springer.com/article/10.1007/s40894-022-00198-1

Phillips AR ac eraill (2023), ‘A scoping review of factors associated with the mental health of young people who have “aged out” of the child welfare system’, Trauma, Violence, & Abuse, cyfrol 25, rhifyn 3, tudalennau 1780 i 1798, ar gael yn: https://journals.sagepub.com/doi/10.1177/15248380231196107

Reed H ac eraill (2024), ‘Estimating the effects of basic income schemes on mental and physical health among adults ages 18 and above in the UK: a microsimulation study’, cyfrol

1, rhifyn 7, ar gael yn
https://journals.plos.org/mentalhealth/article?id=10.1371/journal.pmen.0000206

Roberts L ac eraill (2025), 'Innovative and ambitious or unrealistic and risky? Initial professional perspectives on the basic income for care leavers in Wales pilot', The British Journal of Social Work, ar gael yn: https://academic.oup.com/bjsw/advance-article/doi/10.1093/bjsw/bcaf124/8186235

Rogers J ac eraill (2025), 'Way beyond the care cliff: Exploring a housing and support service for care experienced people over 25'. Journal of Children's Services, cyfrol 20, rhifyn 1, tudalennau 27 i 42, ar gael yn: https://doi.org/10.1108/rev3.09-2024-0040.

Sanders M ac eraill (2025), 'Gwerthuso'r cynllun peilot incwm sylfaenol i bobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghymru: cynllun dadansoddi ystadegol', Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR: 58/2025, ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusor-cynllun-peilot-incwm-sylfaenol-i-bobl-ifanc-syn-gadael-gofal-yng-nghymru-cynllun-dadansoddi-ystadegol

Sen A (2014), 'Development as freedom', Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen

Smith N (2017), 'Neglected minds: a report on mental health support for young people leaving care', Barnardo's, ar gael yn: https://careleaverpp.org/resources/neglected-minds/

StatsCymru (2019) 'Mesurau perfformiad gwasanaethau cymdeithasol meintiol – Plant a phobl sy'n Gadael Gofal', Caerdydd: Llywodraeth Cymru, ar gael yn: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Performance-Measures/quantitativesocialservicesperformancechildren-by-measures

Stein M (2012), 'Young people leaving care: supporting pathways to adulthood', Llundain: Jessica Kingsley Publishers

Stein M, (2019), 'Supporting young people from care to adulthood: International practice', rhifyn arbennig: Teenagers in Foster Care, cyfrol 34, rhifyn 3, tudalennau 400 i 405, ar gael yn: https://onlinelibrary.wiley.com/doi/10.1111/cfs.12473

Van Der Veen RJ (1998), 'Real freedom versus reciprocity: competing views on the justice of unconditional basic income', Political Studies, cyfrol 36, rhifyn 1, tudalennau 140 i 163, ar gael yn: https://journals.sagepub.com/doi/10.1111/1467-9248.00134

Van Parijs P (1997), 'Real freedom for all: what (if anything) can justify capitalism?', Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen

Walker R ac eraill (2013), 'Poverty in global perspective: is shame a common denominator?' Journal of Social Policy, cyfrol 42, rhifyn 2, tudalennau 215 i 233, ar gael yn: https://www.cambridge.org/core/journals/journal-of-social-policy/article/abs/poverty-in-global-perspective-is-shame-a-common-denominator/DED0C9DC02D8ABCAA8F177BA3CC477AB

Llywodraeth Cymru (2017), 'Cronfa Dydd Gŵyl Dewi gwerth £1 miliwn ar gyfer pobl ifanc sydd wedi cael profiad o'r system ofal', Caerdydd: Llywodraeth Cymru, ar gael yn:

https://www.llyw.cymru/cronfa-dydd-gwyl-dewi-gwerth-ps1-miliwn-ar-gyfer-pobl-ifanc-sydd-wedi-cael-profiad-or-system-ofal

Llywodraeth Cymru (2022a), 'Cynllun peilot incwm sylfaenol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal: trosolwg o'r cynllun ', Caerdydd: Llywodraeth Cymru, ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cynllun-peilot-incwm-sylfaenol-ar-gyfer-pobl-ifanc-syn-gadael-gofal-trosolwg-or-cynllun

Llywodraeth Cymru (2022b), 'Datganiad Ysgrifenedig: Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru', Caerdydd: Llywodraeth Cymru, ar gael yn: https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cynllun-peilot-incwm-sylfaenol-i-bobl-ifanc-syn-gadael-gofal-yng-nghymru

Llywodraeth Cymru (2024), 'Ystadegau Peilot Incwm Sylfaenol i bobl sy'n gadael gofal yng Nghymru: Awst 2022 i Orffennaf 2024', ar gael yn: https://www.llyw.cymru/ystadegau-peilot-incwm-sylfaenol-i-bobl-syn-gadael-gofal-yng-nghymru-awst-2022-i-gorffennaf-2023-0

Llywodraeth Cymru (2025a), 'Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET): 2024', Caerdydd: Llywodraeth Cymru, ar gael yn: https://www.llyw.cymru/pobl-ifanc-heb-fod-mewn-addysg-cyflogaeth-neu-hyfforddiant -neet-2024-html

Llywodraeth Cymru (2025b), 'Tasglu Tai Fforddiadwy: adroddiad ac argymhellion', Caerdydd: Llywodraeth Cymru, ar gael yn: https://www.llyw.cymru/tasglu-tai-fforddiadwy-adroddiad-ac-argymhellion -html

Westlake D ac eraill (2024), 'The basic income for care leavers in Wales pilot evaluation: protocol of a quasi-experimental evaluation', PLOS ONE, cyfrol 19, rhifyn 10, ar gael yn: https://journals.plos.org/plosone/article?id=10.1371/journal.pone.0303837

Wilson N, McDaid S (2021), 'The mental health effects of a universal basic income: A synthesis of the evidence from previous pilots', Social Science & Medicine, cyfrol 287, ar gael yn: https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0277953621007061?via%3Dihub

Yang J ac eraill (2021), 'Review on basic income (BI): its theories and empirical cases'. Journal of Social & Economic Development, cyfrol 23, tudalennau 203 i 239, ar gael yn: https://link.springer.com/article/10.1007/s40847-021-00151-3

# Atodiad A: Canllaw pynciau cyfweliad enghreifftiol ar gyfer pobl ifanc

1. Ymarfer rhagarweiniol: Gofynnwyd i bob cyfranogwr feddwl am hyd at dri gair i ddisgrifio'r cynllun peilot neu eu profiadau ohono.

2. Safbwyntiau ar ddyluniad y cynllun peilot

   - Y rhai sy'n gadael gofal fel derbynyddion
   - Grŵp oedran
   - Swm yr arian a ddarperir
   - Hyd y cynllun peilot – dwy flynedd
   - Diamodrwydd y cynllun peilot
   - Awgrymiadau dylunio yn y dyfodol

3. Effeithiau canfyddedig y peilot ar y canlynol:

   - Addysg, hyfforddiant a gwaith
   - Llesiant goddrychol
   - Perthnasoedd
   - Llythrennedd ariannol, cynilion a dyledion
   - Tai
   - Teithio a hamdden

4. Ymgysylltu â chymorth

   - Cyngor ar Bopeth
   - Cynghorwyr personol
   - Eraill (teulu, gofalwyr, partneriaid, ffrindiau, gweithwyr cymorth)

5. Diwedd y cynllun peilot

   - Cyfathrebu am y diwedd
   - Parodrwydd ariannol a meddyliol
   - Trosglwyddo i Gredyd Cynhwysol a phrofiadau ohono (os yw'n berthnasol)

6. Sylwadau terfynol

- Myfyrdodau ar yr hyn y byddent yn ei wneud yr un peth / yn wahanol pe baent yn dechrau eto
- Cyngor i lywodraethau a phobl ifanc pe bai'r peilot yn cael ei wneud eto

## Atodiad B: Canllaw pynciau grŵp ffocws enghreifftiol ar gyfer gweithwyr proffesiynol

1. Ymarfer rhagarweiniol: Gofynnwyd i bob cyfranogwr feddwl am hyd at dri gair i ddisgrifio'r cynllun peilot neu eu profiadau ohono.

2. Effeithiau canfyddedig y cynllun peilot i bobl ifanc:

- Effeithiau cadarnhaol
- Effeithiau negyddol
- Rhesymau dros ganlyniadau gwahaniaethol i wahanol bobl ifanc

3. Canfyddiadau o gymorth a ddarperir i bobl ifanc:

- Unrhyw wahaniaethau yn y cymorth a ddarperir yn ystod y cynllun peilot (er enghraifft, maint a natur y cymorth)
- Cymorth a ddarparwyd tua diwedd y cynllun peilot
- Ymgysylltiad pobl ifanc â chymorth

4. Y canfyddiadau o ddiwedd y cynllun peilot:

- Sut y mae diwedd y cynllun peilot wedi mynd
- Parodrwydd pobl ifanc ar gyfer diwedd y cynllun peilot

5. Gweithredu:

- Heriau a llwyddiannau wrth weithredu'r cynllun peilot
- Cyfathrebu â Llywodraeth Cymru
- Gweithio gyda phartneriaid (er enghraifft, Cyngor ar Bopeth, awdurdodau lleol, darparwyr tai)

6. Sylwadau i gloi:

- Gofynnwyd iddynt ddychmygu sut y byddent yn dylunio cynllun incwm sylfaenol newydd (er enghraifft, swm y taliad, hyd, amodau)
- Gofynnwyd pe byddai'r llywodraeth yn ystyried buddsoddi swm tebyg yn y dyfodol, sut y byddent yn awgrymu eu bod yn ei ddefnyddio i gynnal pobl sy'n gadael gofal

## Atodiad C: Cwmwl geiriau yn seiliedig ar gyflwyniadau cryno tri gair gweithwyr proffesiynol ar ddechrau'r cynllun peilot




Disgrifiad o'r ffigur: Cwmwl geiriau yn cyflwyno'r geiriau a ddefnyddiwyd gan weithwyr proffesiynol i ddisgrifio'r cynllun peilot ar y dechrau. Mae maint y gair yn adlewyrchu'r amlder y cafodd ei ddefnyddio, gyda geiriau mwy yn cael eu defnyddio'n amlach. Y gair a ddefnyddiwyd amlaf oedd 'cyfle', ac yna 'arloesol', 'heriol', 'dryslyd' ac 'anhrefnus'.

Ffynhonnell: Dadansoddiad gwerthuso, Prifysgol Caerdydd, 2025.

## Atodiad D: Crynodeb o’r diwygiadau a wnaed i ddamcaniaeth gychwynnol y rhaglen

| | Llwybr achosol |
|---|---|
| Ffactorau cyd-destunol ychwanegol: | |
| Bregusrwydd presennol y derbynyddion | 5 |
| Cymhelliant derbynyddion sy’n bodoli eisoes i gymryd rhan mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant | 12 |
| Rhwydwaith cymorth derbynyddion | 5, 6 a 12 |
| Sefydlogrwydd lleoliad derbynyddion | 12 |
| Hyd y cynllun peilot | 8 |
| Argaeledd tai lleol | 8 |
| Gwasanaethau gofal iechyd wedi’u hariannu sydd ar gael | 10 |
| Mecanweithiau ychwanegol (ymatebion): | |
| Llai o ymdeimlad o wahaniaeth rhwng derbynyddion a’u cyfoedion nad oes ganddynt brofiad o ofal | 2 |
| Gwariant cynyddol derbynyddion ar eraill | 5 |
| Golygiadau i fecanweithiau presennol (ymatebion): | |
| “Treulio amser gyda theulu a ffrindiau” wedi’i uno â “chyfranogiad mewn gweithgareddau ystyrlon” | 1 |
| Canlyniadau ychwanegol: | |
| effaith tlodi i eraill | 5 |
| Cysylltiadau ychwanegol rhwng cydrannau presennol: | |
| Mwy o wariant yn y gymuned leol (mecanwaith: ymateb) sy’n gysylltiedig â gwella llesiant (canlyniad) | 2 |
| Mwy o fynediad at drafnidiaeth (mecanwaith: ymateb) sy’n gysylltiedig â gwell mynediad i’r farchnad lafur ac addysg (canlyniad) a chyfranogiad mewn gweithgareddau ‘ystyrlon’ (canlyniad). | 7 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad gwerthuso, Prifysgol Caerdydd, 2025.